play
safety
forum



# Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae:

## Canllaw Gweithredu

David Ball, Tim Gill a Bernard Spiegal

## Play Safety Forum

Mae'r Play Safety Forum, a ffurfiwyd ym 1993, yn bodoli i ystyried a hyrwyddo lles plant a phobl ifainc trwy sicrhau y ceir cydbwysedd rhwng diogelwch, risg a her o fewn darpariaeth chwarae a hamdden. Mae'n gorff annibynnol a gynhelir gan Play England. Am fwy o wybodaeth am y Play Safety Forum ymwelwch â www.playengland.org.uk/playsafetyforum

Cyhoeddir yr argraffiad hwn o *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu* gan yr NCB, ar gyfer Play England ar ran y Play Safety Forum.

Ail argraffiad
ⓗ National Children's Bureau 2012
ISBN: 978-0-9540130-5-9

Argraffiad cyntaf ⓗ Hawlfraint y Goron, National Children's Bureau, Cronfa Loteri Fawr 2008
ISBN: 978-1-84775-289-5

Cynhyrchwyd yr argraffiad cyntaf gan Play England, a'i ariannu gan Yr Adran Addysg a'r Gronfa Loteri Fawr. Cynhyrchwyd yr ail argraffiad hwn gan Play England, a'i ariannu gan y Social Action Fund oddi wrth Swyddfa'r Cabinet. Cefnogir yr argraffiad hwn gan Chwarae Cymru, Play Scotland a PlayBoard Northern Ireland fel rhan o'r Play Safety Forum. Cynhelir Play England gan y National Children's Bureau.

Arianwyd y trosiad hwn gan Lywodraeth Cymru

National Children's Bureau, 8 Stryd Wakley, Llundain, EC1V 7QE Ffôn: 020 7843 60000
Gwefan: www.ncb.org.uk
Rhif elusen gofrestredig: 258825

Cewch ail-ddefnyddio detholiadau o'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim (heblaw am logos asiantaethau neu adrannau) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng at ddibenion hyfforddi, addysg neu ymchwil an-fasnachol. Dylech eu ail-ddefnyddio'n gywir ac nid mewn unrhyw gyd-destunau camarweiniol. Dylid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint y National Children's Bureau, wedi ei gynhyrchu gan Play England a dylid hefyd nodi teitl y ddogfen wreiddiol. Ble bynnag yr ydym wedi dynodi deunydd sy'n hawlfraint unrhyw drydedd plaid, bydd angen ichi dderbyn caniatâd perchnogion yr hawlfraint dan sylw. Tra y gwnaethpwyd pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn, ni ellir dal y National Children's Bureau yn gyfrifol am ganlyniadau unrhyw gamau neu benderfyniadau a wneir yn seiliedig ar y wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn.

**Aelodau craidd y Play Safety Forum (ym mis Medi 2012)**
Robin Sutcliffe (Cadeirydd) – Cadeirydd, Sutcliffe Play
Richard Broughton – Ymgynghorydd Polisi, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Don Earley – Dirprwy Brif Weithredwr, Fields in Trust
Mike Greenaway – Cyfarwyddwr, Chwarae Cymru
Lesli Godfrey – Arweinydd Strategol ar gyfer Gwaith Chwarae a'r Gweithlu Plant, SkillsActive
Carl Hagemann – Chartered Institute for the Management of Sport and Physical Activity
Juno Hollyhock – Cyfarwyddwraig Weithredol, Learning through Landscapes
Marguerite Hunter Blair – Prif Weithredwraig, Play Scotland
Warren Koehler – Cyfarwyddwr Rhanbarthol Llundain, KIDS
Jacqueline O'Loughlin – Prif Weithredwraig, PlayBoard Northern Ireland
Katrina Phillips – Prif Weithredwraig, Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau ymhlith Plant
Catherine Prisk – Cyfarwyddwraig, Play England
Andrew Yates – Cyfarwyddwr Technegol, SMP (Playgrounds) Ltd, a'r Association of Play Industries
David Yearley – Pennaeth Diogelwch Chwarae, Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau

**Cynghorwyr**
David Ball – Prifysgol Middlesex
Tim Gill – Awdur, ymchwilydd ac ymgynghorydd, Rethinking Childhood
Sandra Melville – Cyn-gadeirydd, Play England
Bernard Spiegal – PLAYLINK
Jean Wenger – Active Risk Management Services

**Sylwedyddion**
Chris Nevis – Cadeirydd, Play England

**Ysgrifenyddiaeth**
Ashley Rogers, Play England

**Am yr awduron**

**David Ball**
David Ball yw Athro Rheoli Risg, Prifysgol Middlesex ac mae'n Gyfarwyddwr y ganolfan Centre for Decision Analysis and Risk Management (DARM). Mae ei waith ymchwil dros dri degawd wedi canolbwyntio ar y modd y bydd llywodraethau, sefydliadau ac unigolion yn gwneud penderfyniadau pan fyddant yn wynebu dewisiadau anodd, yn arbennig rhai sy'n cynnwys risg. Mae'r gwaith yma wedi cwmpasu gwastraff niwclear, rheoli llifogydd, diogelwch bwyd, diogelwch cludiant ac amddiffyn amgylcheddol, yn ogystal ac agweddau o fywyd cyhoeddus yn cynnwys chwaraeon a hamdden a chwarae plant. Am fwy o wybodaeth ymwelwch â www.davidjball.com

**Tim Gill**
Tim Gill yw un o feddylwyr mwyaf blaenllaw y DU ar blentyndod. Cyhoeddwyd ei lyfr *No Fear: Growing up in a risk-averse society* yn 2007. Ers ymadael â'r Children's Play Council (Play England bellach) yn 2004, mae Tim wedi cynghori pleidiau gwleidyddol a gweithgorau doethion ar draws y sbectrwm gwleidyddol. Yn ogystal, cyflawnodd waith ymgynghorol ar gyfer cyrff anllywodraethol o bwys, cleientiaid corfforaethol a chyrff cyhoeddus, yn cynnwys y datblygwr eiddo Argent plc, Maer Llundain a'r Comisiwn Coedwigaeth. Am fwy o wybodaeth ymwelwch â www.rethinkingchildhood.com

**Bernard Spiegal**
Bernard Spiegal yw Pennaeth PLAYLINK, ymgynghoriaeth chwarae a hamdden anffurfiol, annibynnol sy'n gweithio ym meysydd dylunio, cynllunio, strategaeth, ymgysylltu lleol a datblygiad sefydliadol. Mae gan Bernard ddiddordeb penodol mewn creu mannau – amserol a ffisegol – ble y gall pobl o bob oedran gymryd rheolaeth o'u hamser a'u gweithgareddau eu hunain. Dyna'r rheswm am ei ddiddordeb mewn chwarae a diwylliant fel 'ffyrdd o fyw'. Un thema sy'n rhedeg trwy holl waith Bernard yw'r angen i ddeall a gwerthfawrogi risg: mae bywyd yn gwbl ddiflas hebddo. Am fwy o wybodaeth ymwelwch â www.playlink.org.uk

# Cynnwys


Geiriau o gymeradwyaeth 2

Rhagair gan Robin Sutcliffe 4

Adran 1 Cyflwyniad a fframwaith cyfreithiol 5

- Pennod 1 Cyflwyniad 6
- Pennod 2 Cyd-destun cyfreithiol a pholisi cyhoeddus 18
- Pennod 3 Diogelwch, risg, perygl a niwed 26
- Pennod 4 Rôl safonau a chanllawiau 34

Adran 2 Asesu risg-budd 38

- Pennod 5 Asesu risg-budd ac asesu risg confensiynol 40
- Pennod 6 Sut i reoli buddiannau a risgiau 48
- Pennod 7 Asesu risg-budd: proses ac esiamplau 61
- Pennod 8 Datblygu ac atgyfnerthu arfer 89

Adran 3 Sylwadau terfynol 98

- Pennod 9 Yr angen am newid diwylliannol a pholisi 99

Cyfeiriadau 103

Geirfa 105

Atodiad 1 106

- Datganiad Lefel Uchel gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Atodiad 2 109

- Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Datganiad Sefyllfa

Atodiad 3 115

- Safonau Ewropeaidd ar gyfer offer meysydd chwarae

## Geiriau o gymeradwyaeth

**Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Ymgynghorwyd â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wrth gynhyrchu'r cyhoeddiad hwn. Mae'n cymeradwyo'r cyngor synhwyrol, cymesur, rhesymol a chytbwys i ddarparwyr chwarae ar reoli diogelwch cyfranogwyr, a amlinellir yn y canllawiau hyn.**

**Mae'r awduron a'r Play Safety Forum (PSF), yn ddiolchgar i'r HSE am eu geiriau o gymeradwyaeth, sy'n adleisio'r hyn a ddywedir yn eu Datganiad Lefel Uchel (2012) ar chwarae a hamdden plant (gweler Atodiad 1).**

## Association of Play Industries

Mae'r Association of Play Industries (API) yn deall pwysigrwydd trosglwyddo mannau chwarae cyffrous a heriol ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r API yn gorff masnach sy'n cynrychioli dros 85 y cant o ddylunwyr a gwneuthurwyr offer ac arwynebau meysydd chwarae yn y DU. Mae'r API yn cydnabod egwyddorion canllaw y PSF ac yn edrych ymlaen at ddarparu mannau chwarae ysbrydoledig ar gyfer ein plant i gyd.

**Deborah Holt** Rheolwraig y Gymdeithas

## Chwarae Cymru

Pan y'i cyhoeddwyd gyntaf yn 2008, teimlodd Chwarae Cymru bod *Managing Risk in Play: Implementation guide* a datblygiad asesu risg-budd yn newid sylweddol hynod bwysig oedd i'w groesawu. Roedd, ac mae'n parhau i fod, ar flaen y gad o ran arloesi; gan eiriol y dylai darparwyr chwarae wrthbwyso buddiannau chwarae'n erbyn risg. Mae'r canllaw hwn yn cynnig offeryn sy'n cydnabod a chefnogi, yn gwbl ddiamwys, angen plant i greu a delio â her ac ansicrwydd fel rhan o'u chwarae. Mae'n cynrychioli agwedd synnwyr cyffredin tuag at ddarparu ar gyfer chwarae plant.

**Mike Greenaway** Cyfarwyddwr

## CIMSPA

Mae'r Chartered Institute for the Management of Sport and Physical Activity yn croesawu'r canllaw hwn ac yn argymell ei ddefnydd i'n aelodau a darparwyr gweithgareddau hwyliog, adloniadol a chwarae ar gyfer plant, fel agwedd tuag at reoli risg sydd hefyd yn ystyried y buddiannau a gynigir i blant a phobl ifainc yn ogystal â'r risgiau. Hefyd, mae CIMSPA, fel corff proffesiynol sy'n darparu arweiniad ac sy'n pennu safonau darpariaeth gwasanaethau, yn cydnabod ac yn hybu'r farn bod y cyfrifoldeb terfynol am lunio penderfyniadau, tra bo rheoli risg yn dechrau o safbwynt bod cyngor a gwybodaeth arbenigol allanol yn werthfawr, yn aros bob amser gyda'r darparwr.

**Sean Holt** Prif Weithredwr

## Fields in Trust

Mae Fields in Trust yn cefnogi'n llwyr y canllaw hwn ar reoli risg mewn chwarae. Mae asesu risg-budd yn ychwanegu agwedd arloesol i'r asesiadau risg technegol angenrheidiol a hirsefydlog. Mae'r canllaw hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at ddylunio a darparu ardaloedd, cyfleusterau a chyfleoedd chwarae sy'n well am fodloni angen plant am her, cyffro a chyfle i chwilota.

**Helen Griffiths**, Prif Weithredwraig

## Institution of Occupational Safety and Health (IOSH)

Mae'r IOSH yn croesawu'r canllaw hwn a'i bwyslais ar asesu risg-budd, ddylai helpu'r rheini sy'n rheoli gweithgareddau chwarae ar gyfer plant i ddarparu profiad anturus. Cred IOSH bod angen i blant dyfu'n risg-ddeallus. Bydd agwedd synhwyrol tuag at reoli risg, sydd ddim yn eu 'lapio mewn gwlân cotwm', yn eu helpu i dyfu'n ymwybodol o risg, ond nid yn ofnus o risg, a bydd o fudd iddynt yn eu bywyd gwaith yn y dyfodol.

**Jan Chmiel**, Prif Weithredwr

## KIDS

Mae KIDS yn llwyr gefnogi egwyddorion y canllaw hwn. Mae angen i bob plentyn gymryd rhywfaint o risg mewn bywyd er mwyn tyfu a datblygu. Credwn fod hyn yn arbennig o bwysig i blant anabl, gan ei bod yn bosibl y byddant yn cael llai o gyfleoedd ar gyfer chwarae anturus.

**Warren Koehler** Cyfarwyddwr Rhanbarthol, KIDS London

## Learning through Landscapes

Mae Learning through Landscapes wedi ymrwymo i weld plant yn gallu profi chwarae a gweithgareddau dysgu heriol yn amgylchedd bob dydd tiroedd eu hysgol. Rydym yn cefnogi'n llwyr yr angen i daro cydbwysedd rhwng buddiannau unrhyw weithgaredd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r weithgaredd honno. Mae *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae* yn galluogi ysgolion i lunio barnau gofalus ac ystyriol fydd yn caniatáu i blant ddatblygu'r sgiliau y byddant eu hangen ar gyfer bywyd boddhaus fel oedolyn.

**Juno Hollyhock,** Cyfarwyddwraig Weithredol

## Play Scotland

Mae Play Scotland yn croesawu'r canllaw hwn, sy'n offeryn gwerthfawr ar gyfer darparwyr chwarae sy'n dymuno gosod angen plant am antur a phrofiad ymarferol o'r byd yn bennaf ym mhopeth y byddant yn ei wneud. Mae'r agwedd asesu risg-budd a ddisgrifir yn un ymarferol a chymesur a bydd yn galluogi darparwyr i yrru ymlaen â datblygu mannau dyfeisgar ac ysbrydoledig ar gyfer chwarae.

**Marguerite Hunter Blair** Prif Weithredwraig

## PlayBoard Northern Ireland

Mae *Managing Risk in Play Provision: Implementation guide* yn parhau i fod yn gyhoeddiad arloesol ar gyfer pob un sy'n gyfrifol am ddylunio, cynnal a throsglwyddo gwasanaethau chwarae. Gan gydnabod bod gan fentro a chymryd risg cadarnhaol rôl i'w chwarae wrth feithrin iechyd a datblygiad gorau posibl plant, mae'r canllaw ymarferol hwn wedi symud arfer rheoli risg o fod yn llawn cyfrifiadau technegol mecanyddol i broses fwy cymesur a synhwyrol ble yr ystyrir buddiannau datblygiadol. Bu'r canllaw ymarferol hwn yn allweddol, gan unioni'r anghydbwysedd a grewyd gan y camddefnydd o ganllawiau iechyd a diogelwch a ddefnyddiwyd yn y gorffennol i gwtogi gweithgareddau chwarae.

**Jacqueline O'Loughlin** Prif Weithredwraig

## SkillsActive

Cred SkillsActive, fel sefydliad a arweinir gan gyflogwyr, bod yr agwedd a amlinellir yn *Managing Risk in Play Provision: Implementation guide* yn helpu darparwyr chwarae i gynnig profiadau chwarae heriol a phleserus ar gyfer y plant a'r bobl ifainc y maent yn eu gwasanaethu. Credwn y bydd agwedd y canllaw yma'n cynorthwyo staff i weithio'n unol â'r egwyddorion gwaith chwarae, sy'n pwysleisio'r angen am arweinyddiaeth a rheolaeth gref ymysg darparwyr, gan ychwanegu at broffesiynoli'r sector ymhellach.

**Lesli Godfrey** Arweinydd Strategol ar gyfer Gwaith Chwarae a'r Gweithlu Plant

## Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau

Mae RoSPA yn cydnabod ac yn hyrwyddo rôl hanfodol chwarae ym mywydau plant. Mae'r canllaw hwn yn caniatáu i ddarparwyr chwarae sicrhau eu bod yn cynnwys lefelau risg a her priodol yn eu darpariaeth trwy gydbwyso risg yn erbyn budd. Bydd hyn yn caniatáu i blant arfer eu hawl i chwarae mewn sefyllfaoedd mwy boddhaol. Felly, mae RoSPA'n cymeradwyo'r agwedd a fabwysiedir gan y canllaw hwn ac yn ei argymell i ddarllenwyr.

**David Yearley** Pennaeth Diogelwch Chwarae

## Rhagair gan Robin Sutcliffe.

Mae plant angen, a byddant yn dewis, mannau cyffrous i chwarae sydd yn anochel yn golygu rheoli sefyllfaoedd sydd, yn eu hanfod, yn llawn risg. Mae'r cyhoeddiad yma'n cydnabod hyn ac yn rhoi arweiniad i ddarparwyr am y modd y gellir cysoni hyn ag awydd naturiol am ddiogelwch plant. Mae'n cyflwyno'r cysyniad o gydbwyso risgiau â buddiannau o fewn proses o asesu risg-budd sydd bellach yn cael ei chydnabod fel agwedd briodol tuag at reoli risg ar draws chwarae, hamdden ac addysg.

Mae'n ddogfen ymestynnol sy'n gofyn i wleidyddion, cyfarwyddwyr ac uwch-reolwyr i chwarae rhan ar lefel polisi wrth sefydlu'r fframwaith ar gyfer rheoli risg o fewn chwarae. Nid yw'n amlinellu datrysiadau parod, ond mae'n gofyn i ddefnyddwyr, fel arbenigwyr, i lunio barnau'n seiliedig ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o blant ac amgylchiadau eu chwarae. Y rheswm yw bod chwarae plant, ac amgylcheddau chwarae plant, yn hanfodol gymhleth, felly dylai agweddau ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd ac ystyrioldeb.

Mae cryfder y canllaw hwn ar draws y DU yn seiliedig ar drwch y gynrychiolaeth a geir ar y Play Safety Forum yn arbennig, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r bedair gwlad, yn ogystal â holl agweddau'r frawdoliaeth chwarae. Mae'r canllaw hefyd yn elwa o gefnogaeth llywodraethau olynol.

Mae'r adolygiad hwn yn ystyried datblygiadau ac esiamplau newydd sydd wedi codi ers y cyhoeddiad cyntaf yn 2008. Rydym yn ddiolchgar i'r HSE am weithio â ni dros y flwyddyn diwethaf i greu Datganiad Lefel Uchel sy'n cynnig cymeradwyaeth benodol bellach i'r broses risg-budd, sydd wedi ei gynnwys yma fel atodiad. Rydym yn ddiolchgar hefyd i Play England am ariannu'r ailgyhoeddiad hwn ac i Tim Gill am ymgymryd â'r gwaith.

Fy ngobaith yw y bydd y canllaw hwn yn parhau i alluogi ymarferwyr i fod yn ddychmygus ac yn greadigol y tu hwnt i ffiniau arferol darpariaeth chwarae, a thrwy hynny ddatblygu ac ehangu cyfleoedd i blant chwarae mewn amgylcheddau trefol a naturiol cyffrous.

# Adran 1

## Cyflwyniad a fframwaith cyfreithiol



Play England – Ken Ryan

# Pennod 1:

## Cyflwyniad

Nid yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng amddiffyn plant rhag y risgiau mwyaf difrifol a chaniatáu iddynt elwa o fuddiannau chwarae'n ymwneud â dileu risg. Nid yw'n ymwneud chwaith â dulliau cymhleth o gyfrifo risg a budd. Yn ein hanfod, mae chwarae'n weithgaredd ddiogel a buddiol. Barn synhwyrol oedolion yw'r cyfan sydd ei angen, yn gyffredinol, i gael y buddiannau gorau ar gyfer plant tra'n sicrhau nad ydynt yn wynebu risgiau diangen.

*Chwarae a Hamdden Plant: Hyrwyddo agwedd gytbwys* (Datganiad Lefel Uchel ar y cyd gan yr HSE / Play Safety Forum)



Play England - Nick Turner Photography

Mae'r canllaw hwn yn dangos sut y gall darparwyr chwarae ddatblygu agwedd tuag at reoli risg sy'n ystyried buddiannau profiadau chwarae heriol i blant a phobl ifainc, yn ogystal â'r risgiau. Mae'r canllaw'n seiliedig ar ddatganiad sefyllfa'r Play Safety Forum – *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* (Play Safety Forum, 2002). Mae'n cychwyn o'r safbwynt bod y cyfrifoldeb terfynol ar gyfer llunio penderfyniadau, er bod cyngor a gwybodaeth arbenigol allanol yn werthfawr, yn aros gyda'r darparwr.

Ysgrifennwyd y canllaw hwn ar gyfer pobl sy'n gyfrifol am reoli darpariaeth chwarae, ac ar gyfer y rheini sydd ynghlwm â dylunio a chynnal darpariaeth o'r fath. Dylai'r agwedd gyffredinol fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer y bobl hynny sy'n rheoli mannau a sefyllfaoedd eraill ble fo plant yn chwarae.

Ar hyn o bryd ceir rhywfaint o ddryswch a phryder ynghylch diogelwch chwarae. Mae llawer o ddarparwyr yn ansicr ynghylch eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau, a'r modd y mae'r rhain yn perthyn i'r gyfraith, polisi cyhoeddus, safonau a chanllawiau. Ond, yn fwy cadarnhaol, ceir arwyddion o ddadl adeiladol a hinsawdd polisi iachach.

## Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?.

**Mae'r canllaw hwn wedi ei ysgrifennu ar gyfer y bobl hynny sy'n gyfrifol am reoli darpariaeth chwarae, yn enwedig ardaloedd chwarae cyhoeddus heb eu staffio, ac ar gyfer pobl sy'n rhan o ddylunio a chynnal darpariaeth o'r fath.** Dylai'r agwedd gyffredinol – ond nid yr holl fanylion – fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer pobl sy'n rheoli mannau a sefyllfaoedd eraill ble y bydd plant yn chwarae, fel meysydd chwarae ysgolion, parciau, mannau agored, mannau trefol, meysydd chwarae antur, cyfleusterau chwarae ar olwynion, gwasanaethau chwaraeon a hamdden, sefyllfaoedd gofal plant, amgylcheddau awyr agored naturiol ac atyniadau ymwelwyr. Mae'r canllaw'n defnyddio'r termau 'maes chwarae', 'ardal chwarae' a 'darpariaeth chwarae' i gyfeirio at gyfleusterau chwarae penodedig; defnyddir 'gofod chwaraeadwy' fel term cyfunol ar gyfer yr holl fannau ble fo chwarae plant yn 'ddefnydd dilys o'r gofod' (Greater London Authority, 2012).

Rhennir y canllaw hwn yn dair adran. Mae Adran 1 (yr adran hon) yn amlinellu'r cyd-destun, ac yn egluro'r cefndir a'r rhesymau y tu ôl i'r agwedd a fabwysiadwyd. Mae Adran 2 yn cynnig cyngor ac arweiniad ymarferol sy'n arddangos sut y gellir rhoi'r agwedd yma ar waith. Mae Adran 3 yn edrych yn gryno ar rai materion polisi. Byddem yn argymell yn gryf y dylid darllen Adran 1 cyn troi at yr adrannau ymarferol.

## Am y canllaw hwn.

**Mae'r canllaw hwn yn dangos sut y gall pobl sy'n gyfrifol am ddarpariaeth chwarae ddatblygu agwedd tuag at reoli risg sy'n ystyried y buddiannau y bydd y ddarpariaeth yn ei gynnig i blant a phobl ifainc yn ogystal â'r risgiau. Mae'n anelu i helpu darparwyr i gyflawni dau amcan sy'n allweddol i unrhyw ddarpariaeth chwarae; i gynnig cyfleoedd chwarae heriol, cyffrous a deniadol i blant a phobl ifainc, tra'n sicrhau nad ydynt yn wynebu risg annerbyniol o niwed.**

Un o elfennau sylfaenol yr agwedd yw polisi chwarae cytûn sy'n disgrifio safbwynt y sefydliad ar gynnig cyfleoedd ar gyfer risg a her fel rhan o'r ddarpariaeth y mae'n gyfrifol amdano. Mae hyn yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer asesiad risg-budd disgrifiadol a gefnogir gan archwiliad technegol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn gweithio â'i gilydd i ganiatáu i'r darparwr lunio barnau deallus am y cyfleoedd chwarae, yr offer a'r nodweddion y maent yn eu cynnig mewn darpariaeth chwarae a mannau eraill ble fo plant yn chwarae.

## Mae asesu risg-budd yn ystyried y buddiannau i blant yn ogystal â'r risgiau.

**Mae'r agwedd yn caniatáu i ddarparwyr fynd i'r afael â dau amcan pwysig darpariaeth chwarae: darparu her tra'n cynnig amddiffyniad rhag niwed annerbyniol.** Mae'n anorfod bod tyndra rhwng yr amcanion hyn. Bydd plant yn mynd ati'n weithredol i chwilio am gyfleoedd i brofi eu hunain a datblygu eu doniau; maent yn awyddus i ddod i adnabod y byd o'u hamgylch, felly mae'n anorfod y byddant yn wynebu rhywfaint o risg o niwed, mewn unrhyw amgylchedd. Yn ogystal, bydd profiadau chwarae anturus yn helpu plant i ddysgu sut i ddelio â llawer o'r risgiau bob dydd y byddant yn eu wynebu'n ystod eu bywydau.

**I lawer o blant heddiw, meysydd chwarae yw rhai o'r ychydig fannau sydd â'r potensial i gynnig cyfleoedd diddorol ar gyfer chwarae.** Mae bywydau plant wedi tyfu'n llawer mwy cyfyng a rheoledig dros y 30 mlynedd diwethaf, o ganlyniad i ffactorau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd. O'r herwydd, mae cyfleoedd plant i chwarae ac archwilio eu cymdogaethau ar eu pen eu hunain wedi gostwng yn sylweddol, a byddant yn treulio mwy o amser dan oruchwyliaeth oedolion gartref, yn yr ysgol ac mewn gweithgareddau a gwasanaethau'r tu allan i oriau ysgol. Mae llawer o bobl yn dadlau bod angen i'r amgylchedd adeiledig yn gyffredinol fod yn fwy cyfeillgar i blant os ydynt i gael rhyddid i chwarae'r tu allan gymaint ac yr hoffent. Fodd bynnag, mae gan ddarpariaeth chwarae heddiw rôl pwysig wrth gynnig mannau ble y gall plant fwynhau y mathau o brofiadau chwarae bob dydd, heriol, hunangyfeiriedig yr oedd cenedlaethau blaenorol yn eu gymryd yn ganiataol.

**Ceir ymwybyddiaeth cynyddol bod plant eisiau, ac angen, cael profiadau chwarae heriol sy'n cynnwys elfen o risg.** Arweiniodd yr ymwybyddiaeth yma at gyhoeddi *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* gan y Play Safety Forum yn 2002, sy'n creu'r sail ar gyfer yr agwedd a gyflwynir yma (Play Safety Forum, 2002).

### Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa

Mae plant angen, ac eisiau, cymryd risgiau pan fyddant yn chwarae. Mae darpariaeth chwarae'n anelu i ymateb i'r anghenion a'r dymuniadau hyn trwy gynnig amgylcheddau heriol, symbylol i blant ar gyfer archwilio a datblygu eu doniau. Wrth wneud hyn, bydd darpariaeth chwarae'n anelu i reoli'r lefel o risg fel nad yw plant yn wynebu risgiau annerbyniol marwolaeth neu anafiadau difrifol (gweler Atodiad 2 am y testun llawn).


Play England – Nick Turner

## Gall ofn ymgyfreithiad a 'diwylliant bwrw bai' ehangach olygu bod darparwyr yn teimlo'n ddiamddiffyn.


Fodd bynnag, ni cheir cytundeb cyffredin ynghylch yr hyn ddylai ddilyn o'r ddealltwriaeth cytûn yma, ac mae llawer o ddarparwyr yn ansicr ynghylch sut i roi'r egwyddorion a ddisgrifir yn *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* ar waith. Ceir cymhlethdod ynghylch dyletswydd gofal darparwyr a'r modd y mae hyn yn perthyn i'r gyfraith, rheoliadau a chanllawiau. Gall ofn ymgyfreithiad a 'diwylliant bwrw bai' ehangach olygu bod darparwyr yn teimlo'n ddiamddiffyn, gan eu gadael yn ymgodymu i roi ar waith yr agwedd tuag at risg y maent yn credu, yn gwbl gywir, sydd ei hangen.

Mae meysydd chwarae o bob math, yn ôl unrhyw fesur, yn amgylcheddau risg isel ar gyfer plant, sy'n wir ers nifer o flynyddoedd, os nad degawdau (Ffigwr 1). Mae'r ffaith yma'n un o'r rhesymau am yr agwedd gaiff ei argymell yn y canllaw hwn. I ddyfynnu un o awduron y canllaw hwn:

> **'Mae risg meysydd chwarae'n fychan iawn o ran marwolaethau, ac o ran anafiadau llai mae'n llawer is nag ar gyfer y rhan fwyaf o chwaraeon traddodiadol yr anogir plant i gymryd rhan ynddynt, ac mewn unrhyw achos maent tua'r un peth â'r risg a wynebir yn y cartref.' (Ball, 2007)**

Mae'r cymhariaethau'n ystyried amser a dreuliwyd ar weithgaredd. Er enghraifft, mae mwy o anafiadau'n digwydd yn y cartref, ond bydd plant yn treulio mwy o amser gartref nag mewn meysydd chwarae.

**Graddfa anafiadau heb fod yn angheuol am bob 100,000 awr a dreuliwyd ar y weithgaredd**




Ffigwr 1: Ffigyrau amcan anafiadau heb fod yn angheuol sy'n gysylltiedig â gwahanol chwaraeon hamdden o'i gymharu â chwarae. Graddfeydd anafiadau'n seiliedig ar ffigyrau ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys yn y DU.
Ffynhonnell: Ffigwr 1 wedi ei addasu o Ball D (2000b) yn ABC of Sports Medicine, 2il argraffiad. Gan McLatchie G, ac eraill (2000) ISBN 9780727913661/0727913662
ⓗ BMJ Books. Atgynhyrchwyd â chaniatâd Blackwell Publishing Ltd.

**Mae rheoli risg effeithiol yn swyddogaeth darparwyr chwarae a rheolwyr sydd, yn y pen draw, yn gyfrifol, yn foesol ac yn gyfreithiol, am y barnau a wneir am eu darpariaeth.** Gall eraill gynnig cyngor a chefnogaeth, ond y darparwr fydd â'r penderfyniad terfynol. Bydd angen i asesu risg-budd gael ei seilio ar ddealltwriaeth a gwerthoedd cwbl eglur, gan ddwyn ynghyd asesiadau buddiannau a risgiau gan ofyn am werthfawrogiad o rôl a statws safonau diwydiannol a chanllawiau eraill.

Bydd ystyried buddiannau ochr yn ochr â risg fel sail ar gyfer llunio barnau yn newydd i lawer, ond mae'n hanfodol os yw darparwyr i greu a rheoli darpariaeth sydd wir yn herio, denu ac ateb anghenion plant a phobl ifainc.

## Y darparwr sy'n gyfrifol am lunio penderfyniadau ar risg–budd gaiff eu hysbysu gan bolisi cytûn y sefydliad.

Caiff llawer o'r gweithgarwch ymarferol sy'n ymwneud â *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* ei gyflawni gan bobl â dealltwriaeth arbenigol o agweddau technegol meysydd chwarae, er enghraifft, trapiau pen posibl neu ddiogelwch strwythurol offer. Bydd angen i bobl sy'n cynnig y wybodaeth arbenigol yma, a'r cyngor a'r canllawiau eraill sydd ar gael, daro'r cydbwysedd cywir rhwng risgiau a buddiannau. Fodd bynnag, y darparwr fydd yn gwneud y penderfyniadau'n y pen draw a'r darparwr fydd angen ystyried y cyngor yma yng ngoleuni polisi'r sefydliad ar risg a'r her mewn chwarae, cyn llunio eu barn.

## Dylai proses asesu risg–budd a gynhelir yn dda, ac a weithredir arni'n gywir, ddarparu amddiffyniad cadarn a rhesymol yn erbyn hawliadau atebolrwydd ac erlyniadau sy'n ymwneud â materion iechyd a diogelwch.





Mae strwythurau maes chwarae antur traddodiadol wedi cynnig profiadau chwarae sy'n cynnwys her a risg.

A.P.E.S

Nid yw pob cwestiwn sy'n ymwneud â diogelwch meysydd chwarae'n galw am gyfraniad gan arbenigwyr: gellir ateb rhai ohonynt trwy ddefnyddio synnwyr cyffredin a phrofiadau bob dydd. Dylai'r canllaw hwn alluogi darparwyr i fod yn fwy clir am eu cyfrifoldebau ac ynghylch pryd a sut i ofyn am, a defnyddio canllawiau a gwybodaeth arbenigol pwrpasol. Hefyd, dylai darparwyr sy'n dilyn yr agwedd a amlinellir yma allu ffurfio amddiffyniad cadarn a rhesymol yn erbyn unrhyw hawliadau atebolrwydd ac erlyniadau, a thrwy hynny amddiffyn asedau ac enw da eu sefydliad.

### Pryderon ynghylch iechyd a diogelwch

Mae'r mwyafrif o bobl yn cytuno bod dryswch ynghylch diogelwch â rheoli risg yn gyffredin. 'Dyw'n sicr ddim wedi ei gyfyngu i ddarpariaeth chwarae. Yn 2006 lansiodd y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSC, cyn-gorff llywodraethol Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a gyfunodd ag o yn 2008) ymgyrch yn erbyn yr hyn a alwodd yn 'iechyd a diogelwch pitw'. Roedd hyn mewn ymateb i bryderon cynyddol ymysg y cyhoedd a'r cyfryngau am ei ymyrraeth cynyddol mewn bywyd bob dydd. Nododd eu gwefan nad yw rheoli risg synhwyrol yn ymwneud â chreu cymdeithas sy'n gwbl rydd o risg. Aeth ymlaen i ddweud bod rhai o'r straeon 'iechyd a diogelwch' yn ddim mwy na myth, wedi eu lledaenu trwy gamddealltwriaeth neu rwystredigaeth cyfeiliornus.

## 'Dyw rheoli risg synhwyrol ddim yn golygu creu cymdeithas sy'n gwbl rydd o risg. (HSE 2006)


Play England – Nick Turner

Cyfeiriodd ymgyrch yr HSC at y ffaith bod iechyd a diogelwch yn cael ei ddefnyddio weithiau fel esgus i gyfiawnhau penderfyniadau anodd neu amhoblogaidd ond cyfaddefodd bod gronyn o wirionedd y tu ôl i rai o'r straeon. Dywedodd yr HSC ei fod am ddileu gwaith papur diangen, a'i fod yn cydnabod y broblem o weithdrefnau asesu risg gor-fiwrocrataidd (HSE, 2006). Yn 2012, cymerodd yr HSE gam ymhellach, gan greu dau banel newydd sy'n anelu i fynd i'r afael a iechyd gwael a chyngor ar ddiogelwch. Bydd y cyntaf, y Panel Her Rheolyddol Annibynnol, yn ystyried achwynion am weithredoedd arolygwyr yr HSE ac awdurdodau lleol. Bydd yr ail, y Panel Her Chwalu Chwedlau, yn edrych ar achwynion ynghylch y cyngor a roddir gan rai sydd ddim yn reolyddion, fel cwmnïau yswiriant, ymgynghorwyr iechyd a diogelwch a chyflogwyr.

## Nid oes unrhyw dystiolaeth bod darparwyr yn wynebu cynnydd mewn hawliadau atebolrwydd.

Mae'r rhesymau am y dryswch yma'n gymhleth ac yn destun dadlau. Yn rhannol, mae'n ymateb i'r canfyddiad o 'ddiwylliant iawndal' cynyddol sy'n gwneud darparwyr yn ofnus ynghylch eu atebolrwydd eu hunain. Mewn gwirionedd, mae'r dystiolaeth bod darparwyr yn wynebu cynnydd mewn hawliadau atebolrwydd yn gymysg. Mae rhai darparwyr ac arbenigwyr diwydiannol yn dadlau bod hawliadau'n cael eu gwneud am anafiadau fyddai heb fod yn destun unrhyw gamau cyfreithiol ychydig flynyddoedd yn ôl. Fodd bynnag, canfyddodd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi yn 2006 bod 'dim tystiolaeth ystadegol o bwys wedi ei gyflwyno i gefnogi'r cysyniad o egin-ddiwylliant iawndal' (Pwyllgor Dethol ar Faterion Economaidd, 2006). Mae rheolwyr risg awdurdodau lleol yn adrodd bod hawliadau am anafiadau mewn meysydd chwarae'n cynrychioli cyfran fechan iawn o'u baich achosion, ac nid oes unrhyw dystiolaeth o gynnydd dramatig mewn niferoedd. Waeth beth yw'r gwirionedd, mae darparwyr yn fwy ymwybodol o fygythiad ymgyfreithiad nag oeddent yn y gorffennol ac maent, wrth reswm, yn fwy pryderus ynghylch y mater.

Gall dryswch godi hefyd yn sgîl anawsterau wrth gymhwyso systemau rheoli risg gweithleoedd mewn sefyllfaoedd chwarae a chyhoeddus eraill. Prif nod iechyd a diogelwch yn y gweithle yw lleihau risg. Dadleuwyd na ellir cymhwyso'r egwyddorion hyn heb eu haddasu a heb ystyried darpariaeth chwarae, ble fo'r ffocws ar ddarparu amrywiaeth o brofiadau, y gall rhai ohonynt fod yn heriol a chynnwys risg (Ball a Ball-King, 2011).



Bydd plant yn addasu'r modd y maent yn defnyddio offer chwarae. Un elfen o wefr y llithren i'r ferch hon yw mynd i lawr y llithren â'i phen yn gyntaf.

Play England - Philip Wolmuth



**Bydd angen i ddarparwyr ddefnyddio safonau sy'n bodoli eisoes o fewn cyd-destun eu polisi chwarae lleol a gan gyfeirio at anghenion plant lleol.**

Lleisiwyd pryderon hefyd ynghylch defnydd rhai ymarferwyr o safonau diwydiannol a dehongliadau anhyblyg. Yn sicr, mae dryswch yn bodoli ynghylch rôl y safonau hyn a'u defnydd, a gellir gofyn cwestiynau cwbl deg am eu cynnwys a'u terfynau (gweler Pennod 3). Fodd bynnag, mae dyfodiad offer mwy cyffrous a heriol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dangos nad y safonau eu hunain yw prif achos y dryswch yma. Mewn rhai gwledydd Ewropeaidd eraill, ble fo'r un safonau'n berthnasol, mae cynlluniau meysydd chwarae'n ymddangos fel pe baent yn cynnig cyfleoedd chwarae mwy heriol i blant. Mae angen i ddarparwyr ddefnyddio safonau yng nghyd-destun polisïau perthnasol, gan gyfeirio at anghenion plant lleol, ac mae'r canllaw hwn yn anelu i ddangos sut y gellir gwneud hyn.

Mae rhai yn dadlau bod cymdeithas wedi drysu ar lefel fwy sylfaenol ynghylch y mathau o brofiadau y bydd plant eu hangen os ydynt i ddysgu a thyfu (Gill, 2007). Mae newidiadau ehangach yn y modd y trosglwyddir gwasanaethau sector cyhoeddus wedi chwarae rhan hefyd. Gall cyllidebau llai o faint a symud oddi wrth ddarpariaeth uniongyrchol, at is-gontractio a darpariaeth gan gyflenwyr allanol, olygu ei bod yn anos i ddarparwyr roi gwerthoedd a pholisïau ar waith.



Mae'r Volkspark Potsdam, ger Berlin, yn cynnwys wal ddringo heriol ar gyfer plant hŷn a phobl ifainc.

Play England - Lisa Davis



## Mae'r mwyafrif o rieni'n derbyn bod angen i'w plant ddysgu am wahanol fathau o risg a her wrth iddynt dyfu.

Weithiau cyfeirir at ofnau rhieni ynghylch diogelwch eu plant fel rheswm dros beidio â chynnig cyfleoedd chwarae allai gynnwys risg iddynt. Mae rhai rhieni a gofalwyr yn fwy pryderus na'i gilydd, a fyddan nhw ddim yn cytuno bob amser os yw hi'n dderbyniol ai peidio i'w plentyn gael wynebu risg penodol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o rieni'n gwbl ymwybodol bod angen i'w plant ddysgu sut i ddelio ag amrywiol fathau o sefyllfaoedd heriol wrth iddynt dyfu, a gellir gweld rhai'n annog plant i gymryd mwy o risg mewn meysydd chwarae na fyddent yn ei ystyried heb gefnogaeth o'r fath (Ball, 2002).

**Bydd angen i ddarparwyr benderfynu drostynt eu hunain pa lefel o risg sy'n briodol yn eu darpariaeth hwy, gan fod rhaid i fath ac arddull y ddarpariaeth ymateb i amgylchiadau lleol.** Dyma un rheswm pam fod angen i safonau diwydiannol, sydd o anghenraid ar ffurf 'un math i weddu i bawb', gael eu dehongli yn y cyd-destun lleol. Bydd hyn yn galluogi darparwyr i gynnwys offer neu gyfleoedd chwarae y gallai rhai rhieni mwy pryderus eu gwrthwynebu. Fodd bynnag, bydd adlewyrchu pryderon y rhieni mwyaf pryderus, ac addasu cynlluniau meysydd chwarae mewn ymdrech i ddileu cymaint o risg a her â phosibl, yn atal darparwyr rhag cynnig buddiannau pwysig i'r mwyafrif llethol o blant a phobl ifainc. Gallai hefyd arwain at weld plant mwy anturus yn chwilio am heriau corfforol mewn amgylcheddau eraill, â llai o reolaeth, tra y bydd eraill yn bodloni ar weithgareddau eisteddog.

### Safbwyntiau newidiol

Ceir dadl frwd ynghylch risg ymysg cymdeithas yn gyffredinol. Fodd bynnag, ceir arwyddion efallai bod yr hinsawdd polisi cyhoeddus yn newid er gwell.



Bydd plant yn defnyddio chwarae i brofi eu doniau ac i ddelio â sefyllfaoedd heriol.

Association of Play Industries - Deborah Holt

## Gall risg fod yn greadigol ac yn fywiogol, ond bydd angen rheoli rhai risgiau.

Ar draws y DU, mae llywodraethau a gweinyddiaethau wedi cyflwyno camau cyfreithiol, rheolyddol a mentrau eraill i wella polisïau ac arfer iechyd a diogelwch, er mwyn hyrwyddo gwell rheolaeth risg a lleihau ofnau am ymgyfreithiad. Un o ganlyniadau'r mentrau hyn oedd i'r HSE dderbyn y dasg o hyrwyddo agwedd tuag at reoli risg o fewn chwarae a hamdden plant ble fo risgiau a buddiannau'n cael eu hystyried ochr-yn-ochr mewn asesiad risg-budd. Caiff yr agwedd hon, sy'n cynnwys asesiad o'r risgiau, ei chefnogi gan yr HSE fel agwedd synhwyrol tuag at reoli risg. Cyhoeddodd yr HSE Ddatganiad Lefel Uchel ar y pwnc, a baratowyd mewn cydweithrediad â'r Play Safety Forum. Mae'r Datganiad Lefel Uchel hwn wedi ei gynnwys yma fel Atodiad 1.

### Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa

O fewn y sector chwarae mae *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* wedi herio'r tueddiad i ganolbwyntio ar ddiogelwch ar draul pryderon eraill, yn cynnwys iechyd a lles. Mae llawer o'r canllaw hwn yn seiliedig ar ddadleuon a chasgliadau'r datganiad hwnnw.

## Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa – Dyfyniad

Dylai darparwyr daro cydbwysedd rhwng y risgiau a'r buddiannau. Dylid gwneud hyn ar sail asesiad risg. Yn allweddol, dylai'r asesiad risg yma gynnwys cyfaddawd risg-budd rhwng diogelwch a nodau eraill, y dylid eu nodi'n glir ym mholisi'r darparwr. Gan gofio am awydd plant i gymryd risg, un o'r ffactorau y dylid ei hystyried yw'r tebygolrwydd y bydd plant yn chwilio am risg yn rhywle arall, mewn amgylcheddau sydd heb eu rheoli neu heb eu dylunio ar eu cyfer, os nad yw darpariaeth chwarae'n ddigon heriol. Ffactor arall yw'r dysg all ddigwydd pan fo plant yn dod ar draws, ac yn gorfod dysgu i ddelio â, peryglon amgylcheddol. Mae darpariaeth chwarae mewn sefyllfa unigryw, ble y gall gynnig cyfle i blant ddysgu am risg mewn amgylchedd a ddyluniwyd at y diben hwnnw, ac o'r herwydd gall helpu plant i ymbaratoi ar gyfer delio â pheryglon tebyg yn y byd mawr yn gyffredinol. (Gweler Atodiad 2 am y testun llawn.)

### Mae'r fersiwn diweddaraf o'r Safon Ewropeaidd ar gyfer offer chwarae sefydlog yn hyrwyddo taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau.

Mae *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* wedi derbyn cydnabyddiaeth sylweddol ar draws y sector cyhoeddus, ar draws y llywodraeth a gan y bobl hynny sydd ynghlwm ag astudio a rheoli risg, yn cynnwys Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae wedi cynorthwyo i greu hinsawdd ble y mae darparwyr yn barod i gynnig darpariaeth chwarae sy'n fwy heriol.

Mae'r datganiad hefyd wedi dylanwadu ar safonau diwydiannol. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Safon Ewropeaidd ar gyfer offer chwarae sefydlog yn datgan yn groyw ei fod a wnelo â tharo cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau. Dylai'r newid hwn wella penderfyniadau arolygwyr, y llysoedd ac eraill. Mae agweddau eraill o'r safonau'n adleisio'r dadleuon a geir yn y datganiad sefyllfa:

Mae cymryd risg yn nodwedd allweddol o ddarpariaeth chwarae ac o bob amgylchedd ble y bydd plant, yn gwbl dderbyniol, yn treulio amser yn chwarae. Mae darpariaeth chwarae'n anelu i gynnig cyfle i blant wynebu risgiau derbyniol fel rhan o amgylchedd dysgu symbylol, heriol sydd wedi ei reoli. Dylai darpariaeth chwarae anelu i reoli'r cydbwysedd rhwng yr angen i gynnig risg a'r angen i gadw plant yn ddiogel rhag niwed difrifol. Mae egwyddorion rheoli diogelwch yn berthnasol i weithleoedd yn gyffredinol yn ogystal ag i ddarpariaeth chwarae. Fodd bynnag, mae'r cydbwysedd rhwng diogelwch a buddiannau'n debygol o fod yn wahanol yn y ddau amgylchedd yma. Mewn darpariaeth chwarae, gall wynebu rhywfaint o risg fod o fudd gan ei fod yn diwallu angen dynol sylfaenol a gan ei fod yn rhoi cyfle i blant ddysgu am risg a chanlyniadau cysylltiedig mewn amgylchedd a reolir.
*BS EN 1176-1 Playground equipment and surfacing – Part 1: General safety requirements and test methods (BSI, 2008a)*

15

Yn dilyn cyflwyniadau gan gynrychiolwyr o'r DU, ail-ddrafftiwyd adran arwynebau lleddfu ardrawiadau BS EN 1176. Yn fersiwn 2008 (BSI, 2008a), penderfynodd y Pwyllgor Safoni Ewropeaidd (CEN) y dylid cyflwyno cyngor, ar lefel genedlaethol, ar ddefnyddio glaswellt. Mae'r DU, fel rhai o wledydd eraill yr UE, wedi barnu bod glaswellt yn arwyneb derbyniol i'w osod o dan gwymp rhydd o hyd at 1.5 medr, yn ddibynnol ar asesiad risg.

**Mae adrannau'r Llywodraeth, yr HSE a'r CEN i gyd yn cytuno, o ran chwarae'n benodol, bod elfen o risg i'r defnyddiwr yn agwedd gynhenid o ddarpariaeth dda ac nad yw lliniaru pob niwed yn bosibl nac yn ddymunol os yw'r ddarpariaeth hynny i gyflawni un o'i brif ddibenion.**

Yn ogystal, mae *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* wedi dylanwadu ar ddadleuon polisi diogelwch mewn sectorau eraill. Yn 2005, gwrthododd yr Institute of Sports and Recreation Management (bellach y Chartered Institute for the Management of Sport and Physical Activity), un o aelodau'r Play Safety Forum, alwadau i blant fod dan oruchwyliaeth un-i-un oedolyn mewn pyllau nofio cyhoeddus, er mai bwriad arweiniad o'r fath oedd lleihau'r posibilrwydd o blentyn yn boddi mewn pwll nofio. Fe wnaeth hyn, yn rhannol, oherwydd ei fod yn dadlau y gallai hyn olygu gweld llai o blant yn cael cyfle i ddysgu i nofio yn amgylchedd cymharol ddiogel pwll nofio, fyddai'n arwain at fwy o blant ac oedolion yn methu nofio ac felly, o bosibl, mewn mwy o berygl o foddi.

**Golyga asesu risg-budd bod y darparwr yn ystyried dau nod ochr-yn-ochr â'i gilydd: y nod o amddiffyn plant rhag niwed difrifol y gellir ei osgoi, a'r nod o ddarparu cyfleoedd chwarae anturus, symbylol ar eu cyfer.**



Mae'r canllaw hwn yn ymateb i'r materion hyn, ac felly mae ei agwedd yn un o asesu risg-budd deallus. Golyga hyn y bydd y darparwr yn pwyso a mesur, yn gwbl gyfartal, y dyletswydd i amddiffyn plant rhag niwed difrifol y gellir ei osgoi a'r dyletswydd i ddarparu cyfleoedd chwarae anturus, symbylol ar eu cyfer.


Yn syml iawn, yr her yw gadael i blant gymryd risg pan fyddant yn chwarae, ond heb eu gosod mewn perygl gormodol o niwed difrifol.


Play England - Nick Turner



Caiff plant yn Ne Swydd Gaerloyw eu cyflwyno i chwarae â thân mewn amgylchedd rheoledig gan geidwaid chwarae o Children's Playlink.

Play England -Philip Wolmuth



# Pennod 2:

## Cyd-destun cyfreithiol a pholisi cyhoeddus

Mae chwarae'n wych ar gyfer lles a datblygiad plant. Tra'n cynllunio a darparu cyfleoedd chwarae, y nod fydd nid dileu risg, ond pwyso a mesur y risgiau a'r buddiannau. Fydd yr un plentyn yn dysgu am risg os yw wedi ei lapio mewn gwlân cotwm.

*Chwarae a Hamdden Plant: Hyrwyddo agwedd gytbwys* (Datganiad Lefel Uchel ar y Cyd HSE / Play Safety Forum)

Tim Gill

Mae'r bennod hon yn crynhoi cyd-destun polisi a chyfreithiol rheoli risg mewn darpariaeth chwarae. Yn ôl y gyfraith, corff llywodraethol darparwr sydd, yn y bôn, yn gyfrifol ac atebol am unrhyw benderfyniadau a wneir, hyd yn oed pan fo'r rhain yn seiliedig ar farn neu arbenigedd pobl eraill.

Ystyrir bod darpariaeth chwarae'n cael ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth sy'n gosod dyletswydd gofal ar ddarparwyr a deiliaid, a amlinellir gan dermau fel 'rhesymoldeb' neu 'ymarferoldeb rhesymol'. Mae rheoliadau'n mynnu bod darparwyr yn cynnal asesiadau risg priodol.[1]

> **Mae polisi cyhoeddus y DU yn anelu i hyrwyddo budd cyhoeddus yn gyffredinol. Mae hyn yn galw am daro cydbwysedd rhwng ystod o ystyriaethau, y mae lleihau canlyniadau anffafriol fel anafiadau'n ddim ond un ohonynt. (Trysorlys EM, 2003).**

Mae'r dywediad 'diogelwch sydd bwysicaf' yn un cyfarwydd, ac fe'i defnyddir yn aml gan wleidyddion, rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus a chyfarwyddwyr cwmnïau. Yn yr un modd, mae'n bosibl hefyd y bydd rheolwyr a darparwyr gwasanaethau'n dweud: 'ein nod yw dileu risg' neu 'ein nod yw lleihau risg'. Yn y mwyafrif o amgylchiadau mae'r datganiadau hyn yn wallus. Pur anaml y byddant yn disgrifio sut y caiff penderfyniadau gwasanaethau a rheoli eu llunio, ac nid ydynt chwaith yn disgrifio sut y dylid eu llunio. Yn aml, fyddan nhw ddim yn datgan unai yr hyn sy'n ofynnol gan y gyfraith na'r modd y mae polisi cyhoeddus yn gweithio.

**Mae rheoli risg mewn mannau cyhoeddus, yn ei hanfod, yn weithgaredd sy'n seiliedig ar werth. Mae'n galw am bwyso a mesur y risg o niwed o ganlyniad i weithgaredd benodol yn erbyn y buddiannau, all fod yn wahanol iawn eu natur.** Gellir herio barnau ynghylch y modd y caiff risgiau eu rheoli, er enghraifft mewn llysoedd barn. Fodd bynnag, nid yw'r broses yn un fecanistig nac yn un cwbl wrthrychol chwaith. Mae'n bosibl y bydd gan wahanol bobl wahanol safbwyntiau anghytûn, ond cwbl haeddiannol, ynghylch derbynioldeb llawer o risgiau, yn enwedig risgiau a wynebir fel rhan o fywyd bob dydd. Efallai y gall tystiolaeth empiraidd a data technegol gynorthwyo gyda barnau fel hyn, ond bydd angen i'r penderfyniad terfynol fynd y tu hwnt i dystiolaeth o'r fath.

Efallai y bydd darparwr yn penderfynu cynnig cyfleoedd chwarae sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o anafiadau neu ganlyniadau anffafriol eraill ar y maes chwarae oherwydd, yn gyffredinol, caiff y posibiliadau hyn eu trechu gan y buddiannau i blant a phobl ifainc. Er enghraifft, gall awdurdod lleol sydd â nifer fawr o bobl ifainc yn eu harddegau sy'n chwilio am weithgareddau anturus greu, yn gwbl dderbyniol, ddarpariaeth chwarae sy'n arbennig o heriol yn gorfforol. Yn yr un modd, gallai darparwr mewn cymdogaeth drefol, boblog dros ben sydd â fawr ddim gofod gwyrdd a chyfartaledd uchel o deuluoedd ifainc, greu mannau chwarae â choed, llwyni a phlanhigion eraill, ynghyd â thywod a dŵr, er mwyn gwneud yn iawn am ddiffyg amgylcheddau awyr agored, naturiol eraill.

**Corff llywodraethol y darparwr – bwrdd, cyngor, rheolwyr gyfarwyddwyr, pwyllgor neu bwyllgor rheoli – sydd, yn y bôn, yn gyfrifol ac atebol am benderfyniadau ynghylch rheoli risg, hyd yn oed pan fo'r rhain yn seiliedig ar farn neu arbenigedd pobl eraill.**
Yn hyn o beth, mae sefyllfa gyfreithiol prif gorff llunio penderfyniadau unrhyw ddarparwr yn debyg i sefyllfa ymddiriedolwyr elusen. Tra eu bod yn rhydd i geisio arweiniad gan bobl broffesiynol – ac mewn llawer o amgylchiadau byddem yn eu cynghori'n gryf i wneud hynny – ganddyn nhw y bydd y gair olaf, waeth beth fo math, maint neu gylch gwaith y darparwr. Fodd bynnag, gall defnyddio arbenigwr/contractiwr cymwys ayb olygu y gallant arddangos eu bod wedi gwneud popeth sy'n rhesymol ymarferol. Mae'n bosibl y bydd egwyddor atebolrwydd dros arall yn berthnasol mewn cyfraith sifil.

Dywed Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1957: 'Y dyletswydd gofal cyffredin yw … sicrhau y bydd yr ymwelydd yn rhesymol ddiogel tra'n defnyddio'r lleoliad.' Mae'n datgan hefyd y dylai 'deiliaid fod yn barod i blant fod yn llai gofalus nag oedolion.' Fodd bynnag, dengys dyfarniadau o'r llysoedd, tra bo'r llys yn ystyried bod plant yn llai gofalus nag oedolion, nad ydynt yn ystyried eu bod yn ddiofal, anghymwys neu fregus mewn unrhyw synnwyr absoliwt. Wrth iddynt dyfu, gellir disgwyl iddynt dderbyn mwy a mwy o gyfrifoldeb am eu diogelwch personol (Jones, 2000). Nid oes unrhyw ofyniad o dan y Ddeddf i ddileu neu leihau risg, hyd yn oed ble fo plant dan sylw.


Mae Maes Chwarae Antur Evergreen, a leolir mewn ardal drwchus ei phoblogaeth yn Hackney, yn cynnwys ardal chwarae naturiol a phwll.

Play England – Nick Turner



## Y sefyllfa gyfreithiol

**Mewn termau cyfreithiol, rheolir darpariaeth chwarae gan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 (yng Ngogledd Iwerddon Gorchymyn Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (Gogledd Iwerddon) 1978) a Deddfau Atebolrwydd Deiliaid 1957 a 1984 (yn Yr Alban Deddf Atebolrwydd Deiliaid (Yr Alban) 1960; yng Ngogledd Iwerddon Deddf Atebolrwydd Deiliaid (Gogledd Iwerddon) 1957 a Gorchymyn Atebolrwydd Deiliaid (Gogledd Iwerddon) 1987). Mae'r Deddfau hyn yn gosod dyletswydd gofal ar ddarparwyr a deiliaid. Yn achos y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc, bydd esgeuluso'r dyletswydd gofal yma'n dramgwydd troseddol. Ar y llaw arall, mae'r Deddfau Atebolrwydd Deiliaid yn darparu'r sail cyfreithiol ar gyfer hawliadau sifil ond nid ar gyfer collfarnau. Mewn gwirionedd, mae'r deddfau hyn yn cyfeirio at lefel tebyg o ofal ar gyfer darparwyr, a amlinellir gan y term 'rhesymoldeb'.**

[1] Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnig crynodeb o'r sefyllfa gyfreithiol sy'n berthnasol i'r DU ar adeg ei gyhoeddi. Mae rhai o'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol yn Yr Alban, a Gogledd Iwerddon, yn wahanol i'r rhai a geir yng Nghymru a Lloegr. Nodir y gwahaniaethau hyn yn y cyfeiriadau. Sylwer hefyd bod cyfrifoldeb Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban. Y chwaer-asiantaeth yng Ngogledd Iwerddon yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dros Ogledd Iwerddon (HSENI). Mae hwn yn endid cyfreithiol ar wahân. Fodd bynnag, mae'n cynnal cysylltiad clòs â'r HSE ehangach ym Mhrydain Fawr.

## Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i ddileu neu leihau risg, hyd yn oed ble fo plant dan sylw.

Yn yr un modd, mae'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc yn mynnu bod risgiau'n cael eu lleihau 'cyn belled â bo'n rhesymol ymarferol'. Cyfeiriwyd yn benodol at y gofyniad cyfreithiol i gynnal asesiadau risg, y mae'r egwyddor yma'n ei ymhlygu, yn Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (yng Ngogledd Iwerddon, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (Gogledd Iwerddon) 2000).

Mae'r rheoliadau hyn yn gosod dyletswydd cyfreithiol ar ddarparwyr i gynnal 'asesiad addas a digonol' o'r risgiau sy'n gysylltiedig â safle neu weithgaredd, a gweithredu'n unol â hynny.

Mae'n bwysig deall ystyr 'rhesymol ymarferol' a 'rhesymoldeb'. Mae barnwyr, wrth grynodebu achosion cyfreithiol ble y cododd y termau hyn, wedi cyflwyno diffiniadau. Mewn un achos sifil allweddol, Tomlinson v Cyngor Bwrdeistref Congleton, aeth i Dŷ'r Arglwyddi yn 2003, dywedodd yr Arglwydd Hoffmann:

**'Mae'r cwestiwn beth a olygir wrth ofal rhesymol o'r fath, fel yn holl amgylchiadau'r achos, yn dibynnu ar asesu, fel mewn achos o esgeulustod cyfraith gwlad, nid yn unig y tebygolrwydd y gallai rhywun gael ei anafu a difrifoldeb yr anaf allai ddigwydd, ond hefyd werth cymdeithasol y weithgaredd fydd yn achosi'r risg a chostau camau ataliol. Mae'n rhaid pwyso a mesur y ffactorau hyn yn erbyn ei gilydd. '**

**(Dyfarniad Tŷ'r Arglwyddi, 2003)**

## Mae Deddf Iawndal 2006 yn datgan y gall y llysoedd ystyried buddiannau gweithgareddau tra'n ystyried dyletswydd gofal.

**Felly, nid diogelwch absoliwt yw'r nod. Mae'r ddeddf yn mynnu y dylid gweithredu camau diogelu os yw'r buddiannau y byddant yn eu cynnig (ar ffurf lleihau risg, a gan ystyried difrifoldeb y canlyniadau) yn drech na'r gost, y cymhlethdod a'r anfanteision eraill o'u gweithredu.** Wrth gymeradwyo *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* yn 2002, fe wnaeth yr HSE gydnabod y safbwynt yma, gan ddweud ei fod yn 'mynegi'r cydbwysedd rhwng y budd a'r angen i blant chwarae yn erbyn dyletswydd darparwyr chwarae i ddarparu chwarae diogel'.



Yn The Limes yn Walthamstow ceir maes chwarae antur cwbl gynhwysol ble y gall plant anabl chwarae'n hapus â'u cyfoedion sydd heb anableddau.

Play England – Philip Wolmuth



Ni wnaeth Deddf Iawndal 2006, a gyflwynwyd gan y llywodraeth mewn ymateb i bryderon ynghylch ofn atebolrwydd, newid y sail cyfreithiol ar gyfer hawliadau atebolrwydd neu achosion cyfreithiol. Fodd bynnag, fe wnaeth ddatgan y gall llysoedd ystyried buddiannau gweithgareddau tra'n ystyried y dyletswydd gofal **(mae'r adran berthnasol, Adran 1, yn gymwys i Gymru a Lloegr yn unig).**

**Hefyd, mae rhaid i ddarpariaeth chwarae gyflawni gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yng Ngogledd Iwerddon Deddf Gogledd Iwerddon (1998) a Gorchymyn Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Gogledd Iwerddon) 2006).**

Nod y ddeddfwriaeth yma yw hybu cyfleoedd cyfartal ar gyfer pobl anabl. Mae rhieni plant anabl – a phlant anabl eu hunain – yn gwbl eglur eu bod hwythau hefyd, am gael cyfleoedd chwarae heriol, cyffrous.

Y mudiad gwirfoddol KIDS sy'n dyfynnu mam person ifanc anabl sy'n mynychu un o'u meysydd chwarae: 'Mae'r maes chwarae wedi rhoi lle i fy mab arbrofi a chymryd risg … y gallu i gyflawni heriau meddyliol a chorfforol; ffurfio a chynnal cyfeillgarwch; baeddu a pheidio â phoeni am y peth; methu weithiau ond peidio â rhoi'r gorau iddi; parchu a chael ei barchu am pwy bynnag ydych chi; ac yn bennaf oll, bod yn blentyn a chael hwyl. Mae angen inni beidio â dweud wrth ein plant beth allan nhw ddim ei ddweud a dangos iddyn nhw beth y gallant ei wneud.'
(KIDS, neges bersonol)

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i blant a phobl ifainc anabl yn ogystal â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl. Ceir canllawiau penodol ychwanegol ar chwarae cynhwysol a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd – gweler Goodridge 2008; Dunn, Moore a Murray 2003; John a Wheway 2004. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw'r Ddeddf yn rhwystr o gwbl i'r agwedd gytbwys tuag at reoli risg a gynigir yn y canllaw hwn.

Mae cymryd risgiau'n rhan annatod o chwarae ac ni ellir dileu risg o ofod chwarae hygyrch ar gyfer unrhyw blentyn, yn cynnwys plant anabl ac agored i niwed. Bydd rhieni plant anabl yn dweud yn aml y byddai'n well ganddynt i'w plant wynebu risg derbyniol fel rhan o chwarae na chael eu heithrio o'r chwarae. Mae'n rhaid canfod cydbwysedd rhwng derbyn y bydd pob plentyn yn wynebu rhywfaint o risg mewn mannau chwarae cyhoeddus agored a chynhwysol ac amrywiol bwysau'r hinsawdd cynyddol ymgyfreithgar yr ydym yn byw ynddo.
(Dunn, Moore a Murray, 2003)

## Mae'r Undeb Ewropeaidd yn cydnabod yr angen am agwedd gytbwys ac yn derbyn na ellir dileu risgiau.

Yn 2001, cyhoeddodd yr Undeb Ewropeaidd gyfarwyddeb gyffredinol ar ddiogelwch cynnyrch, a ymgorfforwyd yn fframwaith rheoleiddio'r DU yn 2005. Mae'n cydnabod yr angen am agwedd gytbwys ac yn derbyn na ellir dileu risgiau (DTI, 2005). Ceir neges debyg yn Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2007, sy'n berthnasol i waith adeiladu (HSE, 2007).

## Y prif ofyniad gweithredol yw cynnal asesiadau risg ysgrifenedig, pwrpasol.

Dylanwad y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a datblygiadau perthynol diweddarach, fel gweithrediad y Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, fu ffurfioli'r broses ar gyfer asesu risg, yn cynnwys ei gwneud hi'n ofyniad cyfreithiol i'w nodi ar bapur (er, i fod yn fanwl gywir, 'dyw'r gofyniad yma ond yn gymwys i sefydliadau â phump neu fwy o gyflogai). Felly, prif ofyniad gweithredol y rheoliadau hyn yw cynnal asesiadau risg ysgrifenedig, pwrpasol. 'Does dim gofyniad dan y ddeddf i gydymffurfio â chanllawiau neu safonau diwydiannol, er y dylid ystyried y rhain bob amser fel un rhan o asesiad risg addas a digonol.

### Polisi cyhoeddus

**Yr agwedd sylfaenol tuag at benderfyniadau polisi cyhoeddus, ynghylch iechyd a diogelwch cyhoeddus, yw hyrwyddo budd cyhoeddus yn gyffredinol.** Mae hyn yn galw am daro cydbwysedd rhwng ystod o ystyriaethau, y mae lleihau canlyniadau anffafriol fel anafiadau'n ddim ond un ohonynt. Mae'r agwedd gytbwys yma'n gwneud defnydd o arolygon ac arsylwadau o agweddau cyhoeddus tuag at risg a phethau eraill y maent yn eu gwerthfawrogi. Yn hyn o beth, mae'n adlewyrchu'r modd y mae cymdeithas ei hun yn blaenoriaethu diogelwch.

**Mae 'rheolaeth cywir o risg', o safbwynt cenedlaethol, yn ymwneud a phroses llunio penderfyniadau cytbwys, ac mae llywodraethau olynol wedi hyrwyddo agwedd gytbwys, gymesur. Dylai penderfyniadau ystyried ffactorau megis â yw'r lefel risg bresennol yn oddefadwy, y camau sydd ar gael i leihau'r risg a'u heffeithlonrwydd, ynghyd â'u costau, cymhlethdod eu gweithredu, a sgîl effeithiau posibl neu ganlyniadau anfwriadol yr ymyriadau diogelwch dan ystyriaeth.**

Mae'r potensial ar gyfer canlyniadau anfwriadol yn un y mae asiantaethau diogelwch wedi eu tanbrisio ar brydiau'n y gorffennol. Er enghraifft, dangosodd un astudiaeth, er bod gofyniad am gaeadau diogel ar boteli moddion wedi lleihau'r nifer o blant a dderbyniwyd i'r ysbyty o ganlyniad i lyncu moddion ar ddamwain, fe wnaeth hefyd arwain at weld rhieni'n lleihau eu ymdrechion diogelwch gan eu bod yn gorbrisio diogelwch y botel. Mewn rhai achosion gadawyd cypyrddau moddion heb eu cloi (Graham a Wiener, 1995).

### Sut i reoli risg mewn darpariaeth chwarae

**Mae'r agwedd a fabwysiedir gan *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* a gan y canllaw hwn, yn adlewyrchu'r safbwynt cyfreithiol a pholisi cyhoeddus a amlinellir uchod. Bu'r safbwynt yma ei hun yn destun asesiad cyfreithiol trylwyr.**

## Mae polisi chwarae sy'n ymgorffori *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* yn darparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau synhwyrol ynghylch risg mewn darpariaeth chwarae.



Yn 2006 comisiynodd PLAYLINK Farn Cwnsler gan gwmni o gyfreithwyr, Public Interest Lawyers. Roedd hwn yn profi sefyllfa gyfreithiol darparwyr sydd wedi mabwysiadu polisi chwarae sy'n eiriol agwedd PLAYLINK, sy'n ymgorffori *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa*. Nid yw Barn Cwnsler yn gynsail cyfreithiol, yn wahanol i ddyfarniad yn y llysoedd uwch. Fodd bynnag, mae'n cynnig barn ystyriol arbenigwr cyfreithiol. Yn yr achos yma, nododd y Farn Cwnsler yn eglur bod polisi chwarae sy'n ymgorffori *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* yn darparu 'fframwaith ar gyfer penderfyniadau synhwyrol ynghylch risg mewn darpariaeth chwarae' a'i fod yn cynnig 'dadleuon cryf dros ganiatáu elfennau o risg mewn darpariaeth chwarae'. Mae *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* yn 'bwysig iawn i'r polisi fel cyfanwaith' sy'n cynnwys 'ystyriaeth ddefnyddiol o risg derbyniol ac annerbyniol'.



Efallai bod parciau ar gyfer olwynion yn eu hanfod yn llawn risg, ond mae'r buddiannau i'r plant fydd yn eu defnyddio, a'r lleihad mewn damweiniau fydd yn digwydd mewn amgylcheddau eraill sy'n fwy peryglus, yn cyfiawnhau eu defnydd.

Play England – Nick Turner

Mae polisi chwarae'r sefydliad a *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* yn darparu sail cadarn ar gyfer amddiffyn yn erbyn hawliadau atebolrwydd: 'Ble y cynhaliwyd asesiad risg gofalus, arweiniodd i'r casgliad y gellir caniatáu i chwarae gynnwys risg o anaf, ar gyfrif y buddiannau fydd yn deillio ohono, rwy'n hyderus y byddai'r Llysoedd yn cydymdeimlo â'r Diffynnydd, pe digwyddai damwain fyddai'n arwain at ymgyfreithiad (PLAYLINK, 2006).

**Mae nifer o awdurdodau lleol (boed yn ymhlyg neu'n echblyg) wedi mabwysiadu'r agwedd gytbwys yma tuag at asesu risg yn eu penderfyniadau i adeiladu cyfleusterau ar gyfer byrddau sgrialu, beiciau BMX a champau eraill ar olwynion.** Mae'r holl gampau hyn, yn eu hanfod, yn llawn risg, ac mae'n anochel y bydd defnyddio'r cyfleusterau hyn yn arwain at anafiadau, gan gynnwys rhai – megis toresgyrn hirion a chyfergyd – allai, mewn rhai amgylchiadau, gael eu hystyried yn anafiadau difrifol. Bydd y penderfyniad i gynnig y math yma o ddarpariaeth yn mynd y tu hwnt i dystiolaeth bod risg niwed yn bodoli. Mae'n ystyried materion megis: y buddiannau ar gyfer plant a phobl ifainc, yn cynnwys eu hiechyd a'u lles cyffredinol; gostyngiad posibl mewn damweiniau mewn mannau eraill a'r buddiannau ehangach i'r gymuned o ddarparu mannau i bobl ifainc ymgasglu ynddynt a chael rhywbeth i'w wneud. Mae safonau dylunio ac adeiladu'n cynnig arweiniad ar rai o'r mathau mwyaf cyffredin o gyfleusterau
(BS EN 14974 ac EN 15312).


Play England - Nick Turner



# Pennod 3:

## Diogelwch, risg, perygl a niwed

Yr her i ddarparwyr chwarae yw ymgorffori'r agweddau risg cadarnhaol yma yn eu darpariaeth chwarae, gan mai un o'i ddibenion craidd yw sicrhau buddiannau a mwynhad ar gyfer plant a phobl ifainc.

Play England – Nick Turner

Mae'r fframwaith, y disgrifiad a'r diffiniadau a ddefnyddir yn y canllaw hwn yn creu'r cyd-destun ar gyfer llunio barn ynghylch yr hyn allai gael eu hystyried yn lefelau risg derbyniol ac annerbyniol. Trwy gynnig diffiniadau a fframwaith ar gyfer ystyried diogelwch, risg, perygl a niwed, mae'r bennod yma'n cynnig agwedd gytbwys ar gyfer ystyried y posibilrwydd y gallai plant gael eu hanafu tra'n cymryd risg wrth chwarae.

Fel rhan o'r broses hon, mae'r canllaw'n egluro'r termau 'risg', 'perygl' a 'niwed', er mwyn esbonio eu agweddau cadarnhaol, yn ogystal â'r rhai negyddol. Mae'r canllaw'n cynghori bod yn ofalus rhag gwneud defnydd anaddas o'r gair 'diogel' gan fod hyn yn cyfleu'r ystyr amhosibl, ac annerbyniol, ei bod yn bosibl dileu risg yn gyfan gwbl.

## Diffiniadau a disgrifiadau

### Diogel

**Mae'n bosibl mai 'diogel' neu 'diogelwch' yw'r termau y deuir ar eu traws amlaf mewn dadleuon am blant a risg, megis: 'A yw'r maes chwarae / parc / coeden / sgwâr cyhoeddus yma'n ddiogel?' Nid oes ateb syml i gwestiynau fel hyn, oherwydd bod y gair 'diogel' yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl (Ball a Ball-King 2011).**

Mae'r canllaw hwn yn osgoi defnydd anaddas o'r gair 'diogel'.

I rai pobl, bydd y term 'diogel' yn golygu nad oes unrhyw risg o niwed o gwbl (sy'n annhebygol iawn). I eraill mae'n golygu bod y sefyllfa'n cydymffurfio â safonau diwydiannol. I rai, gallai olygu bod y risg islaw rhyw lefel ddychmygol gaiff ei hystyried yn gyffredinol dderbyniol. Oherwydd yr amwysedd a'r dryswch yma, bydd y canllaw hwn yn osgoi defnydd anaddas o'r gair 'diogel' ac yn argymell y dylai darparwyr wneud yr un peth.

### Perygl

**Mae peryglon yn ffynonellau niwed posibl. Yn y daflen *Five Steps to Risk Assessment* (HSE, 2006) mae'r HSE yn diffinio perygl fel 'unrhyw beth allai achosi niwed, megis cemegolion, trydan, gweithio ag ysgolion, drôr agored, ayb'.**

Nid oes gweithred na gwrthrych na allai fod yn beryglus mewn amgylchiadau penodol.

Weithiau defnyddir y gair 'perygl' i awgrymu bod ffynhonnell y niwed yn annerbyniol a bod angen ei liniaru. Gall hyn greu dryswch oherwydd, mewn gwirionedd, ceir peryglon ym mhobman. Nid oes gweithred na gwrthrych na allai fod yn beryglus mewn amgylchiadau penodol, yn yr ystyr fod ganddynt y potensial i achosi rhywfaint o niwed. Gall pobl faglu dros risiau, llithro ar loriau, cerdded i mewn i ddrysau neu gwympo oddi ar fframiau dringo.

## Mae rhywfaint o werth i beryglon, gan y gallant fod yn gyfle i ddysgu.

Mae'n dilyn felly, bod ceisio dileu neu liniaru pob perygl nid yn unig yn amhosibl ond, o bosibl, yn niweidiol. Os yw'r byd, yn ôl ei natur, yn llawn peryglon, mae angen i bobl ddysgu i'w hadnabod ac i ymateb iddynt er mwyn amddiffyn eu hunain. Ceir peth o'r dysg yma trwy brofiadau hunangyfeiriedig: ennill sgiliau trwy wynebu, asesu ac ymateb i beryglon wrth iddynt godi. Felly mae gan beryglon rywfaint o werth, yn arbennig ar gyfer plant a phobl ifainc, gan y gallant fod yn gyfle i ddysgu.

Mae'n anymarferol i drin pob perygl posibl â'r un difrifoldeb. Bydd angen inni llunio barn ynghylch:

- pa beryglon sydd angen eu addasu neu eu dileu
- pa beryglon allai fod yn dderbyniol neu'n ddymunol, oherwydd eu buddiannau i blant a phobl ifainc
- beth, os unrhyw beth, ddylid ei wneud am beryglon a glustnodwyd.





Mae'r plant yma'n dysgu sut i drin weiren bigog yn ddiogel yn ystod sesiwn chwarae gwledig gyda Swainswick Explorers ger Caerfaddon.

Play England – Nick Turner

## Risg

**Mae'r gair 'risg', yn ei ystyr cyffredin, yn cyfeirio at y tebygolrwydd neu'r posibilrwydd o ganlyniad niweidiol. Mewn cyd-destunau rheoli risg, mae'r gair yn tueddu i gynnwys mesur o ddifrifoldeb y canlyniad niweidiol, yn ogystal â'i debygolrwydd. Mae'r HSE yn diffinio risg fel y cyfle 'y gallai rhywun gael ei niweidio gan [berygl] ynghyd â rhyw arwydd o ba mor ddifrifol y gallai'r niwed fod' (HSE, 2006).**

### Mae'r canllaw hwn yn defnyddio'r gair 'risg' mewn modd niwtral, heb awgrymu unrhyw farn os yw'n dderbyniol ai peidio.

Fel gyda'r gair 'perygl', gall y term 'risg' awgrymu llunio barn bod y posibilrwydd yn annerbyniol o uchel, fel y dywedir yn Saesneg 'that's risky'. Oherwydd hyn, gall dryswch godi os yw risg penodol yn dderbyniol ai peidio. Mae'r canllaw hwn yn glynu at arfer rheoli risg trwy ddefnyddio'r gair 'risg' mewn modd niwtral, heb awgrymu unrhyw farn os yw'n dderbyniol ai peidio. Mae'r datganiadau isod yn nodi rhai esiamplau o'r cysyniad o 'risg':

- Mae'r posibilrwydd (risg) y bydd yn glawio ar eich pen-blwydd os ydych yn byw yn y Canolbarth tua 15 y cant.
- Mae'r tebygolrwydd (risg) y bydd plentyn (dan 15 mlwydd oed) yn dioddef damwain yn y cartref sy'n galw am fynd i adran ddamweiniau ac achosion brys yr ysbyty leol tua 10 y cant yn ystod un flwyddyn.
- Mae'r risg blynyddol o blentyn yn dioddef damwain sy'n cynnwys offer maes chwarae ac sy'n galw am fynd i adran ddamweiniau ac achosion brys yn un mewn 200, neu 0.5 y cant.

## Risgiau da a drwg

**Yn draddodiadol, mae rheolaeth risg yn y gweithle'n cynnwys dynodi ac, os oes angen, liniaru peryglon, er mwyn lleihau'r risg o ganlyniadau niweidiol. Mae hyn yn wahanol i ddarpariaeth chwarae. Yma, mewn llawer o achosion, bydd presenoldeb perygl – cwymp o uchder heb ffens o'i amgylch, pont sigledig – o bosibl, i'w groesawu.**

### Mewn maes chwarae mae ergydion, cleisiau, crafiadau a hyd yn oed asgwrn wedi ei dorri i'w disgwyl fel rhan o fywyd bob dydd.

Mae'r hyn sy'n cyfrif fel canlyniad niweidiol yn wahanol hefyd. Mewn maes chwarae nid yw ergydion, cleisiau, crafiadau a hyd yn oed asgwrn wedi ei dorri, o reidrwydd, yn arwyddion sy'n rhybuddio ynghylch peryglon mwy o faint, fel y gallent fod mewn amgylchedd ffatri neu swyddfa. Maent i'w disgwyl fel rhan o fywyd bob dydd ar gyfer plant wrth iddynt dyfu.

Ond pa fath o beryglon, faint o risg a pha fath o ganlyniad niweidiol sy'n dderbyniol? Mae'r canllaw hwn yn gwahaniaethu rhwng risgiau a pheryglon da a drwg.

### Mae risgiau a pheryglon da yn dderbyniol ac yn cynnwys fawr ddim syrpreisys. Nid yw risgiau drwg yn cynnig unrhyw fuddiannau datblygiadol, neu fuddiannau amlwg eraill.

**Mae risgiau a pheryglon da mewn darpariaeth chwarae'n rhai sy'n diddanu a herio plant, ac yn cynorthwyo gyda'u twf, eu dysg a'u datblygiad.** Gallai'r rhain gynnwys offer â rhannau symudol, sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer chwarae dynamig a chorfforol, heriol; newidiadau mewn uchder sy'n rhoi cyfle i blant oresgyn ofnau ac ennill ymdeimlad o foddhad wrth ddringo; a rhannau rhydd naturiol fydd yn rhoi cyfle i blant greu a dinistrio adeiladau gan ddefnyddio eu dawn, eu creadigedd a'u dychymyg.

**Mae risgiau a pheryglon drwg yn rhai sydd yn anodd neu'n amhosibl i blant eu asesu drostynt eu hunain, ac sydd heb unrhyw fuddiannau amlwg.**

Gallai'r rhain gynnwys ymylon neu gorneli miniog ar offer, strwythurau gwan allai chwalu, ac eitemau sy'n cynnwys trapiau ar gyfer pennau neu fysedd.

Felly, mae risgiau a pheryglon da yn dderbyniol mewn darpariaeth chwarae a mannau chwaraeadwy. Nid ydynt yn cynnwys fawr ddim syrpreisys. Ar y llaw arall, mae risgiau drwg yn fwy problemus, gan nad ydynt yn cynnig unrhyw fuddiannau datblygiadol, neu fuddiannau amlwg eraill.

Mae'r mwyafrif o oedolion yn abl i asesu risgiau da, yn rhannol oherwydd eu profiadau plentyndod personol a'u arsylwadau o blant eraill. Nid oes angen unrhyw hyfforddiant neu arbenigedd arall i allu gwneud hyn. Ar y llaw arall, gall asesu risgiau drwg ofyn am arbenigedd. Mae penderfynu faint o bwysau y gall strwythur ei ddal, neu sylwi os oes trapiau pen ar ddarn o offer chwarae, yn waith i arbenigwr. Un o fuddiannau'r safonau diwydiannol yw eu bod yn caniatáu i'r risgiau drwg hyn gael eu dynodi, derbyn cyngor arnynt a'u hadolygu o dro i dro.

## Mae penderfynu faint o bwysau y gall strwythur ei ddal, neu sylwi os oes trapiau pen ar ddarn o offer chwarae, yn waith i arbenigwr.

**Fel y dywed Rheoli *Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa*, mae plant yn meddu ar 'allu cynyddol i asesu a rheoli risg, y gellid dadlau y bydd oedolion yn dueddol o'u tanbrisio'. Bydd y mwyafrif o blant yn rheoli'n naturiol faint o risgiau da, gaiff eu cynnig mewn darpariaeth chwarae fel y risg o gwympo o uchder, y maent am eu wynebu. Mae penderfynu pa mor uchel i ddringo, pa mor bell i neidio ac os i ildio i bwysau cyfoedion i wneud rhywbeth ai peidio, yn brofiadau gwerthfawr wrth ddysgu sut i ddelio ag ansicrwydd a pherygl.**

Fodd bynnag, fydd hi ddim yn rhwydd bob amser i wahaniaethu rhwng risg da a drwg, ac mae'n bosibl y bydd gwahanol bobl yn tynnu'r llinell mewn gwahanol fannau. Er enghraifft, gellid dadlau bod cwymp agored o uchder yn dda hyd at lefel penodol, ond os yw'r gwymp yn rhy uchel bydd yn troi'n broblemus. Un ffactor perthnasol yw amlder anafiadau. Efallai na fydd un neu ddau achos o doresgyrn mewn blwyddyn, sy'n codi'n sgîl darn o offer chwarae heriol a phoblogaidd, yn broblem mewn man chwarae prysur; ond mewn ardal chwarae fechan mewn cymdogaeth dawel, efallai y bydd yn fwy o broblem.

## Bydd penderfynu beth sydd a beth sydd ddim yn dderbyniol yn dibynnu cymaint ar anghenion plant a phobl ifainc ac y mae ar dystiolaeth risg posibl.

**Fel arfer, nid oes atebion clir i gwestiynau ynghylch ble i dynnu'r llinell rhwng natur derbyniol ac annerbyniol risg. Mae'n dibynnu'n rhannol ar dystiolaeth, ond hefyd ar ffactorau eraill fel oedran a gallu'r grŵp defnyddwyr, eu dymuniadau a'u anghenion, ac ystyriaethau eraill.** Mae safonau diwydiannol yn helpu trwy gynnig pwyntiau y gellir cyfeirio atynt, ond nid ydynt yn darparu ateb absoliwt. Bydd rhai planhigion neu aeron lled-wenwynig yn cyflwyno risgiau drwg yn ogystal â rhai da: mae'n bosibl y byddant yn ychwanegu at apêl yr ardal ac at werth chwarae, ond maent hefyd yn beryglon y mae'n bosibl na fydd ambell i blentyn a gofalwr yn ymwybodol ohonynt. Prin iawn, iawn y clywir bod plentyn wedi marw neu ddioddef anabledd parhaol yn sgîl bwyta planhigion gwenwynig, ond nid yw hyn wedi atal rhai awdurdodau lleol ac eraill rhag codi planhigion traddodiadol o barciau a mannau cyhoeddus.

### Niwed

**Fel arfer, caiff niwed ei ystyried yn elfen gwbl negyddol. Mae diffiniad y geiriadur yn ymwneud â'r ystyr bod niwed yn rhyw fath o anaf. O safbwynt y canllaw hwn, mae'n ddi-fudd i ddiffinio 'niwed' ac 'anaf' fel elfennau negyddol bob amser. Yn ein bywyd bob dydd byddwn yn ymateb i'r cysyniad o 'niwed' mewn modd hynod o awgrymog, yn enwedig ble fo plant a phobl ifainc dan sylw. Mae'r idiom, 'Mi wnaiff hynna ddysgu gwers iti!', yn gydnabyddiaeth y gall niwed y byddwch yn ei achosi i'ch hun fod yn wers werthfawr iawn.**



Yn aml, bydd oedolion yn bychanu gallu plant i asesu risg.

Three Mill - Dan Childs Films



## Bydd dysgu trwy brofiad yn cynnwys wynebu anawsterau gymaint a phleser.

Caiff llawer o brofiadau real, poenus a chleisiol eu hystyried yn gyffredin fel modd o 'ddysgu trwy brofiad'. Mewn geiriau eraill, mae angen i o leiaf rai anafiadau – a'r peryglon allai eu hachosi – gael eu gwerthfawrogi am ddarparu'r cyfle hwn i ddysgu sgiliau goroesi. Efallai y bydd risgiau efelychiadol (fel y rhai a geir mewn prosiectau addysg diogelwch tra rheoledig, neu fydoedd rhithwir) yn cynnig rhywfaint o gyfleoedd ar gyfer dysgu am risg. Fodd bynnag, fydd gan blant ddim yr un rheidrwydd i ddynodi, rheoli neu ddysgu oddi wrth y risgiau hyn fel y byddent yn y byd go iawn, gan eu bod yn gwybod nad oes gwir berygl.

## Mewn darpariaeth chwarae, 'dyw hi ddim yn rhwydd bob amser i benderfynu pa fath o ganlyniadau sy'n annerbyniol neu drwblus.

**Fel y dywed *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa*, mewn amgylchedd darpariaeth chwarae 'dyw mân-anafiadau fydd yn gwella'n gyflym ddim yn broblemus ynddynt eu hunain. Fel rheol ni ddylid eu hystyried fel niwed neu ganlyniadau niweidiol o gwbl – oni bai eu bod yn dynodi presenoldeb risg drwg neu osgoadwy fel gwrthrych miniog cudd, neu wall dylunio neu wall arall sy'n debygol o achosi anafiadau mwy difrifol.**

Mewn gwirionedd, bydd mân-ddamweiniau'n gyffredin, oherwydd union natur chwarae a'i rôl mewn datblygiad plant. I ddyfynnu BS EN 1176-1: 'Mae angen i blant ddysgu i ymdopi â risg a gall hyn arwain at ergydion a chleisiau, a hyd yn oed doresgyrn o dro i dro' (BSI, 2008a). Mae CEN – y corff sy'n gyfrifol am ddatblygu safonau offer chwarae Ewrop – yn lleisio barn debyg yn ei Fandad Diogelwch Plant (Child Safety Mandate), sy'n berthnasol i ystod eang o feysydd a safonau cynnyrch.

> Un elfen hanfodol o'r broses o weld plentyn yn tyfu'n oedolyn yw'r angen, a'r awydd, i archwilio ffiniau a rhoi tro ar brofiadau newydd. Mae mân-anafiadau'n rhan o broses ddysgu pob plentyn ac maent yn rhan llawer mwy arferol o fywyd iddyn nhw nag i oedolion. (CEN 2006)



Ar y pegwn arall, mae'n ymddangos yn gwbl eglur, ar yr olwg gyntaf, y dylai darparwyr wneud popeth posibl i ddileu'r risg o farwolaethau neu anafiadau sy'n achosi anabledd parhaol. Fodd bynnag, fel y dywed *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* hefyd, mae'r gwirionedd yn wahanol. Mae'n bosibl i drychinebau ddigwydd ar feysydd chwarae, yn yr un modd ag unman arall, ac nid yw'r ffaith i drychineb ddigwydd ddim o anghenraid yn golygu bod y risgiau wedi eu rheoli'n wael. Dros amser, ac o ystyried y miliynau o blant sy'n ymweld â meysydd chwarae, mae'n anorfod y bydd anafiadau sy'n achosi anabledd parhaol neu ddamweiniau angheuol yn digwydd, yn achlysurol iawn, heb unrhyw fethiant ar ran y darparwr. Rhwng y ddau begwn yma o'r sbectrwm, efallai y bydd, neu na fydd, enghreifftiau o anafiadau fel cyfergyd neu doresgyrn, yn arwyddion bod risgiau wedi eu rheoli'n gywir.

I ryw raddau ceir diffiniadau cytûn ymysg llunwyr polisïau ynghylch y mathau o anafiadau gaiff eu barnu'n 'fychan' neu'n 'ddifrifol', a defnyddir y rhain gan weithwyr proffesiynol ym meysydd iechyd ac atal damweiniau (DfT, 2004). Awgryma hyn bod ateb syml i'r cwestiwn ynghylch lefel anaf allai fod yn destun pryder – hynny yw, anaf difrifol. Fodd bynnag, mae diffiniad 'anaf difrifol' yn cwmpasu amrywiaeth eang o ganlyniadau'n dibynnu ar sut a ble y mae'n cael ei ddefnyddio. Mae'n amrywio o anafiadau sydd fel arfer yn gymharol fychan ac yn gwella'n rhwydd fel archollion a sioc, i anafiadau mwy difrifol, fydd er gwaethaf hyn fel arfer yn gwella'n llwyr, fel cyfergyd a thoresgyrn, i anafiadau sy'n peryglu bywyd neu sy'n achosi anabledd parhaol (Adams, 1995).

Mae nifer o ffactorau'n dylanwadu ar y math o anaf a difrifoldeb yr anafiadau allai fod yn oddefadwy neu'n dderbyniol mewn cyd-destun penodol. Fel y nodir yn *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa*, mae gweithgareddau fel pêl-droed, rygbi neu griced yn cynnwys lefel uwch o anaf na chwarae ar faes chwarae (Ball, 2000b). Ond caiff y gweithgareddau hyn gydnabyddiaeth eang fel bod yn fuddiol, a cheir fawr ddim pryder cyhoeddus neu broffesiynol ynghylch lefelau anafiadau, er y gellir adolygu rheolau a rheoliadau o dro i dro wrth i agweddau tuag at risg newid.




Mae gweithgareddau fel pêl-droed, rygbi neu griced yn cynnwys mwy o risg o anaf na chwarae ar feysydd chwarae.

Play England - Philip Wolmuth

# Pennod 4:

## Rôl safonau a chanllawiau

Ni cheir deddfwriaeth benodol ar ddiogelwch chwarae yn y DU, a chynnal asesiad risg 'addas a digonol' yw'r prif ofyniad cyfreithiol. Ceir safonau diwydiannol cytûn trwy Ewrop y dylid eu hystyried bob amser tra'n cynnal asesiad risg, a chaiff y rhain eu hystyried yn rheolaidd mewn achosion cyfreithiol.



Play England – Wendy Brookfield

Mae'r bennod hon yn archwilio statws a rôl canllawiau a safonau diwydiannol. Y prif ofyniad cyfreithiol ar ddarparwyr yw cynnal asesiad risg 'addas a digonol'. Nid yw cydymffurfio â'r safonau'n ofyniad cyfreithiol, er y dylid eu hystyried bob amser.

Mae safonau'n arfau pwysig wrth reoli risg, ac maent yn cynnig arweiniad ar rai materion dyrys. Fodd bynnag, mae camddealltwriaeth am eu rôl a'u statws wedi creu problemau yn y gorffennol. Efallai y bydd testun fersiwn diweddaraf y safon allweddol BS EN 1176-1 (BSI, 2008a), yn helpu i annog mabwysiadu agwedd fwy ystyriol i'r modd y byddwn yn eu gweithredu.

Ynghyd â'r safonau, mae arweiniad, cyngor a gwybodaeth arall ar gael. Dylai darparwyr chwarae ddefnyddio'r deunydd yma hefyd, ynghyd ag ystod eang o wahanol arfau defnyddiol sydd ar gael, i'w hysbysu yn hytrach na fel gofynion absoliwt.

Nid yw cydymffurfio â safonau diwydiannol yn ofyniad cyfreithiol. Cadarnhawyd hyn gan Farn Cwnsler, a ddyfynwyd yn y bennod flaenorol. Nododd mai'r 'agwedd gywir tuag at safonau Prydeinig neu Ewropeaidd yw nid ystyried eu bod yn gosod safonau gorfodol y dylid glynu atynt yn slafaidd ym mhob achos, ond yn hytrach fel canllaw sy'n arddangos y farn gyffredin ar yr hyn y byddem yn ei ystyried yn ragofalon synhwyrol mewn unrhyw achos penodol.' Aeth ymlaen i ddweud: 'Pe bae proses resymegol o asesu risg, ynghyd â chydbwysedd rhwng costau, risg a budd yn gallu cyfiawnhau troi oddi wrthynt, yna ni fyddai unrhyw fethiant i sicrhau gofal rhesymol' (PLAYLINK, 2006).

Y safonau allweddol ar gyfer darpariaeth chwarae yw BS EN 1176 (arwynebau ac offer chwarae sefydlog), BS EN 1177 (dull ar gyfer profi arwynebau lleddfu ardrawiadau), BS EN 14974 (cyfleusterau campau ar olwynion, fel parciau sglefrio a llwybrau beiciau BMX) a BS EN 15312 (cyfleusterau chwarae â phêl, fel ardaloedd gemau peli).



## Nid yw safonau diwydiannol tynnach yn golygu bod cyfleusterau hŷn yn sydyn, ac yn awtomatig, yn cael eu hystyried yn fwy peryglus.

Caiff y safonau Ewropeaidd yma eu pennu gan CEN, asiantaeth safonau Ewrop, a'u cyhoeddi yn y DU fel Safonau Prydeinig. Mae eu gwreiddiau mewn safonau cynharach a grewyd yn y DU ac mewn aelod-wladwriaethau eraill, ac fe'u hadolygir o dro i dro a'u diwygio i adlewyrchu profiad ac mewn ymateb i newidiadau mewn disgwyliadau cymdeithasol. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, nid yw tynhau safonau diwydiannol yn golygu bod cyfleusterau hŷn a adeiladwyd yn unol â'r fersiwn flaenorol yn sydyn, ac yn awtomatig, yn cael eu hystyried yn fwy peryglus. Cyhoeddwyd fersiynau diwygiedig o safonau BS EN 1176 a BS EN 1177 yn y DU yn ddiweddar (BSI 2008a a BSI 2008b).

**Caiff y safonau eu llunio gan bwyllgorau o arbenigwyr a grwpiau buddiant o rai neu bob un o'r 30 aelod-wladwriaeth o CEN, sy'n cynhyrchu ac adolygu drafftiau mewn gweithgorau cyn i'r rhain gael eu cyflwyno i bwyllgor cyflawn CEN i'w cymeradwyo. Maent yn gwneud defnydd o ystod o ddisgyblaethau. Mae'r rhain yn cynnwys safbwyntiau o feysydd peirianneg, ffisioleg, seicoleg, diogelwch cynnyrch a chymdeithasol a diwylliannol, ynghyd â sylwadau gwneuthurwyr a darparwyr.**



Mae Parc Mile End yn Tower Hamlets yn defnyddio arwyneb lleddfu ardrawiadau (IAS) wedi ei osod o fewn ffrâm ar lawr o amgylch offer dringo.

Play England - Alan Finlay



**Mae safonau'n helpu i bennu pwyntiau y gellir cyfeirio atynt ynghylch lefelau risg derbyniol, a chynnig arweiniad mewn sefyllfaoedd ble y gallai darparwyr, fel arall, ei chael yn anodd i lunio penderfyniadau.**

Mae safonau'n un adnodd allweddol yn y broses o reoli risg. Mae eu bodolaeth wedi arwain, yn y gorffennol, at gael gwared ag offer sy'n annerbyniol o beryglus, gwella ansawdd adeiladu, a rhaglenni cynnal a chadw mwy trwyadl. O'u defnyddio yng nghyd-destun anghenion lleol, mae safonau'n helpu i bennu pwyntiau y gellir cyfeirio atynt ynghylch lefel risg derbyniol, a chynnig arweiniad mewn sefyllfaoedd ble y gallai darparwyr, fel arall, ei chael yn anodd i lunio penderfyniadau. Yn y gorffennol, mae cyfeirio at y safonau wedi arwain at weld rhai darparwyr yn cynnwys darnau o offer sydd â risg amlwg yn perthyn iddynt – megis polion fertigol – allai fel arall fod wedi eu diystyru o ganlyniad i ofn damweiniau neu hawliadau.

Fodd bynnag, er gwaetha'r ffaith bod safonau'n ganllaw, yn y gorffennol mae camddealltwriaeth ynghylch eu rôl a'u statws wedi arwain yn aml at weld darparwyr yn mabwysiadu agwedd cwbl fecanistig tuag at asesu a rheoli risg mewn darpariaeth chwarae. Mae llawer o ddarparwyr yn ystyried bod y safonau, mewn gwirionedd, yn un o ofynion absoliwt asesu risg. Gall hyn arwain at ymatebion cywirol anghymesur a chostus tuag at fân ddiffygion, allai effeithio fawr ddim ar ddiogelwch. Er enghraifft, mae rhai darparwyr wedi credu, yn anghywir, bod angen iddynt gael gwared ag offer a ddefnyddiwyd ers blynyddoedd heb unrhyw broblemau, gan iddynt sylweddoli bod uchder cwymp fertigol ychydig gentimedrau'n uwch na'r mesuriadau a nodir yn y safonau. Byddai defnyddio'r safonau fel **un** ystyriaeth, yn hytrach na'r unig offeryn pwyso a mesur, yn ei gwneud yn gwbl eglur na fyddai angen cymryd camau o'r fath dan yr amgylchiadau hyn.

Yn ogystal, gall dryswch arwain y rheini sy'n dylunio neu'n comisiynu darpariaeth chwarae i ganolbwyntio'n llwyr ar y ffaith a ellir dangos bod eitemau'n cydymffurfio â'r safonau ai peidio. Yn y gorffennol arweiniodd hyn at ddefnydd cyfyngedig o nodweddion chwarae nad ydynt yn cael eu trafod yn benodol yn y safonau, megis boncyffion, cerrig mawrion, tirlunio caled, planhigion neu wahanol lefelau. Yn hytrach, gwelwyd tueddiad i ddewis offer o fath oedd yn cydweddu agosaf i'r rheini a ddisgrifiwyd yn benodol gan y safonau, megis siglenni, llithrennau, carwséls, offer siglo ac aml-chwarae.



Aileen Shackell

Mae Man Chwarae Stryd Wyvis yn Tower Hamlets hefyd yn cynnwys nodweddion chwarae fel cerrig mawrion.



Mae Man Chwarae Invermead Close yn cynnwys boncyffion, cerrig mawrion a choeden sydd wedi cwympo.

Phil Doyle



Mae Chapelfield, ger Cowie, yn defnyddio cerrig mawrion, tywod ac amrywiol lethrau sydd ddim yn cael eu trafod yn y safonau.

Tim Gill

Yn hanesyddol, roedd testun esboniadol y safonau'n pwysleisio eu rôl wrth atal anafiadau, heb gyfeirio o gwbl, neu gyfeirio fawr ddim, at y buddiannau. O ganlyniad, bach iawn oeddent yn ei wneud i herio'r argraff bod angen lleihau'r nifer o anafiadau a risgiau o unrhyw fath. Mewn gwirionedd, mae pob fersiwn o'r safonau, yn ymestyn yn ôl cyn belled â'r Safonau Prydeinig cyntaf a gyhoeddwyd ym 1959, wedi edrych ar gydbwysedd rhwng risgiau (gan eu bod yn anochel) a buddiannau. Mae'r fersiwn ddiweddaraf (2008) yn datgan yn groyw bod gwerth chwarae a buddiannau eraill wedi eu hystyried fel rhan o'r broses pennu safonau.

Pwrpas y rhan yma o BS EN 1176 yw sicrhau lefel diogelwch digonol tra'n chwarae mewn, ar neu o amgylch offer maes chwarae, ac ar yr un pryd hyrwyddo gweithgareddau a nodweddion y gwyddir sydd o fudd i blant oherwydd eu bod yn darparu profiadau gwerthfawr fydd yn eu galluogi i ymdopi â sefyllfaoedd y tu hwnt i'r maes chwarae. (BSI, 2008a)

Tra bo gan safonau, yn sicr, rôl allweddol i'w chwarae wrth arwain agweddau tuag at reoli risg, fe'u datblygir yn unol â dealltwriaeth cyfoes o'r dystiolaeth orau sydd ar gael ar adeg yr adolygiad. Wrth i waith ymchwil gael ei ddatblygu, daw ffactorau newydd i'r amlwg ac efallai na chyfeirir at y rhain yn y safon tan iddo gael ei adolygu nesaf. Er enghraifft, ers i'r safon ar arwynebau lleddfu ardrawiadau gael ei gyflwyno gyntaf, mae ei effeithlonrwydd wedi cael ei astudio'n helaeth dros nifer o flynyddoedd. Mae rhai canfyddiadau'n awgrymu efallai nad yw mor effeithiol â'r disgwyl (Gill 2007; Eager, Nixon a Yearley, 2008), ac nad yw'n cyflawni'r criteria ar gyfer buddsoddiad iechyd a diogelwch a ddefnyddir ym maes llunio penderfyniadau polisi cyhoeddus (Ball, 2004). Nid yw canfyddiadau sy'n cyfeirio at aneffeithioldeb cymharol mesurau diogelwch gwneuthuredig yn anarferol (Jarvis, Towner a Walsh 1995).



## Gall asesu risg–budd gael ei hysbysu gan wybodaeth o nifer o ffynonellau, yn cynnwys safonau, mudiadau defnyddwyr a diogelwch a gwaith ymchwil.

**Ynghyd â safonau, mae ffurfiau eraill o wybodaeth anstatudol ar gael i ddarparwyr, yn cynnwys arweiniad a ddarperir gan y diwydiant, mudiadau defnyddwyr a diogelwch a gwaith ymchwil. Yn union yn yr un modd a'r safonau, bydd angen defnyddio'r deunydd yma yn y cyd-destun lleol a gan ystyried anghenion y plant, ac fel canllaw yn hytrach na fel gofyniad.**


Efallai y bydd arweiniad gan fudiadau unigol yn llai awdurdodol na'r safonau, sy'n destun trafodaethau ac ymgynghoriadau helaeth. Mae arweiniad o'r fath yn syml, yn cynrychioli safbwyntiau'r asiantaethau hynny ynghylch beth sy'n cyfrif fel arfer gorau neu arfer da ar adeg ei ysgrifennu. Mae'n bosibl ei fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, neu ddim. Efallai ei fod yn gyson ag amcanion polisi darparwyr neu â dyheadau cymdeithasol neu bolisi cyhoeddus cyffredinol, neu ddim. Yn olaf, efallai ei fod yn cyfateb â'r hyn y mae'r llysoedd yn penderfynu sy'n rhesymol dan yr amgylchiadau, neu ddim.

# Adran 2

## Asesu risg-budd



Tim Gill



# Pennod 5:

## Asesu risg-budd ac asesu risg confensiynol

Mae'r HSE yn sylweddoli'n llwyr bod chwarae'n dod â'r byd yn fyw i blant. Mae'n darparu ar gyfer archwilio ac ennill dealltwriaeth o'u doniau; yn eu helpu i ddysgu a datblygu; ac yn eu cyflwyno i realaeth y byd y maent yn byw ynddo, sef byd sydd ddim yn rhydd o risg ond, yn hytrach, yn fyd ble y mae risg yn fythol bresennol. Mae'r cyfle i chwarae'n datblygu ymwybyddiaeth plentyn o risg ac yn ei baratoi ar gyfer bywyd i'r dyfodol.

*Chwarae a Hamdden Plant: Hyrwyddo agwedd gytbwys* (Datganiad Lefel Uchel ar y Cyd HSE / Play Safety Forum)

Play England - Alan Finlay

Mae'r bennod hon yn cynnig y dylai pob elfen o reoli risg mewn darpariaeth chwarae ddechrau â pholisi chwarae eglur. Dylai'r polisi hwn amlinellu'r gwerthoedd, y dealltwriaethau, yr egwyddorion a'r criteria sy'n ffurfio'r fframwaith ar gyfer llunio barnau ynghylch darpariaeth chwarae.

Mae'r adran yma'n crynhoi'r buddiannau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darpariaeth chwarae. Mae'n cyflwyno asesu risg-budd fel agwedd synhwyrol tuag at reoli risg sy'n ystyried risg a budd ochr-yn-ochr â'i gilydd, ac yn dadlau y dylid gwneud hyn mewn modd disgrifiadol, yn hytrach na thrwy ddefnyddio unrhyw fath o broses sgorio.

**Mae rheoli risg mewn darpariaeth chwarae'n cynnwys taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau mewn modd strategol. Gan mai'r rheswm am ddarparu cyfleoedd chwarae yw eu budd i blant a phobl ifainc, dylai'r man cychwyn – a'r ystyriaeth bwysicaf – ar gyfer asesu risg a llunio penderfyniadau fod yn ddealltwriaeth o'r buddiannau y mae'r ddarpariaeth yn eu cynnig.**

## Dylai'r polisi sylfaenol egluro'r gwerthoedd, y dealltwriaethau, yr egwyddorion a'r criteria y seilir barnau arnynt.

Mae'r canllaw hwn yn cynghori y dylai pob rheolaeth risg mewn darpariaeth chwarae ddechrau â fframwaith polisi eglur, y mae'n well ei amlinellu mewn polisi chwarae. Mae polisi chwarae – yn wahanol i strategaeth chwarae – yn nodi'r gwerthoedd, y dealltwriaethau, yr egwyddorion a'r criteria sy'n ffurfio'r fframwaith ar gyfer llunio barnau ynghylch darpariaeth chwarae. Bydd yn cynnwys datganiadau am fuddiannau chwarae ar gyfer plant a phobl ifainc, ac yn amlinellu pam y dylai darparwyr greu amgylcheddau chwarae sy'n cynnig, ymysg pethau eraill, cyfleoedd i gymryd risg. Dylai'r polisi yrru'r strategaeth trwy nodi'r gwerthoedd a fabwysiadwyd.

**Bydd polisi chwarae'n creu'r fframwaith y gall darparwyr fesur barnau ynghylch rhesymoldeb mewn rheolaeth risg yn ei erbyn. Mae'n gwneud hyn trwy gadarnhau bod risg yn agwedd gynhenid ac angenrheidiol o chwarae.**

Mae'n egluro'n blaen ddyletswydd darparwyr chwarae i gynnig cyfleoedd i gymryd risg, ac yn haeru y bydd datblygiad iach a hapus plant a phobl ifainc, heb gyfleoedd o'r fath, yn cael eu amharu. Dylai'r polisi gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan yr awdurdod neu'r sefydliad perthnasol (PLAYLINK, 2006).

Prif fudd darpariaeth chwarae yw rhoi cyfleoedd i blant chwarae. Amlinellir yr hawl i chwarae yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gadarnhawyd gan lywodraeth y DU ym 1991. Mewn gwirionedd, gall darpariaeth chwarae gynnig llawer o wahanol fathau o fuddiannau i blant, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach, fel a nodir yn Nhabl 1.

**Mae Partïon Wladwriaethau'n cydnabod hawl y plentyn i gael gorffwys a hamdden, i fwynhau chwarae a gweithgareddau adloniadol sy'n briodol i oedran y plentyn ac i gyfranogi'n llawn mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau. Bydd Partïon Wladwriaethau'n parchu ac yn hyrwyddo hawl y plentyn i gyfranogi'n llawn mewn bywyd artistig a diwylliannol a byddant yn annog darpariaeth cyfleoedd cyfartal a phriodol ar gyfer gweithgarwch diwylliannol, artistig, adloniadol a hamdden.**

**Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 31**

Children enjoying their right to play




Play England - Alan Finlay

**Tabl 1: Esiamplau o fuddiannau darpariaeth chwarae**

| Budd | Sylwadau |
|---|---|
| Mannau i chwarae | Mae plant angen, ac mae ganddynt hawl, i chwarae, ac mae darpariaeth chwarae'n cynnig mannau iddynt ble y gallant chwarae'n rhydd yn y modd y maent yn dewis, heb gyfarwyddyd gan oedolion. |
| Lleoedd i gwrdd a chymdeithasu | Bydd plant a phobl ifainc yn mynd ati'n weithredol i chwilio am fannau i gwrdd a chymdeithasu, ac mae cyfleusterau ar eu cyfer yn uchel ar y rhestr o flaenoriaethau lleol mewn llawer o gymdogaethau. Ceir cytundeb cyffredinol mewn llawer o ardaloedd bod pobl ifainc yn arbennig â dewis gwael o weithgareddau hamdden. |
| Mannau i gael hwyl | Fel oedolion, mae plant angen mwynhau eu bywydau, i gael amser a lle ble y gallant, yn syml iawn, gael hwyl. Mae amgylcheddau chwarae da yn cynnig ystod eang a dewis o brofiadau chwarae. |
| Cefnogaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr | Mae darpariaeth chwarae hygyrch, da yn helpu rhieni a gofalwyr i ehangu profiadau chwarae eu plant. Gall helpu i leihau gwrthdaro a lleddfu lefelau straen yn y cartref trwy ddarparu mannau eraill ble y gall plant dreulio eu hamser. |
| Man ymgynnull cymunedol | Gall cyfleusterau chwarae a leolir mewn man canolog ddod â gwahanol grwpiau oedran ynghyd a meithrin rhyngweithio a chysylltiadau rhwng plant, a rhwng plant ac oedolion. Gall darpariaeth aml-swyddogaethol da helpu i gynyddu cymdogrwydd ac ymdeimlad o gymuned. |
| Cyfle i ryngweithio â natur | Mae plant yn gwerthfawrogi'r cyfle i ryngweithio â natur, a bydd profiadau o'r fath yn eu helpu i werthfawrogi pwysigrwydd y byd naturiol a'r amgylchedd. Ceir tystiolaeth cynyddol ynghylch buddiannau iechyd mynediad i amgylcheddau awyr agored, gwyrddion. |
| Man i wneud ffrindiau | Mae'r cyfle i wneud ffrindiau a datblygu cyfeillgarwch yn un o brofiadau pwysicaf plentyndod. Yn ogystal â hyn, bydd cyfleoedd o'r fath yn helpu plant i gynyddu eu hyder a'u cymhwyseddau cymdeithasol. |
| Annog gweithgarwch corfforol | Mae'r mwyafrif o blant yn gorfforol egnïol yn gwbl naturiol pan fyddant yn chwarae'r tu allan. Mae astudiaethau cymharol wedi dangos y gall plant fod yr un mor egnïol mewn chwarae awyr agored digymell ac y byddant mewn gweithgareddau chwaraeon strwythuredig. |
| Dysgu sut i reoli risgiau | Bydd amgylcheddau chwarae deniadol, heriol, cyfoethog yn caniatáu i blant brofi eu hunain ac archwilio eu doniau. Gallant ddysgu am elfennau negyddol camfarnu risg – neu'n syml iawn gael lwc ddrwg – mewn amgylcheddau wedi eu rheoli, sy'n lleihau'r tebygolrwydd o niwed difrifol. |
| Datblygu ymdeimlad o ddoniau personol | Bydd profiadau chwarae hunangyfeiriedig yn rhoi cyfle i blant roi tro ar ffyrdd i ddatrys problemau a chyflawni nodau drostynt eu hunain, heb ymyrraeth oedolion. Mae'r profiadau hyn yn debygol o feithrin doniau a gwytnwch plant. |
| Darparu ar gyfer yr anturus | Bydd rhai plant a phobl ifainc yn mynd ati'n weithredol i chwilio am sefyllfaoedd sy'n llawn risg. Gall darpariaeth chwarae roi cyfle iddynt ddiwallu'r awydd yma am gyffro mewn cyd-destun rheoledig gan, o bosibl, leihau'r risg y bydd y plant yma'n treulio amser mewn amgylcheddau sy'n wirioneddol beryglus. |



Mae amgylcheddau chwarae cyfoethog a heriol yn caniatáu i blant brofi eu hunain ac archwilio eu doniau.

Play England

### Risgiau sy'n gysylltiedig â darpariaeth chwarae

Mae Tabl 2 yn amlinellu'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â darpariaeth chwarae. Fel y dadleuwyd ym Mhennod 1, gellir rheoli colledion sy'n effeithio ar y darparwr yn unig (fel pardduo enw da, neu golledion o ganlyniad i achosion cyfreithiol) mewn modd effeithlon trwy fabwysiadu'r agwedd tuag at broses asesu risg-budd a ddisgrifir yn y canllaw hwn.

**Tabl 2. Risgiau sy'n gysylltiedig â darpariaeth chwarae**

| Risg | Sylwadau |
|---|---|
| Niwed i ddefnyddwyr | Gall amrywiol fathau o niwed ddigwydd i ddefnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys anafiadau corfforol, niwed seicolegol (er enghraifft, o ganlyniad i fwlian) ac erledigaeth troseddol. |
| Niwed neu dramgwydd i eraill | Gall pobl sydd ddim yn ddefnyddwyr, fel trigolion lleol sy'n anhapus ynghylch presenoldeb plant neu'r sŵn y gallant ei greu, ddrwghoffi darpariaeth chwarae. Mae risg y caiff y ddarpariaeth ei gamddefnyddio, er enghraifft gan bobl sy'n yfed ar y stryd neu fân-droseddwyr. |
| Colled i'r darparwr | Ni ellir dileu'r risg o ymgyfreithiad neu gyhoeddusrwydd anffafriol, er y gellir ei reoli. Gellid dadlau mai ofn canlyniadau niweidiol o'r fath yw un o'r ffactorau y tu ôl i'r gorbwyslais ar leihau risg ar ran rhai darparwyr. |

### Dwyn asesu risg a budd ynghyd

Gan fod natur buddiannau a risgiau darpariaeth chwarae'n wahanol mae'n anodd, os nad yn amhosibl, i ganfod ffyrdd rhifol o'u mesur, eu cymharu neu eu pwyso a'u mesur yn erbyn ei gilydd. Tra y gellid mesur rhai buddiannau, fel gwelliant mewn iechyd, o ran cynnydd mewn disgwyliad oes, bydd eraill, er enghraifft cynnydd mewn hunan hyder, yn amhosibl i'w mesur. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd data actiwaraidd ar gael ar gyfer rhai risgiau, megis lefelau rhai mathau o anafiadau, neu raddfeydd hawliadau, ond nid ar gyfer risgiau eraill.

**Mae'r agwedd ddisgrifiadol a fabwysiedir yn y canllaw hwn, sef yr agwedd 'asesu risg-budd', yn cydnabod y gall darparwyr lunio barn gadarn ynghylch llawer o'r risgiau a'r buddiannau sy'n berthnasol i ddarpariaeth chwarae ond bod angen iddynt gofnodi eu ystyriaethau a'u tystiolaeth mewn modd trefnus.**

Mabwysiadwyd yr agwedd yma oherwydd ei bod yn bosibl y bydd dulliau eraill yn anghyflawn neu'n gyfyngol. Efallai ei bod yn bosibl, mewn egwyddor, i gynnal dadansoddiadau risg-budd o benderfyniadau polisi trwy, er enghraifft, geisio cyfrifo gwerthoedd ariannol ar gyfer risgiau a buddiannau. Byddai ymarfer o'r fath yn adlewyrchu'r math o ddadansoddiadau a gyflawnir gan y llywodraeth wrth lunio penderfyniadau ynghylch materion fel darpariaeth feddygol neu brosiectau seilwaith cyhoeddus sylweddol (Trysorlys EM 2003). Mewn gwirionedd, mae'r rhain yn weithdrefnau hynod o gymhleth, ac nid ydynt yn briodol ar gyfer y penderfyniadau bob dydd a gyflawnir gan ddarparwyr chwarae.

Ar y llaw arall, byddai'n bosibl creu rheolau syml ar gyfer pennu gwerthoedd rhifol ar gyfer buddiannau a risgiau. Mae prosesau sgorio o'r fath yn weddol gyffredin mewn asesu risg confensiynol (er nad ar gyfer asesu buddiannau, a wneir yn anfynych iawn) yn y gweithle yn ogystal â darpariaeth chwarae.

## Mae asesu risg-budd disgrifiadol yn ceisio goresgyn anfanteision asesu risg traddodiadol.


Fodd bynnag, am nifer o resymau, nid yw'r canllaw hwn yn mabwysiadu agwedd o'r fath tuag at asesiad cyffredinol o risgiau a buddiannau. Y broblem fwyaf sylfaenol yw bod y buddiannau o natur gwahanol i'r risgiau ac felly nid yw'n rhwydd i'w cymharu. Mae'n hynod o debygol hefyd y bydd unrhyw broses sgorio'n amrywio'n sylweddol yn ddibynnol ar y sgoriwr, ac na fydd yn creu canlyniadau dibynadwy. Hefyd, mae'n rhaid i asesu buddiannau (a risgiau, o ran hynny) ystyried amgylchiadau lleol, a bydd yn tynnu ar bolisi'r darparwr, sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer pwyso a mesur risgiau'n erbyn buddiannau. Mae agwedd o'r fath yn debygol o arwain at or-ddibyniaeth ar waith papur a gweithdrefnau biwrocrataidd, yn hytrach na'r agwedd fwy ystyriol fydd ei hangen mewn penderfyniadau sy'n cynnwys llunio barn ynghylch gwerthoedd.

Mae natur buddiannau'n wahanol i risgiau ac mae'n anodd eu cymharu.




Play England – Nick Turner

**Y Cydbwysedd Chwarae**




| **BUDDIANNAU** | **ANFANTEISION** |
|---|---|
| Gwerth chwarae | Damweiniau |
| • Cymdeithasol | Costau darpariaeth |
| • Corfforol | • Cyfalaf |
| • Seicolegol | • Refeniw |
| Dysgu | Ymgyfreithiad |
| • Sut i ymdopi â risgiau real | Cyhoeddusrwydd gwael |
| Wynebu llai o risg | |
| • Tynnu plant oddi wrth sefyllfaoedd sy'n golygu mwy o risg | |

**NODWEDDION BUDDIANNAU / ANFANTEISION**

| **Annirweddol** | **Diriaethol** |
|---|---|
| Mater o gred | Yn rhy real o lawer |
| Y darlun cyflawn | Y farn ostyngol |
| Ddim yn hawdd i'w mesur | Mesuradwy gan wyddoniaeth |
| Therapi Gestalt | Therapi seiliedig ar dystiolaeth |
| Wedi ei yrru gan werthoedd | Wedi ei yrru gan werthoedd |

**Ffigwr 2: Y 'cydbwysedd risg-budd' (Ball, 2002)**

Ffigwr 2: Darluniad syml o'r broblem a wynebir gan ddarparwyr chwarae. Ar un llaw, mae'r pethau da sy'n gysylltiedig â chwarae'n anodd i'w mesur, tra bo'r pethau gwael – damweiniau, costau, ymgyfreithiad – yn rhy real o lawer.

Ffynhonnell: 'The Play Balance' o adroddiad Cytundeb Ymchwil, Adroddiad Rhif. CRR 426/2002 *Playgrounds – Risks, Benefits and Choices.* Gan Yr Athro David Ball, ISBN 0717623408, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Hawlfraint y Goron, atgynhyrchir y wybodaeth gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi (HMSO) ac Argraffydd y Frenhines yn Yr Alban.

**Yn olaf, mae'r mwyafrif o oedolion, trwy eu profiadau bywyd a'u arsylwadau eu hunain, â dealltwriaeth reddfol o'r modd y bydd plant o wahanol oedrannau'n chwarae ac yn rhyngweithio â'r byd o'u hamgylch. Dylai doethineb cronedig o'r fath fod yn elfen werthfawr o'r broses asesu risg-budd.**

**Mae asesu risg-budd yn tanlinellu oblygiadau asesu risg confensiynol trwy gyflwyno buddiannau i'r broses llunio penderfyniadau. Dros amser, dylai hyn gael ei ystyried yn broses arferol mewn darpariaeth chwarae.** Cyflwynir asesu risg-budd ym Mhennod 6 a'i amlinellu'n fanylach ym Mhennod 7.



# Pennod 6:

## Sut i reoli buddiannau a risgiau

Mae'r adran hon yn trafod y berthynas rhwng asesu risg-budd ac arfer cyfoes. Prin iawn fydd y darparwyr sydd, ar hyn o bryd, yn cyflawni gweithdrefnau ar bob lefel a amlinellir yn y canllaw hwn. Mae nifer cynyddol yn datblygu strategaethau a pholisïau chwarae, ac mae rhai o'r rhain yn cynnwys datganiadau ynghylch gwerth chwarae, cyfeirio at risg a'r angen am agwedd gytbwys. Mae rhain yn mynd beth o'r ffordd tuag at y math o bolisi a fframwaith sydd eu hangen.

Play Scotland

Mae'r bennod hon yn argymell rhannu tasgau *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* yn bedair lefel neu fodd:

- fframwaith polisi
- asesu risg-budd
- archwiliad technegol ac
- asesu risg-budd dynamig.

Mae tair o'r lefelau hyn yn berthnasol i bob math o ddarpariaeth chwarae; mae'r bedwaredd yn ymwneud yn bennaf â darpariaeth ble fo staff goruchwyliol yn bresennol.

Mae llunio barn ynghylch sut i gydbwyso buddiannau'n erbyn risgiau, yn y pen draw, yn benderfyniad i'r darparwr. Bydd asesu risg-budd yn disgrifio mewn datganiad unigol yr ystyriaethau am risg a budd a gyfranodd at y penderfyniad i ddarparu, addasu neu ddileu cyfleuster neu nodwedd benodol.

Mae archwiliad technegol yn cyfeirio at y broses barhaus, cymharol reolaidd, o wirio cyfleusterau chwarae i sicrhau sadrwydd, ôl traul, difrod, lefel cynnal a chadw a glanweithdra. Mae asesu risg-budd dynamig yn cyfeirio at arsylwadau munud-wrth-funud, ac ymyriadau posibl, gan oedolion sy'n goruchwylio plant mewn darpariaeth wedi ei staffio.


Trafodir rôl 'gwybodaeth synnwyr cyffredin' a chyfraniadau arbenigwyr. Darperir cyfres o gwestiynau i helpu darparwyr i wneud y defnydd gorau o unrhyw wybodaeth arbenigol annibynnol y byddant yn ei dderbyn.

**Amlinellodd y bennod flaenorol y modd y mae rhaid i reoli risg mewn darpariaeth chwarae ddechrau â'r cyfeiriad strategol a ddarperir gan fframwaith polisi. Dim ond yng nghyd-destun amcanion strategol eglur y gall y broses o bwyso a mesur risgiau a buddiannau ddigwydd. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rheoli risg yn mynd y tu hwnt i ddim ond datgan gwerthoedd a nodau polisi.**

Mae'r bennod yma'n amlinellu pedwar cam y broses rheoli risg-budd: fframwaith polisi, asesu risg-budd, archwiliad technegol ac asesu risg-budd dynamig. Mae tri o'r camau hyn yn berthnasol ym mhob darpariaeth chwarae, ac mae'r pedwerydd yn ymwneud yn bennaf â darpariaeth ble fo staff goruchwyliol yn bresennol.

## Mae'r fframwaith polisi'n darparu'r cyd-destun ar gyfer asesu risg-budd.

Y fframwaith polisi ddylai fod yn lefel uchaf rheoli risg. Dylai hwn ddarparu'r cyd-destun ar gyfer y lefel nesaf: asesu risg-budd. Dylai hwn, yn ei dro, arwain at archwiliadau technegol, a dylai ystyried y wybodaeth a gesglir ganddynt. Ble fo'n briodol, dylai asesu risg-budd dynamig ddigwydd hefyd, eto wedi ei hysbysu gan lefelau uwch rheoli risg.




Ffigwr 3: Fframwaith polisi y modd y mae lefelau rheoli risg yn cydberthyn â'i gilydd.

**Tabl 3: Y broses rheoli risg**

| Math o weithgarwch | Arddull a swyddogaeth | Perthnasedd i ddarpariaeth chwarae | Rhai cymhwyseddau allweddol |
|---|---|---|---|
| Fframwaith polisi | Fframwaith sy'n sefydlu gwerthoedd, criteria a dealltwriaethau. A amlinellir, gan amlaf, mewn polisi chwarae.<br><br>Dylai egluro'n blaen y sail rhesymegol ar gyfer pennu dyletswydd cadarnhaol darparwyr chwarae i gynnig cyfleoedd i blant a phobl ifainc gymryd risg. | Uchel. Hanfodol ar gyfer cynnwys ystyriaethau iechyd, lles a gwerth chwarae mewn penderfyniadau strategol a gweithrediadol.<br><br>Cyd-destun ar gyfer llunio barnau mewn amgylchiadau penodol.<br><br>Tanlinellu goruchafiaeth asesu risg-budd wrth lunio barn ynghylch risg. | Dealltwriaeth o werth chwarae a darpariaeth chwarae.<br><br>Dealltwriaeth o'r angen am agwedd gytbwys. |
| Asesiad risg-budd | Asesiadau risg 'priodol a digonol' a fwriedir i hyrwyddo agwedd gytbwys tuag at reoli risg, gan leisio ac ystyried y buddiannau ar gyfer plant, ochr-yn-ochr â'r risgiau posibl. | Hanfodol, er mwyn egluro pam yn union a sut y lluniwyd penderfyniadau ynghylch natur a chynnwys darpariaeth. | Y gallu i ddefnyddio synnwyr cyffredin i drosglwyddo amcanion strategol.<br><br>Cydnabyddiaeth o gyfraniad chwarae a wynebu risg tuag at les.<br><br>Gwerthfawrogiad o'r gwahaniaeth rhwng gwahanol fathau o risg. |
| Archwiliad technegol | Gwirio cyfleusterau'n rheolaidd a blaenoriaethu gwaith atgyweirio a chynnal a chadw. | Hanfodol ar gyfer gosod offer a cynnal a chadw parhaus. | Gwybodaeth technegol am safonau a'r gallu i ddefnyddio synnwyr cyffredin wrth eu gweithredu.<br><br>Y gallu i asesu risgiau sydd y tu allan i'r safonau yn erbyn fframwaith risg-budd deallus. |
| Asesiad risg-budd dynamig | Goruchwyliaeth uniongyrchol ar y pryd o'r profiad chwarae gan staff profiadol. | Ddim yn uniongyrchol berthnasol i sefyllfaoedd heb oruchwyliaeth, ond o bwys mawr mewn sefyllfaoedd chwarae wedi eu staffio. | Gwybodaeth drylwyr o blant, chwarae a'i rôl yn eu bywydau a'u datblygiad.<br><br>Dealltwriaeth lawn o'r gwahanol fathau o risg. |

Mae'r tabl hwn yn amlinellu rhai o nodweddion pob lefel o weithgarwch rheoli risg-budd.

## Mae'r holl lefelau rheoli risg yn gweithio ar y cyd.

**Mewn rheolaeth risg-budd cynhwysfawr, mae'r holl lefelau rheoli risg yma'n gweithio ar y cyd. Os y byddwn yn esgeuluso'r lefelau uwch, ceir gwagle ar gyfer llunio barnau a phenderfyniadau.** Mewn asiantaethau llai o faint, mae'n bosibl y bydd yr un person yn cyflawni'r tasgau ar fwy nag un o'r lefelau hyn, ac efallai y bydd mwy o angen am gyngor arbenigol allanol. Fodd bynnag, bydd dal angen i bobl yn y sefyllfa yma fod yn ymwybodol o bwysigrwydd yr agwedd aml-lefel hon.

### Fframwaith polisi

**Bydd cytuno ar fframwaith polisi sefydliadol yn gofyn am bennu amcanion cwbl eglur, a'u defnyddio ar gyfer safleoedd neu wasanaethau penodol. Mae'n cynnwys barnau croyw ar werth a phwysigrwydd darpariaeth a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni.** Mae'r fframwaith polisi hwn yn hanfodol gan ei fod yn helpu i sicrhau bod gwahanol bobl o fewn mudiad-ddarparwr, megis y rheini sy'n trosglwyddo gwasanaethau, eu rheolwyr ac arweinyddion gwleidyddol, i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i fabwysiadu agwedd gydlynol, ynghyd ag is-gontractwyr, swyddogion iechyd a diogelwch, rheolwyr risg sefydliadol ac eraill.

## Annogir yn gryf y dylai darparwyr sydd ddim yn meddu ar fframwaith polisi chwarae cytûn, lunio un.



Annogir yn gryf y dylai darparwyr sydd, hyd yma, ddim yn meddu ar fframwaith polisi chwarae cytûn, sy'n cynnwys datganiadau ar reoli risg-budd, lunio un. Gellid dadlau bod anawsterau darpariaeth chwarae'n ystod degawdau diweddar wedi codi'n rhannol o ganlyniad i fethu hyrwyddo athroniaeth sylfaenol a phennu amcanion polisi eglur. Bydd dogfennau polisi o'r fath, ddylai fod ar gael i'r cyhoedd, yn darparu hefyd un llwybr allweddol ar gyfer cyfathrebu â rhieni, yswirwyr, rheolyddion, arolygwyr trydedd-plaid, y llysoedd a phleidiau eraill a chanddynt fuddiant. Maent yn cyfrannu at gefndir polisi mwy sefydlog, y gellir llunio penderfyniadau cyson yn ei erbyn. Gellir derbyn arweiniad ar ddatblygu polisi chwarae gan y pedwar mudiad chwarae cenedlaethol, sef Chwarae Cymru, Play England, Play Scotland a PlayBoard Northern Ireland.

### Asesu risg-budd

**Mae asesu risg budd yn dwyn ynghyd ddadansoddiad o risgiau yn ogystal â buddiannau. Mae'r canllaw hwn yn argymell ffurf disgrifiadol o asesu risg-budd. Mae'r agwedd hon, a eglurir yn fanwl ym Mhennod 7 yn amlinellu, mewn datganiad unigol, yr ystyriaethau risg a budd wnaeth gyfrannu at y penderfyniad i ddarparu, addasu neu gael gwared â chyfleuster neu nodwedd penodol. Dylai ddarparu modd rhesymol ac amlwg ar gyfer disgrifio prosesau a barnau llunio penderfyniadau.**

## Asesu risg-budd, y ddeddf, rheoliadau, safonau ac arweiniad

Mae'n ofynnol gan y gyfraith bod darparwyr chwarae'n cynnal asesiad risg 'priodol a digonol' o'u darpariaeth, ac yn gweithredu ar y canfyddiadau. Mae asesiad yn asesiad ymarferol o fuddiannau a risgiau'r weithgaredd, gan ganolbwyntio ar **beryglon sydd â'r potensial i beri niwed gwirioneddol.** Nid yw'n ymwneud â chreu cymdeithas sy'n rhydd o risg, ond yn hytrach mae'n ymwneud a sicrhau y cymerir **rhagofalon rhesymol i osgoi anafiadau.**

Bydd safonau offer, fel BS EN 1176 (BSI, 2008a) a chanllawiau eraill, yn helpu gyda llunio penderfyniadau ynghylch yr hyn sy'n rhesymol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn orfodol, ac mae asesu risg yn caniatáu ar gyfer ystyried ffactorau eraill megis amgylchiadau lleol, allai gynnwys y grwpiau oedran y darperir ar eu cyfer, y math o alw, ffactorau amgylcheddol lleol, ystyriaethau iechyd a'r defnydd o nodweddion naturiol neu nodweddion sydd ddim yn safonol.

Mae asesu risg-budd yn ddull o asesu risg ble y caiff gwerthusiad o'r buddiannau posibl i blant ac eraill – er enghraifft gwerth cymdeithasol a chwarae – eu hystyried ochr-yn-ochr a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth. Mae'n caniatáu i ddarparwyr fodloni eu oblygiadau cyfreithiol, tra'n hybu agwedd gytbwys.

Mae'r agwedd yma'n ystyried safonau diwydiannol ac arweiniad arall yng ngoleuni amgylchiadau lleol, ac angen plant am chwarae sy'n fwy heriol a chyffrous.



Play England - Wendy Brookfield

## Mae asesu risg-budd yn canolbwyntio ar lunio barnau a dynodi mesurau sy'n rheoli risgiau tra'n sicrhau buddiannau.

**Yn hanesyddol, mae asesu risg mewn chwarae yn aml iawn wedi canolbwyntio ar atal anafiadau. Ond bellach ceir cydnabyddiaeth gyffredinol o'r angen i asesu'r buddiannau – yn cynnwys mwynhad, iechyd a lles – ochr-yn-ochr â'r risgiau.** Mae asesu risg-budd yn canolbwyntio ar lunio barnau ynghylch y risgiau a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â gweithgaredd, a'r mesurau ddylai fod yn eu lle i reoli'r risgiau tra'n sicrhau'r buddiannau.

**Dylai asesu risg-budd lunio'r fframwaith ar gyfer ffurfio barnau am archwiliadau technegol ac asesu risg-budd dynamig.** Dylid seilio penderfyniadau ynghylch pryd a sut y dylid cynnal archwiliadau technegol ac asesu risg-budd dynamig ar farn y rheolwr sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau risg-budd. Dylai'r penderfyniadau hyn ystyried arweiniad a safonau ar gwestiynau fel amlder a natur archwiliadau, yng ngoleuni amgylchiadau lleol.





Nid yw'n ymwneud â chymdeithas sy'n rhydd o risg, ond yn hytrach mae'n ymwneud â sicrhau y cymerir rhagofalon rhesymol er mwyn osgoi anafiadau.

Play England – Wendy Brookfield

### Archwiliad technegol

**Yn y canllaw hwn, mae archwiliad technegol yn cyfeirio at y broses barhaus, cymharol reolaidd, o wirio cyfleusterau chwarae i sicrhau sadrwydd, ôl traul, difrod, lefel cynnal a chadw a glanweithdra. Dylai archwiliad technegol rybuddio rheolwyr ynghylch ffynonellau niwed posibl. Gall gynnig syniad o'r risg cymharol, ac o'r herwydd helpu gyda'r gwaith o bennu blaenoriaethau ar gyfer camau adferol.**

## Mae archwiliad technegol yn rhan bwysig o'r asesiad hwn ac mae'n cyfrannu tuag at y dystiolaeth y bydd rheolwyr ei angen ar gyfer llunio penderfyniadau.

Caiff archwiliad technegol ei hysbysu gan y polisi chwarae a'r asesiad risg-budd ac, yn benodol, bydd yn bwydo i mewn i'r asesiad risg. Mae'n rhan pwysig o'r asesiad hwn, gan y dylai ddarparu rhywfaint o'r dystiolaeth neu'r data crai y bydd rheolwyr angen ei ddefnyddio yn eu proses o lunio penderfyniadau.

Mae archwiliadau technegol yn cynnwys gwiriadau blynyddol gan arolygwyr meysydd chwarae hyfforddedig, cymwys, ac archwiliadau mynych, llai trylwyr a gynhelir gan bobl sydd angen llai o arbenigedd technegol. Mae system achredu a hyfforddi, wirfoddol ond a ddefnyddir yn eang, wedi datblygu yn y DU i ddarparu cefnogaeth ag archwiliadau technegol. Rhan ganolog o'r system yma yw cofrestr y Register of Play Inspectors International (RPII), y mae eu nodau'n cynnwys hyrwyddo agwedd gyson, o safon uchel tuag at archwiliadau.

Waeth beth fo lefel yr arweiniad neu'r hyfforddiant technegol, bydd archwiliad wastad yn broses wrthrychol, ac mae rhai darparwyr a gwneuthurwyr offer chwarae wedi nodi anghysondebau sylweddol yng nghanfyddiadau gwahanol arolygwyr. Gall problemau godi pan nad yw'r darparwyr neu'r arolygwyr yn gwbl eglur ynghylch pwrpas neu frîff asesiad neu archwiliad penodol. Mae'n ymddangos hefyd bod rhai arolygwyr, sydd wedi eu hyfforddi ym maes archwiliadau technegol, yn ei chael yn anodd pan ofynnir iddynt gynnig cyngor ar nodweddion sydd ddim yn safonol mewn darpariaeth chwarae.

Bydd archwiliadau technegol, yn draddodiadol, yn cynnig gwybodaeth ynghylch cydymffurfio â safonau ar gyfer offer. Gallai archwiliadau, ble fo'n briodol, edrych hefyd ar agweddau technegol eitemau nad ydynt yn safonol, fel gallu coeden i ddal llwyth – er, yn aml iawn, y bydd synnwyr cyffredin a phrofiad yn ddigon i lunio barn ddeallus. Gall arolygwyr sydd â dealltwriaeth gadarn o chwarae a gwerthoedd chwarae, gynorthwyo hefyd gydag asesu risg-budd, ble fo'r ffocws ar gwestiynau ehangach, annhechnegol risgiau a buddiannau mewn chwarae.

## Bydd rhaid i arolygwyr technegol sy'n cynorthwyo gydag asesu risg-budd feddu ar ddealltwriaeth gadarn o chwarae a gwerthoedd chwarae.

Mae'n hanfodol bod darparwyr yn gwbl eglur ynghylch y gwahaniaeth rhwng archwiliadau technegol ac asesu risg-budd, a bod y wybodaeth a'r gwerthoedd perthnasol yn cael eu defnyddio fel rhan o'r ddwy broses. Yn y pen draw, y darparwr fydd yn gorfod llunio barn ynghylch risgiau a buddiannau mewn chwarae.



Plant yn torri coed tân ym Maes Chwarae Antur Glamis dan arweiniad gofalus yr uwch-weithiwr chwarae.

Play England – Ken Ryan



### Asesu risg-budd dynamig

**Mae asesu risg-budd dynamig yn cyfeirio at arsylwadau munud-wrth-funud ac ymyriadau posibl gan oedolion sy'n goruchwylio plant mewn darpariaeth wedi ei staffio, megis meysydd chwarae ysgol, cyfleusterau y tu allan i'r ysgol a meysydd chwarae antur.**

Ar y cyfan, mae'r tu hwnt i faes y canllaw hwn, er ei bod yn werth pwysleisio y bydd angen meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r modd y bydd plant yn dysgu a thyfu trwy chwarae er mwyn ei gyflawni'n dda.

Mae asesu risg-budd dynamig, yn ôl ei natur, yn gymhleth ac anwadal. Tra y gellir nodi rhai egwyddorion eang, 'dyw'r penderfyniadau amser-real, manwl y bydd staff yn eu gwneud ddim yn rhwydd iawn i'w nodi ar bapur. Efallai y caiff rôl asesu risg-budd dynamig ei danbrisio gan safbwyntiau asesu risg sy'n canolbwyntio ar yr angen am dystiolaeth ysgrifenedig sy'n profi y glynir at weithdrefnau penodol.

### Asesu risg-budd ac arfer cyfredol

**Efallai y bydd rhai darparwyr yn meddwl pam y dylent symud oddi wrth eu arferion rheoli risg cyfredol at y broses o asesu risg-budd a argymhellir yn y canllaw hwn. Allwn ni ond bod yn hyderus bod darpariaeth chwarae'n cynnig y cyfleoedd gorau posibl ar gyfer plant a phobl ifainc os y rhoddir ystyriaeth pendant i'r buddiannau. Ni fydd modd i ddarparwyr chwarae arddangos eu bod yn cyflawni'r amcanion hyn heb asesiad o'r fath. Felly, mae'n ganolog i'r dasg o ddarparu cyfleoedd chwarae.**

Mae nifer cynyddol o ddarparwyr, yn enwedig awdurdodau lleol, wedi datblygu polisïau a strategaethau chwarae. Mae llawer o'r rhain yn cynnwys datganiadau ynghylch gwerth chwarae, gan gyfeirio at risg a'r angen i fabwysiadu agwedd gytbwys. Mae rhai'n dyfynnu *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa*, unai'n rhannol neu'n ei gyfanrwydd, neu'n ei gymeradwyo mewn ffyrdd eraill. Mae strategaethau a pholisïau o'r fath yn mynd beth o'r ffordd tuag at sicrhau'r math o fframwaith polisi sydd ei angen ar gyfer asesu risg-budd.

## Fydd llawer o ddarparwyr ddim yn defnyddio pob lefel o'r broses rheoli risg-budd.

Fydd llawer o ddarparwyr ddim yn defnyddio pob un o'r pedair lefel rheoli risg-budd. Mae rheoli risg, fel y caiff ei arfer ar hyn o bryd, yn debygol o gynnwys y gweithgareddau canlynol:

- prosesau caffael sy'n mynnu bod cynlluniau'n cydymffurfio â safonau, i raddau llai neu fwy
- archwiliadau ôl-osod gan arolygwyr cymwysedig (mewnol neu allanol)
- archwiliadau blynyddol gan arolygwyr cymwysedig (mewnol neu allanol)
- archwiliadau cyffredinol mynych gan staff neu wirfoddolwyr.

Gall y gweithgareddau hyn, yn ddibynnol ar y math o brosesau caffael a geir a'r math o archwiliadau a gynhelir, gynnwys elfen o asesu budd a fynegir, efallai, yn nhermau gwerth chwarae'r offer neu agweddau eraill y cyfleuster. Byddant felly'n darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i ddwy ochr y broses asesu risg-budd.

Mae Tabl 4 yn edrych ar ddau ddarparwr dychmygol – awdurdod lleol a chyngor cymuned – er mwyn dangos sut y gallai rheoli risg-budd gymharu ag arfer cyfredol.

### Tabl 4: Asesu risg-budd ar waith

**Esiampl: Rheolwr parciau Awdurdod Lleol (ALl) â phum parc a 100 o ardaloedd chwarae**

| Trefn bresennol | System rheoli risg-budd |
|---|---|
| Archwiliadau wythnosol a bob chwarter gan gwmni o is-gontractwyr mewn ardaloedd chwarae sy'n bodoli eisoes, am olion traul, peryglon sbwriel a difrod. | Archwiliadau wythnosol a bob chwarter gan gwmni o is-gontractwyr ar safleoedd sy'n bodoli eisoes, am olion traul, peryglon sbwriel a difrod. |
| Archwiliadau blynyddol mewn ardaloedd chwarae sy'n bodoli eisoes, yn defnyddio gweithdrefnau a ddiffinir yn allanol i asesu cydymffurfio â'r safonau. Mae'n bosibl hefyd y cynhyrchir rhywfaint o wybodaeth ar werth chwarae. | Asesu risg-budd cyson mewn ardaloedd chwarae sy'n bodoli eisoes, a ddiffiniwyd ar gyfer pob safle, gan ddefnyddio gweithdrefnau a ddiffinir yn lleol i asesu'n erbyn amcanion polisi chwarae yr ALl i ateb y cwestiwn: 'Pa mor dda mae'r safleoedd wrth ddarparu'r cyfleoedd chwarae y mae ein ALl yn anelu i'w cynnig, tra'n rheoli risgiau?' |
| Caffael / adnewyddu tair ardal chwarae bob blwyddyn, gan ddefnyddio cynllun a gwasanaeth adeiladu gan wneuthurwr sy'n cydymffurfio â safonau. Archwiliad ôl-osod. | Caffael / adnewyddu tair ardal chwarae bob blwyddyn, yn seiliedig ar amcanion polisi chwarae. Yn cynnwys asesu risg-budd gan reolwr y parc ar arfer cyfredol ar rai materion allweddol (gweler y tablau ym Mhennod 7). Archwiliad ôl-osod. |
| Rheolaeth parhaus o gyfleusterau'r parc, yn aml yn cynnwys ymatebion adweithiol, ad-hoc i faterion fydd yn codi. | Rheolaeth parhaus o gyfleusterau'r parc, a hysbysir gan asesu risg-budd cyson. |



**Esiampl: Cyngor Cymuned â thair ardal chwarae**

| Trefn bresennol | System rheoli risg-budd |
|---|---|
| Archwiliadau wythnosol a bob chwarter gan y Cyngor Cymuned mewn ardaloedd chwarae sy'n bodoli eisoes, am olion traul, peryglon sbwriel a difrod. | Archwiliadau wythnosol a bob chwarter gan y Cyngor Cymuned mewn ardaloedd chwarae sy'n bodoli eisoes, am olion traul, peryglon sbwriel a difrod. |
| Archwiliadau blynyddol mewn safleoedd sy'n bodoli eisoes yn erbyn y safon, gan ddefnyddio gweithdrefnau a ddiffinir yn allanol i asesu cydymffurfio â'r safonau. Mae'n bosibl hefyd y cynhyrchir rhywfaint o wybodaeth ar werth chwarae. | Asesu risg-budd blynyddol mewn safleoedd sy'n bodoli eisoes yn erbyn amcanion polisi chwarae'r Cyngor Cymuned, gan ddefnyddio gweithdrefnau a ddiffinir yn lleol i ateb y cwestiwn: 'Pa mor dda mae'r safleoedd yn darparu'r cyfleoedd chwarae y mae ein Cyngor Cymuned yn anelu i'w cynnig, tra'n rheoli risgiau?' |
| Caffael / adnewyddu un ardal chwarae bob 10 mlynedd, gan ddefnyddio cynllun a gwasanaeth adeiladu gan wneuthurwr sy'n cydymffurfio â safonau. Archwiliad ôl-osod. | Caffael / adnewyddu un ardal chwarae bob 10 mlynedd, yn seiliedig ar amcanion polisi chwarae y Cyngor Cymuned. Yn cynnwys asesu risg-budd gan y Cyngor Cymuned ar arfer cyfredol ar rai materion allweddol (gweler y tablau ym Mhennod 7). Archwiliad ôl-osod. |

### Rôl synnwyr cyffredin, profiad ac arbenigedd

**Un o rinweddau asesu risg-budd yw ei fod yn darparu fframwaith ar gyfer defnyddio'r profiadau a'r wybodaeth synnwyr cyffredin y mae darparwyr wedi eu hennill o amrywiol ffynonellau, ochr-yn-ochr â chyngor ac arweiniad arbenigol. Er enghraifft, mae'r mwyafrif o oedolion yn gyfarwydd â'r modd y bydd plant yn chwarae ar ardaloedd creigiog o'r traeth neu ar greigiau naturiol eraill. Mae'r cyfoeth profiad cronedig yma'n berthnasol wrth ystyried cynnwys, er enghraifft, twmpathau naturiol o greigiau a cherrig mawrion mewn darpariaeth chwarae neu fan chwaraeadwy, a gellir eu cynnwys yn rhwydd fel elfen o asesiad risg-budd.**

## Gall arolygwyr arbenigol fod yn ffynhonnell cyngor a gwybodaeth gwerthfawr, ond mae'r cyfrifoldeb terfynol yn aros, yn ôl y ddeddf, gyda'r darparwr.

Elfen bwysig arall o asesu risg-budd yw rhywfaint o fewnbwn arbenigol, yn aml gan arolygwr chwarae. Bydd angen i ddarparwyr fod yn gwbl eglur ynghylch rôl a statws arbenigwyr o'r fath, yn enwedig os ydynt wedi cael eu gwahodd i mewn o'r tu allan i'r sefydliad. Dylai arolygwyr hyfforddedig, ac arbenigwyr eraill, sydd â dealltwriaeth o blant a chwarae fod mewn sefyllfa dda i gynnig cyngor ar faterion technegol allai fod y tu hwnt i gymhwysedd darparwyr, megis cynnwys ac oblygiadau deunydd perthnasol o safonau diwydiannol. Mae'n bosibl hefyd y gallant gynnig cyngor cadarn ar faterion eraill, megis: archwiliad technegol o elfennau sydd ddim yn safonol; y modd y bydd plant yn chwarae; rôl a buddiannau gwahanol gyfleoedd a phrofiadau chwarae; ac arweiniad sylfaenol ar y gyfraith. Fodd bynnag, dydyn nhw ddim mewn sefyllfa i gymryd cyfrifoldeb am y penderfyniadau terfynol ynghylch y modd gorau i daro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau mewn amgylchiadau penodol. Maent yn ffynhonnell ddilys o wybodaeth a chyngor ond bydd y cyfrifoldeb terfynol yn aros, yn ôl y ddeddf, gyda'r darparwr fel deiliad-dyletswydd.



Nid yw'r Fforest Ddringo ym Mharc Gwledig Coombe Abbey yn cydymffurfio'n daclus â chanllawiau EN1176. Fodd bynnag, gyda'r defnydd cywir o asesu risg, wedi ei arwain gan EN1176, a dringo / profi trylwyr o'r offer gan arolygwr profiadol, penderfynwyd ei fod yn dderbyniol. (Shackell A, 2008)


Aileen Shackell

## Os yw'r darparwr a'r arolygydd yn anghytuno ar farn benodol, mae'n bosibl y bydd y darparwr am geisio cyngor pellach.

**Mae'n bosibl y bydd arbenigwyr yn anghytuno hefyd ar rai materion. Pan fo safbwynt y darparwr yn groes i safbwynt yr arbenigwr, dylai darparwyr gwestiynu'r cyngor y maent yn ei dderbyn. Mae'n bosibl y bydd darparwyr am geisio cyngor pellach er, yn y pen draw, eu dyletswydd nhw fydd pwyso a mesur y materion dan sylw a llunio barn bersonol.**

Efallai y bydd y cwestiynau isod o gymorth i ddarparwyr dderbyn y gwerth gorau o gyngor arbenigol annibynnol.

- A yw'r person yn aelod o gorff cydnabyddedig, fel yr RPII, sy'n sicrhau lefel isafswm o brofiad, gwybodaeth a chymwyseddau?
- A yw'r person yn gwbl glir ynghylch rôl a statws cynghorol y safon?
- Ar ba gymwyseddau y mae'r person yn meddu o ran archwiliadau technegol o nodweddion chwarae sydd ddim yn safonol?
- Ar ba lefel o ddealltwriaeth am chwarae plant y mae'r person yn meddu?
- A yw'r person yn meddu ar wybodaeth ac arbenigedd am offer a chyfleoedd chwarae ar gyfer plant anabl?
- A yw'r person yn gwbl glir ynghylch eu rôl o ran rheoli risg – yn benodol, mai eu swydd nhw yw darparu gwybodaeth a chyngor, ac nid llunio penderfyniadau terfynol?
- A oes brîff eglur wedi ei lunio ar gyfer y person, sy'n egluro eu rôl a'r materion y dylent ymdrin â hwy?
- A yw safbwynt y person ar fuddiannau a risgiau'n gydnaws â rhai'r darparwr?
- All y person ddarparu tystlythyrau er mwyn cynnig sicrhad ynghylch safon eu gwaith?



# Pennod 7:

## Asesu risg-budd: proses ac esiamplau

Mae asesu risg–budd yn anelu i helpu darparwyr i ateb cwestiynau y maent yn delio â hwy eisoes, boed yn ymhlyg neu'n echblyg. Nid yw'n ymwneud â chynhyrchu meysydd cwbl newydd y dylid llunio barn arnynt ac ni ddylai chwaith, gynyddu'r baich biwrocrataidd.

Play England – Philip Wolmuth

Mae'r bennod hon yn disgrifio asesu risg-budd mewn mwy o fanylder ac yn cynnig cyfres o gwestiynau cyffredinol y gellir eu defnyddio wrth asesu risgiau a buddiannau.

Er mwyn egluro'r agwedd asesu risg-budd, mae'r adran hon yn trafod sut y gellid ei defnyddio mewn amryw o wahanol sefyllfaoedd.

Caiff rhai o'r pynciau hyn eu harchwilio'n fanwl. Fodd bynnag, ni chynigir barn derfynol, gan y bydd hyn yn dibynnu ar werthoedd, polisïau ac amcanion y darparwr, ac ar amgylchiadau lleol.

**Mae'r bennod hon yn disgrifio'r agwedd asesu risg-budd mewn mwy o fanylder, ond ni fydd modd ei defnyddio i asesu cyfleuster neu fan chwarae tan i'r sefydliad gytuno ar y fframwaith polisi. Bydd y polisi hwn yn sail ar gyfer, ac yn hysbysu, pob penderfyniad dilynol ynghylch natur a rhychwant y cyfleoedd chwarae sydd i'w cynnig mewn amrywiol wahanol leoliadau a sefyllfaoedd.**

## Mae asesu risg-budd yn amlygu'r cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau, ac yn ystyried effeithiau a sgîl effeithiau posibl y camau a gymerir.

Mae asesu risg-budd yn broses ddisgrifiadol sy'n amlygu'r cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau, yng ngoleuni polisi chwarae darparwr. Mae'n cynnwys ystyried risgiau, buddiannau, ac effeithiau a sgîl effeithiau posibl mesurau a gynigir o ganlyniad. Bydd angen i'r broses ystyried amgylchiadau lleol. Dylai ganiatáu ar gyfer dysgu a rhannu agweddau o ddarpariaeth cymaradwy arall ac o gyd-destunau perthnasol eraill.



## Gan fod chwarae plant yn broses gymhleth, anrhagweladwy, bydd angen i ddarparwyr gyd-gerdded ag arfer cyfredol a dysgu o brofiadau pobl eraill.

Mae profiad pobl eraill (boed yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus) ymysg y ffynonellau pwysicaf o ddysg a syniadau da. Gan fod chwarae plant yn broses gymhleth, anrhagweladwy, bydd angen i ddarparwyr gyd-gerdded ag arfer cyfredol a dysgu o brofiadau pobl eraill. Er enghraifft, gall darparwyr sy'n ystyried gosod ffensys atal cŵn, ddysgu o brofiad pobl eraill sydd wedi cymryd y cam hwn eisoes.

Tra bo'r ddadl ynghylch risg a chwarae'n tyfu'n fwy derbyngar o werth cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifainc wynebu her a risg, gwelir mwy a mwy o ddarparwyr a dylunwyr yn creu amgylcheddau chwarae deniadol, anturus na fyddent, efallai, wedi eu darparu ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae arwyddion yn awgrymu bod y tueddiad hwn yn tyfu.

## Mae asesu risg-budd yn cefnogi'r datblygiadau hyn trwy gynnig fframwaith ar gyfer herio drwghoffi risg.

Fodd bynnag, erys llawer o le i wella. Er enghraifft, ceir ymdeimlad bod offer chwarae mewn elfen helaeth o ddarpariaeth chwarae wedi ei ddylunio i fod yn 'ddiogel' ar gyfer plant bach, ac efallai nad yw'n ddigon heriol ar gyfer plant hŷn a phobl ifainc. Os felly, mae'n bosibl y caiff anghenion cymryd risg plant hŷn eu hesgeuluso. Yn hanesyddol, mae rhai awdurdodau lleol wedi bod yn amharod i ddarparu parciau byrddau sgrialu a chyfleusterau tebyg. O dro i dro mae swyddogion diogelwch wedi gwrthwynebu'r cyfleusterau risg-uwch yma. Mae'r sefyllfa wedi gwella'n ddiweddar, yn rhannol gan i safonau newydd gael eu datblygu (BSI, 2006).

Gwelir mwy a mwy o ddarparwyr a dylunwyr yn creu amgylcheddau chwarae anturus, deniadol na fyddent wedi eu darparu rai blynyddoedd yn ôl.



Play England – Nick Turner

## Mae asesu risg-budd yn ehangu ar arfer cyfredol, ac nid yw'n ymwneud â chynyddu biwrocratiaeth.

Mae asesu risg-budd yn ymwneud ag ehangu ar arfer cyfredol, ac nid yw'n ymwneud â chreu meysydd newydd diangen sy'n galw am lunio barn, neu gynyddu'r baich biwrocrataidd. Dylai'r broses fod yn ddefnyddiol wrth ddelio ag ystod eang o bynciau a chwestiynau ble fo risgiau a buddiannau'n ystyriaethau allweddol. Mae esiamplau'n cynnwys:

- gwahanol gamau o'r broses caffael
- dewisiadau ynghylch y math neu natur yr offer neu'r nodweddion chwarae sydd i'w cynnwys
- defnyddio ffensys
- cynnwys nodweddion chwarae anghyfarwyddol megis nodweddion tirlunio, boncyffion, cerrig mawrion a waliau
- defnyddio arwynebau lleddfu ardrawiadau (IAS)
- cynnwys offer chwarae sydd ddim yn cydymffurfio â'r safon berthnasol.

Mae gan asesu risg-budd rôl hefyd yn y ddarpariaeth o fannau chwaraeadwy, fel parciau, mannau dinesig, parthau cartrefi neu ardaloedd natur. Er enghraifft, gellir ei ddefnyddio i asesu:

- strwythurau hunan-adeiladu fel cuddfannau, llochesi, siglenni rhaff a thai pen coed
- dylunio a rheoli elfennau tirwedd chwareus fel celf gyhoeddus neu cynnwys elfen o ddŵr
- nodweddion fel dŵr agored, adeiladau, olion pensaernïol neu ffurfiannau daearegol
- arweiniad ynghylch sut y bydd staff yn ymyrryd yn ymddygiad plant a phobl ifainc.



### Y broses asesu risg-budd

**Mae asesu risg-budd yn caniatáu i'r darparwr lunio barn ddeallus, yn seiliedig ar ystyriaeth fanwl o'r amrywiol faterion sy'n berthnasol i amgylchiadau lleol. Cedwir cofnod disgrifiadol trwy gydol y broses. Bydd hyn yn cynnig eglurder ac yn caniatáu i'r darparwr arddangos y sail rhesymegol y tu ôl i bob penderfyniad ynghylch risg a diogelwch.**

Mae'r broses yn defnyddio cyfres o gwestiynau cyffredinol i asesu'r risgiau a'r buddiannau yng nghyd-destun nodweddion penodol a geir yn y man chwaraeadwy. Yr atebion i'r cwestiynau hyn fydd yn llunio'r asesiad risg-budd disgrifiadol (gweler Tabl 5).

**Tabl 5: Asesu risg-budd: cwestiynau parod**

| Cwestiynau i'w hystyried | Ffynonellau gwybodaeth posibl |
|---|---|
| Beth yw'r buddiannau – ar gyfer plant a phobl ifainc, a phobl eraill?<br><br>Beth yw'r risgiau?<br><br>Pa safbwyntiau sydd ar gael ar natur y risg, a pha mor awdurdodol yw'r rhain?<br><br>Pa ffactorau lleol perthnasol fydd angen eu hystyried?<br><br>• nodweddion y safle<br>• poblogaeth leol a defnyddwyr tebygol<br>• cyfleoedd chwarae eraill a geir gerllaw.<br><br>Beth yw'r opsiynau ar gyfer rheoli'r risg, a beth yw manteision, anfanteision a chostau pob un o'r rhain?<br><br>• cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu (â risg da)<br>• gwneud dim<br>• monitro'r sefyllfa<br>• lleddfu neu reoli'r risg<br>• cael gwared â'r risg.<br><br>Pa ragesiamplau a chymariaethau sydd ar gael?<br><br>• gan ddarparwyr eraill<br>• gan ardaloedd, mannau, gwasanaethau a gweithgareddau cymaradwy eraill.<br><br>Beth yw'r farn risg-budd?<br><br>Sut ddylid gweithredu'r farn yma yng ngoleuni pryderon gwleidyddol lleol, credau ac agweddau diwylliannol? | Bydd y rhain yn amrywio'n ddibynnol ar y pwnc dan ystyriaeth. Gallent gynnwys:<br><br>• synnwyr cyffredin, profiad<br>• arsylwi plant yn defnyddio'r man / offer chwarae<br>• safonau<br>• arweiniad ac adnoddau gan asiantaethau perthnasol<br>• barn arbenigol<br>• safbwynt cydweithwyr a chymheiriaid<br>• profiad perthnasol gan ddarparwyr eraill<br>• ffynonellau data cenedlaethol<br>• ffynonellau data lleol<br>• astudiaethau ymchwilio<br>• gwybodaeth leol. |

Mae'r cwestiynau'n gyfres o awgrymiadau, yn hytrach na rhestr gaeth, ac efallai y bydd angen eu haddasu i weddu i wahanol sefyllfaoedd. Caiff yr union gwestiynau, a'r fformat ar gyfer eu hateb, eu pennu gan y fframwaith a ddisgrifir ym mholisi chwarae'r sefydliad a'i gytuno gan y tîm rheoli.

I lawer o bobl, efallai y bydd ymateb yn gwbl agored i'r cwestiynau a chofnodi'r atebion yn syml yn fodd mwy systematig o gasglu'r wybodaeth y mae darparwyr yn ei ystyried eisoes, ac sy'n cael ei gwmpasu gan safonau, arweiniad a phrosesau asesu risg confensiynol.

Mae Tablau 7 i 12, yn nes ymlaen yn y bennod hon, yn egluro sut y gellid defnyddio'r system yn rhai o'r sefyllfaoedd hyn trwy gynnig atebion dychmygol i'r cwestiynau parod. Maent yn nodi enghreifftiau o natur yr asesiad disgrifiadol, ond nid y manylion, gan y bydd hyn yn ddibynnol ar amgylchiadau lleol.

**Dylai darparwyr ddefnyddio eu dealltwriaeth o anghenion chwarae plant, yr angen i gynnig risg a her a'u gwybodaeth a'u profiad er mwyn hysbysu'r broses o lunio barn.**

Mae darparwyr, amgylchiadau lleol ac agweddau tuag at ddarpariaeth yn amrywio'n fawr, felly bydd pob asesiad risg-budd yn wahanol; wedi ei hysbysu gan y fframwaith polisi chwarae, safbwyntiau'r tîm rheoli a'r sefyllfa unigol. Yn ogystal ag ystyried y gyfraith, safonau ac arweiniad, dylai darparwyr ddefnyddio eu dealltwriaeth o anghenion chwarae plant, yr angen i gynnig risg a her mewn darpariaeth chwarae a'u gwybodaeth a'u profiad personol, tra'n cofio am gyngor yr HSE yn *Five Steps to Risk Assessment* i 'ganolbwyntio ar y risgiau sydd o bwys mewn gwirionedd' (HSE, 2006).

### Asesu risg–budd: esiampl

**Mae'r astudiaeth achos ffug hwn yn dangos sut y gallai asesu risg–budd weithio mewn gwirionedd.**

Mae Cyngor Dinas Tregaer yn ardal drefol â phoblogaeth niferus sydd â fawr ddim mannau gwyrddion. Mae'r cyngor wedi mabwysiadu polisi chwarae sy'n cydnabod gwerth gweld plant a phobl ifainc yn cymryd risgiau wedi eu rheoli, cyswllt â natur ac amgylcheddau naturiol, a buddiannau iechyd a lles chwarae yn yr awyr agored.

Mae rheolwr parciau cyngor y ddinas am i blant gael cyfle i ddringo coed. Fodd bynnag, mae rhai o'i gydweithwyr ac aelodau etholedig am wahardd dringo coed oherwydd ofnau ynghylch anafiadau ac ymgyfreithiad posibl. Mae'r cwestiwn sy'n cael ei godi yn ymwneud â'r agwedd gyffredinol tuag at ddringo coed ar draws yr awdurdod, ac nid y risgiau a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â choeden neu barc penodol. Mae Tabl 6 yn dangos yr asesiad risg-budd, gan ddefnyddio'r cwestiynau parod. Yn yr enghraifft ffug yma, mae'r cwestiynau wedi eu hateb a nodir barn sy'n ystyried polisi Cyngor Dinas Tregaer.

**Tabl 6: Asesiad risg-budd ffug: a ddylid caniatáu neu wahardd dringo coed ym mharciau Tregaer?**

| Mater | Sylwadau | Ffynonellau gwybodaeth |
|---|---|---|
| Buddiannau | Y pleser y mae'n ei roi i blant a phobl ifainc.<br><br>Buddiannau i iechyd, hyder a lles.<br><br>Buddiannau cysylltiad rheolaidd â natur wrth hybu ymwybyddiaeth amgylcheddol. | Adroddiad *Growing Adventure* y Comisiwn Coedwigaeth (Comisiwn Coedwigaeth, 2006).<br><br>Cyhoeddiadau Play England ar fuddiannau chwarae.<br><br>Arsylwadau a phrofiadau bob dydd. |
| Risgiau | Risg mân-anafiadau a thoresgyrn hirion.<br><br>Risg llai o anafiadau mwy difrifol.<br><br>Risg o ddifrodi'r coed.<br><br>Risg o dderbyn achwynion gan rai trigolion.<br><br>Risg o hawliadau, ymgyfreithiad a cholli enw da. | Data damweiniau cenedlaethol.<br><br>Gwybodaeth leol am anafiadau a lefelau achwynion.<br><br>Gwybodaeth am hawliadau gan gydweithwyr a rhwydweithiau proffesiynol. |
| Safbwyntiau arbenigol | Archwiliad meddyg coed yn nodi canghennau sy'n amlwg yn wan ar rai coed.<br><br>Gwahanol safbwyntiau arbenigol: agweddau cadarnhaol gan arbenigwyr datblygiad plant.<br><br>Pryderon gan weithwyr atal damweiniau proffesiynol. | Adroddiadau archwiliadau meddyg coed.<br><br>Safbwyntiau arolygwyr chwarae.<br><br>Cyhoeddiadau Play England.<br><br>Arweiniad a gyhoeddwyd gan sefydliadau atal damweiniau. |
| Ffactorau lleol perthnasol | Mynychter tebygol dringo coed.<br><br>Lleoliad a rhywogaethau'r coed. | Rheolwyr parciau. |
| Opsiynau a'u costau, manteision ac anfanteision | 1. Gadael y coed fel y maent, a chaniatáu iddynt gael eu dringo.<br><br>2. Tocio rhai o'r canghennau gwanach a chaniatáu iddynt gael eu dringo.<br><br>3. Cael gwared â'r coed a / neu'r canghennau isaf i atal dringo. | Dim gwybodaeth newydd: bydd angen trafod opsiynau a phwyso a mesur manteision ac anfanteision. |

| | | |
|---|---|---|
| | 4. Ceisio atal y plant rhag dringo trwy orfodaeth ac addysg.<br><br>5. Siarad â'r plant am lunio eu barnau eu hunain ynghylch cryfder a diogelwch y canghennau.<br><br>Mae gan feddygon coed, camau addysgol neu gamau gorfodaeth i gyd gostau ariannol.<br><br>Efallai y bydd tocio canghennau gwanach yn anfon arwydd rhy gryf bod y coed wedi eu haddasu i'w gwneud yn ddiogel ar gyfer dringo rheolaidd, ac efallai y bydd yn annog defnydd dwys. Mae gorfodaeth yn debygol o ddigio'r plant a dim ond bod yn rhannol lwyddiannus. Gall arwain hefyd at weld plant yn mynd i ddringo i rywle arall, neu i wneud pethau eraill sy'n llai dymunol. | |
| Rhagesiamplau / cymariaethau | Mae gan Gyngor Bwrdeistref Metropolitanaidd Dinasnewydd bolisi sy'n caniatáu dringo coed a chafodd hwn ganlyniadau cadarnhaol. | Rhwydweithiau proffesiynol: Play England, Greenspace, Design Council, CABE ac asiantaethau cenedlaethol eraill. |
| Barn risg-budd | Yn gyffredinol, mae'r buddiannau'n gwrthbwyso'r risgiau, ond bydd angen rheoli'r rhain, felly gadael y coed fel y maent a chaniatáu dringo coed.<br><br>Monitro'n ofalus ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac adolygu'r penderfyniad mewn blwyddyn, neu'n gynharach os yw'r sefyllfa'n newid.<br><br>Darparu gwybodaeth i staff y parc a phobl leol ynghylch y penderfyniad a'r sail rhesymegol. | |
| Gweithredu'r farn yn lleol | Roedd dringo coed fel plentyn yn brofiad cyffredin i lawer o oedolion, ac yn rhywbeth y byddai llawer yn cytuno sydd o werth i blant heddiw.<br><br>Mae rhieni, gofalwyr ac oedolion eraill sydd â rôl goruchwyliol yn debyg o bennu rheolau am ddringo coed, gan eu bod yn ymwybodol o'r risgiau.<br><br>Ystyried cyhoeddi'r penderfyniad, er mwyn arddangos agwedd cyngor y ddinas tuag at gymryd risg, ac i amlygu hyn i rieni. | Profiad gan eraill mewn amgylchiadau tebyg, a gesglir gan rwydweithiau proffesiynol.<br><br>Cefnogaeth gan asiantaethau cenedlaethol a chymdeithasau chwarae lleol a rhanbarthol (e.e. Chwarae Plant). |

[Sylwer: mae'r holl ddatganiadau yn yr esiampl hwn yn rhai enghreifftiol yn unig.]

## Astudiaeth achos: Gwasanaethau gofal plant y tu allan i'r ysgol yn Swydd Northampton

Mae tîm ymgynghorwyr gofal plant Cyngor Sir Swydd Northampton wedi hyrwyddo'r defnydd o asesu risg-budd ar draws y gwasanaethau y tu allan i'r ysgol y mae'n eu cynnal. Yn 2010 a 2011 cynhaliwyd sesiynau hyfforddi a rhaeadru gwybodaeth, gyda chyfraniadau gan sefyllfaoedd gofal lleol a gan PLAYLINK. Yn 2012 dilynwyd hyn gyda chynhyrchu cwrs hyfforddiant o'r enw 'Playing Up', oedd yn canolbwyntio ar blant hŷn (8-11 mlwydd oed), a ysgrifennwyd gan Playwork Partnerships (o Brifysgol Swydd Gaerloyw). Cynhyrchwyd taflenni ar gyfer rhieni a gweithwyr proffesiynol ar chwarae anturus a'u dosbarthu i sefyllfaoedd chwarae ac ar-lein.

Mae Gr8 Kids yn un sefyllfa chwarae sydd wedi ymgorffori asesu risg-budd yn y broses o gynllunio eu rhaglen. Maent wedi datblygu taenlen barod sy'n arwain gweithwyr chwarae trwy gyfres o gwestiynau fydd yn eu helpu i lunio barnau. Mae'r rhain yn delio â risgiau a pheryglon sylweddol, y grwpiau allai fod mewn perygl, buddiannau'r weithgaredd, a'r camau a gymerir i reoli risgiau a buddiannau.

Dywed Victoria Pinney, ymgynghorydd gofal plant y tu allan i'r ysgol, tîm blynyddoedd cynnar Cyngor Sir Swydd Northampton, bod y fenter: 'wedi bod yn arbennig o fuddiol i weithwyr chwarae ar draws y sir ac wedi eu galluogi i gynyddu eu sgiliau a'u hyder, gan eu cynorthwyo hefyd i herio barnau pobl eraill a dadlau dros yr hyn y maent yn ei gredu. Trwy roi'r sgiliau a'r hyder i weithwyr chwarae hwyluso cyfleoedd chwarae i blant brofi risgiau, gwthio'n erbyn ffiniau a gwella eu sgiliau bywyd trwy chwarae, bydd yn arwain at sicrhau sefyllfaoedd chwarae o safon uwch ar draws y sir'.

## Children's Links yn defnyddio asesu risg-budd i ennill cefnogaeth penaethiaid ysgolion – a'r gwasanaeth tân

Mae Children's Links yn elusen sy'n darparu gwasanaethau chwarae cymunedol yn, ac o amgylch, Swydd Lincoln. Mae'n defnyddio proses asesu risg-budd i ystyried cynnwys gweithgareddau fel dringo coed, adeiladu hamogau a siglenni dros dro, a gweithgareddau'n cynnwys tân. Cred Clare Bryan, datblygwraig chwarae gyda Children's Links, y bu'r broses yn arbennig o ddefnyddiol wrth ddadlau eu hachos gyda phenaethiaid ysgolion – ac ar un achlysur gyda'r gwasanaeth tân. Meddai, 'Bu modd inni ddefnyddio ein ffurflenni asesu risg-budd i ddangos ein bod wedi ystyried y risgiau ond, yn ein barn ni, bod y rhain yn cael eu gwrthbwyso'n sylweddol gan y buddiannau.'



Mae Children's Links yn defnyddio asesu-risg budd i newid meddyliau penaethiaid – a'r gwasanaeth tân.



## Enghraifft o asesiad risg-budd a ddefnyddiwyd gyda materion penodol.

**Mae'r esiamplau a ddisgrifir yma'n cynnig syniadau ar y modd y gellir archwilio rhai meysydd pynciol penodol gan ddefnyddio'r agwedd ddisgrifiadol tuag at asesu risg-budd er mwyn llunio barnau cytbwys.**

Nid yw'r pynciau na'r asesiadau'n gyfarwyddol nac yn rhestr cyflawn. Efallai y bydd rhai darparwyr yn penderfynu nad oes angen iddynt ddelio ag unrhyw un o'r pynciau a archwilir isod. Efallai y bydd darparwyr eraill yn dynodi pynciau gwahanol y maent yn teimlo fyddai'n elwa o asesiad risg-budd.

**Ym mhob maes pynciol ni chynigir barn derfynol, gan fod hyn yn dibynnu ar werthoedd, polisïau ac amcanion y darparwr, ac ar amgylchiadau lleol.**

Mae'r tudalennau canlynol yn arddangos sut y gellid defnyddio asesu risg-budd yng nghyd-destun:

- ffiniau a ffensys
- arwynebau lleddfu ardrawiadau
- offer sefydlog sydd ddim yn cydymffurfio â safonau
- strwythurau hunan-adeiladu
- nodweddion chwarae 'anghyfarwyddol'
- cathod a chŵn.

### Ffiniau a ffensys

Yn y DU – er nad mewn rhai gwledydd Ewropeaidd eraill – mae'n gyffredin i ddarpariaeth chwarae gael ei amgáu'n llwyr gan ffensys sydd wedi eu dylunio i atal cŵn rhag dod i mewn neu fynd allan. Mae hyn yn wir os yw cŵn yn cael eu hystyried yn broblem neu beidio. Ar wahân i gadw cŵn allan, bwriedir i'r ffensys ei gwneud hi'n anos i blant iau grwydro a gadael yr ardal chwarae.

Mae Tabl 7 yn dangos sut y byddai asesu risg-budd yn delio â'r cwestiwn hwn. Wrth gwblhau'r asesiad, byddai angen i ddarparwyr ystyried lleoliad y ddarpariaeth mewn perthynas â ffyrdd, ardaloedd cerdded cŵn, ac unrhyw beryglon eraill sydd gerllaw.

## Astudiaeth achos: Cyngor Thurrock

**Andy Furze, cyn-reolwr mannau gwyrddion Cyngor Thurrock, sy'n disgrifio'r modd y bu i'w awdurdod newid ei agwedd tuag at ffensys.**

'Yn Thurrock, adnewyddwyd yr holl ardaloedd chwarae ym 1990 a gosodwyd ffensys pren neu fetal o amgylch yr offer; yn y mwyafrif o achosion aeth y 'fandaliaid' lleol ati'n gyflym, ac yn ddoeth iawn, i dynnu a chwalu'r ffensys; ble roedd y ffensys yn dal i sefyll fe wnaethom sylwi nad oeddent yn gwneud fawr ddim gwahaniaeth i lefelau baw cŵn beth bynnag. Yn hytrach na gwario rhagor o arian ar ffensio, fe sylweddolom bod y diffyg ffens yn ein galluogi i ehangu ardaloedd yn rhwyddach, a chaniatáu i'r plant symud yn rhydd rhwng offer a'r amgylchedd naturiol yn gyffredinol; fe wnaethom greu twmpathau syml a choedlannau o goed ifainc ar nifer o safleoedd ac roedd yn braf dysgu, unwaith i'r coed dyfu'n ddigon tal i blant guddio ynddynt, eu bod yn amlwg yn cael eu defnyddio gan blant. 'Doedd dim ffensys o amgylch ein ardaloedd chwarae gorau!' (Furze, 2006)



Mae'r diffyg ffens derfyn ym Mharc Dilkes yn Thurrock yn golygu bod naws anffurfiol i'r ardal chwarae, sy'n helpu'r ardal chwarae i ymdoddi i'r parcdir o'i hamgylch.

Andy Furze

**Tabl 7: Pa ffensys a ffiniau ddylid eu gosod, os o gwbl, o amgylch y ddarpariaeth chwarae yma?**

| Mater | Sylwadau | Ffynonellau gwybodaeth |
|---|---|---|
| Buddiannau peidio â chael ffens o amgylch ardal chwarae | Bydd plant yn dysgu i reoli eu chwarae archwiliol drostynt eu hunain.<br><br>Bydd rhieni sy'n dod gyda'u plant yn talu mwy o sylw i ble y mae eu plant, yn hytrach na chymryd na allant ddianc.<br><br>Gall plant estyn eu hunain yn eu chwarae yn hytrach na gorfod aros mewn un man cyfyngedig.<br><br>Mewn rhai lleoliadau gall ffensys wneud problemau cŵn yn waeth: bydd rhai perchnogion cŵn yn mynd ati'n weithredol i chwilio am ardaloedd wedi eu ffensio i hyfforddi a rheoli eu cŵn. Fydd gatiau ddim yn cau'n iawn bob amser, sy'n golygu eu bod yn gwbl aneffeithiol wrth gadw cŵn allan.<br><br>Cael gwared â pherygl posibl (gall plant sy'n ceisio dringo ffensys, neu ddim ond defnyddio'r gatiau, anafu eu hunain).<br><br>Llai o risg y bydd patrwm yr ardal chwarae'n meithrin ymddygiad tiriogaethol, aflonyddol, bwlian neu erledigaeth.<br><br>Caniatáu defnydd gwahanol o gronfeydd cyfalaf. | Arsylwadau a phrofiadau bob dydd. |
| Risgiau cael ardaloedd chwarae heb ffensys | Risg o niwed os bydd plant yn gadael yr ardal a wynebu peryglon y tu hwnt, fel ffyrdd neu ddŵr agored.<br><br>Potensial i blant grwydro i ffwrdd a mynd ar goll.<br><br>Gall ffensio helpu gyda rheoli cŵn.<br><br>Mae'n bosibl y bydd rhai plant sydd ag anawsterau dysgu penodol neu broblemau ymddygiadol yn anos i'w goruchwylio mewn darpariaeth heb ei ffensio. | Arsylwadau a phrofiadau bob dydd.<br><br>Profiad gofalwyr plant sydd â namau perthnasol. |

| | | |
|---|---|---|
| Safbwyntiau arbenigol | Ystod o safbwyntiau, er y ceir safbwynt gynyddol ymysg asiantaethau cenedlaethol, dylunwyr a gwneuthurwyr bod ffensio'n ddiangen mewn nifer o amgylchiadau. | Design for play (Shackell et al, 2008).<br><br>Planning and Design for Outdoor Sport and Play (Earley (gol), 2008)<br><br>Shaping Neighbourhoods: Children and Young People's Play and Informal Recreation SPG (Greater London Authority, 2012)<br><br>Arolygwyr chwarae.<br><br>Asiantaethau chwarae cenedlaethol. |
| Ffactorau lleol perthnasol | Ffactorau safle-benodol sy'n ymwneud â pheryglon.. | |
| Opsiynau a'u manteision a'u anfanteision | Amrywiol opsiynau, yn amrywio o ffensio a ffyrdd eraill o ddiffinio ffiniau, i ardaloedd heb unrhyw fath o ffensio o gwbl.<br><br>Bydd manteision ac anfanteision yn dibynnu ar adnoddau a lleoliad y safle. | Dim gwybodaeth newydd: bydd angen trafod opsiynau, neu bwyso a mesur y manteision a'r anfanteision. |
| Rhagesiamplau / cymariaethau | Mae awdurdodau lleol Thurrock a Stirling wedi osgoi'r defnydd o ffensio ble bynnag y bo modd.<br><br>Mae canllawiau cynllunio Maer Llundain ar chwarae ac adloniant anffurfiol yn nodi y dylid ond defnyddio ffensys ble fo presenoldeb peryglon y tu hwnt i'r safle'n cyfiawnhau hynny.<br><br>Traethau: mae'r modd y bydd rhieni'n goruchwylio eu plant ar y traeth yn dangos bod pobl yn teimlo'n gyfforddus mewn mannau heb eu ffensio, hyd yn oed os oes peryglon sylweddol gerllaw.<br><br>Mae'n bosibl y bydd profiadau asiantaethau eraill, fel meithrinfeydd ac ysgolion coedwig, yn werthfawr. | |
| Barn risg-budd | Yn ddibynnol ar werthoedd, polisïau ac amcanion y darparwr, ac ar amgylchiadau lleol. | |
| Gweithredu'r farn yn lleol | Mae'n bosibl y bydd rhieni mewn rhai ardaloedd yn awyddus i gael ffens, neu hyd yn oed fynnu cael un. Mae rhai darparwyr wedi llwyddo i leddfu pryderon. | Profiadau yn Thurrock a Stirling |

## Arwynebau lleddfu ardrawiadau

Dros y 25 mlynedd diwethaf, mae mwy a mwy o feysydd chwarae ym Mhrydain wedi cael eu gorchuddio ag arwynebau lleddfu ardrawiadau (IAS) yn y gred y bydd hyn yn lleihau difrifoldeb anafiadau'n sgîl cwympau, yn enwedig anafiadau i'r pen. Digwyddodd y datblygiad hwn mewn ymateb i lobi diogelwch cwsmeriaid a ddatblygodd ar ddiwedd y 1960au ac ar ddechrau'r 1970au. Mae fersiwn 2008 o BS EN 1176 yn argymell IAS ar gyfer cwympau o uchder mwy na 0.6 medr, ac yn y DU, mae glaswellt gaiff ei gynnal a'i gadw'n ddigonol yn briodol ar gyfer cwympau o uchder hyd at 1.5 medr, yn ddibynnol ar asesiad risg (BSI, 2008a).

Yn ôl yr Association of Play Industries (API), mae rhai mathau o IAS (yn enwedig rwber synthetig wedi ei rwymo â resin) yn gallu defnyddio hyd at 40 y cant o gyllidebau cyfalaf ar gyfer darpariaeth chwarae confensiynol. Er mai prif amcan darparu IAS yw amddiffyn rhywfaint ar ddefnyddwyr allai fod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae sy'n cynnwys rhywfaint o risg, mae amryw fathau o IAS yn cynnig cyfleoedd ar gyfer chwarae ynddynt eu hunain. Bydd gan wahanol fathau o arwynebau wahanol gostau cyfalaf a chynnal a chadw a byddant yn cynnig gwahanol fathau o werth chwarae. Mae effeithlonrwydd amrywiol fathau o IAS fel cam diogelu wedi cael ei astudio gan y gymuned ymchwil (Ball, 2002; Ball, 2004; Norton et al, 2004; Towner et al, 2001; Khambalia et al, 2006). Er bod BS EN 1176 wedi cyhoeddi'r farn gyfredol gyffredinol trwy Ewrop, ceir llawer o safbwyntiau eraill ar y mater hwn, y mae rhai ohonynt yn cwestiynu os yw hi'n 'rhesymol' i argymell y dylid defnyddio IAS ym mhob achos. Mae gwaith ymchwil i'r mater hwn yn parhau.



**Mae Tabl 8 yn amlinellu sut y gallai asesiad risg-budd helpu i ddelio â'r broses o ddewis math o arwyneb ar gyfer lleoliad penodol. Fodd bynnag, nid yw'n ceisio delio â'r holl ffactorau allai ffurfio penderfyniad terfynol, megis costau cyfalaf a chynnal a chadw mathau penodol o arwynebau.**



Prif amcan darparu IAS (tywod yn yr achos hwn) yw cynnig rhywfaint o amddiffyniad i ddefnyddwyr allai fod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae allai gynnwys risg.

**Tabl 8: Pa arwynebau sydd eu hangen yn y ddarpariaeth chwarae yma?**

| Mater | Sylwadau | Ffynonellau gwybodaeth |
|---|---|---|
| Buddiannau gwahanol fathau o arwynebau ar y llawr | Efallai y bydd yr arwyneb naturiol sydd ar lawr ar hyn o bryd yn addas ar gyfer y cyfan neu ran o'r ardal chwarae, yn cydweddu â'r amgylchedd ac yn cynnig gwerth chwarae da.<br><br>Mae pobl yn hoffi arwynebau naturiol am eu teimlad a'u gwerth chwarae.<br><br>Bydd rhai arwynebau â chostau cyfalaf is fydd yn rhyddhau arian, y gellir ei wario ar fwy o offer a nodweddion eraill sydd â mwy o werth chwarae, a / neu dalu am waith cynnal a chadw parhaus.<br><br>Ceir llawer o arwynebau cyffredin sydd heb eu dylunio'n benodol i leddfu ardrawiadau ac sy'n rhad, e.e. glaswellt, tywod neu risgl.<br><br>Mae'n rhesymol inni gymryd y gall ymddygiad plant a'u rhieni / gofalwyr gael ei newid gan y math o arwyneb a ddarperir (efallai y bydd plant yn cymryd mwy o ofal dros arwyneb caled, ac efallai y bydd rhieni / gofalwyr yn cadw llygad agosach ar eu plant iau).<br><br>Efallai y bydd plant sy'n cwympo'n dysgu gwers werthfawr am ganlyniadau cwympo ar wahanol fathau o arwynebau y byddant yn dod ar eu traws yn y byd mawr.<br><br>Ceir ansicrwydd ynghylch rhinweddau cymharol gwahanol fathau o arwynebau. Mae rhywfaint o waith ymchwil biomecanig yn awgrymu efallai bod rhai mathau poblogaidd o IAS (er enghraifft, arwyneb rwber) yn cynyddu'r tebygolrwydd o fathau penodol o anafiadau, fel toresgyrn hirion. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd mathau eraill (er enghraifft deunydd gronynnog) yn eu lleihau. | Arsylwadau bob dydd.<br><br>Astudiaethau ymchwil ar IAS.<br><br>Argymhellion ar bolisïau diogelwch gan asiantaethau rheolyddol.<br><br>Dadansoddi darpariaethau blaenorol. |
| Risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o arwynebau ar y llawr | Mae rhai astudiaethau biomecanig yn awgrymu y gallai diffyg arwynebau IAS gynyddu'r tebygolrwydd o fathau penodol o anafiadau, fel anafiadau pen er, yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn amhendant.<br><br>Bydd arwynebau costus yn lleihau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer darpariaeth chwarae pellach.<br><br>Mae'n ymddangos ar hyn o bryd bod yswirwyr a'r llysoedd yn cymryd y bydd IAS wedi ei osod.<br><br>Efallai na fydd glaswellt / pridd yn addas mewn rhai sefyllfaoedd ble y caiff ei erydu, e.e. o dan offer dynamig. | Arbenigwyr annibynnol. |

| | | |
|---|---|---|
| Safbwyntiau arbenigol | Cynrychiolir y mwyafrif o safbwyntiau arbenigol Ewropeaidd yn BS EN 1176, er y ceir gwahanol safbwyntiau.<br><br>Mae arbenigwyr diogelwch ac atal damweiniau'n tueddu i ffafrio IAS fel rhagofal diogelwch rhesymol.<br><br>Heriwyd yr achos dros ddefnydd cyffredinol IAS ac os yw'n gyson â'r egwyddor 'rhesymol ymarferol'. | *Nature play: Maintenance guide* (Davis, White a Knight, 2009)<br><br>BS EN 1176 (BSI, 2008a).<br><br>Astudiaethau ymchwil ar IAS a pholisi cyhoeddus ar ddiogelwch.<br><br>Arbenigwyr annibynnol. |
| Ffactorau lleol perthnasol | Cynllun y safle, a'r offer a'r nodweddion eraill sydd i'w cynnwys yma.<br><br>Defnyddwyr (oedran, nifer ayb) yr offer a'u disgwyliadau.<br><br>Y math o weithgareddau chwarae ac unrhyw strwythurau gaiff eu darparu. | |
| Opsiynau a'u manteision a'u anfanteision | Penderfynu ar ofynion allweddol<br><br>a) A oes angen darparu IAS?<br><br>b) A oes angen gosod yr un arwyneb dros y safle cyfan?<br><br>c) Y math o arwyneb fyddai'n well ar gyfer gwahanol leoliadau.<br><br>Caiff y penderfyniad terfynol ei ddylanwadu gan ystyriaethau eraill hefyd, megis costau cyfalaf a chynnal a chadw, gwahanol ddefnydd ar gyfer cyllid, gwerth chwarae, estheteg, addasrwydd ar gyfer y safle, hylosgedd. | Dim gwybodaeth newydd: bydd angen trafod opsiynau a phwyso a mesur y manteision a'r anfanteision. |
| Rhagesiamplau / cymariaethau | Mae fersiwn 2008 o BS EN 1176 wedi ail-ddiffinio ei argymhellion ar yr angen am fathau penodol o IAS fel cydnabyddiaeth bod angen taro cydbwysedd rhwng cost, risg a budd. | BS EN 1176 |
| Barn risg-budd | Yn ddibynnol ar werthoedd, polisïau ac amcanion y darparwr, ac ar amgylchiadau lleol. | |
| Gweithredu'r farn yn lleol | Mae dewis arwyneb, boed hynny'r llawr sydd yno eisoes neu un neu fwy o'r gwahanol fathau o IAS, yn gofyn am ymgynghori a chynllunio gofalus, ac efallai hyrwyddo buddiannau yr arwyneb y byddwch am ei ddewis. | |

## Astudiaeth achos: Islington yn adeiladu siglenni coed newydd, yn cadw pyllau tywod – ac yn arbed arian

Defnyddiwyd asesu risg-budd yn eang ar draws gwasanaethau chwarae a mannau gwyrddion Islington. Mae'r ffurflenni a ddefnyddiwyd yn glynu'n glòs iawn at y fformat a'r cwestiynau a awgrymir yn y cyhoeddiad hwn. Mae strategaeth chwarae mannau gwyrddion Islington yn datgan bod 'wynebu risg yn rhan hanfodol o ddarpariaeth chwarae' ac mae'n ymrwymo'r cyngor i ddefnyddio asesu risg-budd. Mabwysiadwyd agwedd traws-adrannol, sy'n cynnwys y gwasanaeth chwarae, parciau a mannau gwyrddion a iechyd a diogelwch corfforaethol.

Arweiniodd hyn, ymysg datblygiadau eraill, at:

- osod siglenni coed, heb oruchwyliaeth, mewn nifer o barciau
- hyfforddiant wedi ei deilwra'n arbennig ar osod siglenni coed i gynorthwyo cydweithwyr a gweithwyr chwarae sy'n gweithio mewn parciau i osod y siglenni ar gyfer sesiynau â goruchwyliaeth
- gweithio partneriaeth â Chymdeithas Chwarae Islington i adeiladu cuddfan ym Mharc Stryd Basire, gyda chymorth trigolion lleol
- codi tŷ pen coeden fel rhan o ardal chwarae newydd ar Sgwâr Arundel.

Un pwnc a archwilwyd oedd y defnydd o dywod mewn parciau a mannau chwarae. Mae gan Islington byllau tywod mewn 11 o barciau a mannau agored, mewn cydnabyddiaeth o'i werth wrth gyfoethogi profiadau a chyfleoedd chwarae. Yn 2010/11 amcangyfrifwyd bod cost cynnal a chadw'r rhain yn £35,000. Ym mis Ionawr 2011 adolygodd y cyngor ei drefniadau cynnal a chadw, gan ddefnyddio arweiniad allanol a'i gofnodion ei hun ar faterion llygru a diogelwch. Un canfyddiad allweddol oedd na chafwyd yr un cofnod o lygru'r tywod, mewn pum lleoliad, dros gyfnod o bum mis. Wedi pwyso a mesur y risgiau a'r buddiannau, adolygodd y cyngor ei drefniadau cynnal a chadw a lleihau amlder rhai gweithdrefnau ar safleoedd penodol. Arweiniodd hyn at arbed costau o £20,000 y flwyddyn (dros 50 y cant). Dywedodd y cyngor bod hyn 'wedi ein helpu i gyflawni ein targedau arbedion presennol ac mae'n helpu i chwalu'r chwedl bod tywod yn broblemus ac yn gostus i'w gynnal a'i gadw.'


Monkey-Do.

### Offer sefydlog sydd ddim yn cydymffurfio â safonau

Mae rhai gwneuthurwyr offer chwarae'n fodlon, ac yn meddu ar y profiad, i gyflenwi offer chwarae sydd ddim yn cael ei gwmpasu gan neu sydd ddim yn cydymffurfio â safonau diwydiannol. Mae hyn oherwydd bod rhai darparwyr am gynnig cyfleoedd chwarae sy'n anodd neu'n amhosibl i'w cyflawni o fewn paramedrau'r safon. Er nad yw offer o'r fath yn cydymffurfio â'r safon, mae'n dal yn bosibl i'w ddefnyddio, cyn belled â bod asesiad risg-budd priodol wedi ei gwblhau. Dylai gwneuthurwyr sy'n darparu offer sydd ddim yn cydymffurfio â'r safon gyflwyno, ble fo'n briodol, ddogfennau'n cynnwys data technegol, i'w cynnwys yn asesiadau risg-budd y darparwr.

**Mae Tabl 9 yn amlinellu'r modd y gallai asesiad risg-budd ddelio â'r defnydd o offer neu nodweddion sydd ddim yn cydymffurfio â safonau diwydiannol (nodweddion ac offer chwarae sydd ddim yn cydymffurfio).**

### Tabl 9: A ddylid cynnwys yr offer chwarae yma, sydd ddim yn cydymffurfio â safonau diwydiannol, yn yr ardal chwarae hon?

| Mater | Sylwadau | Ffynonellau gwybodaeth |
|---|---|---|
| Buddiannau offer chwarae sydd ddim yn cydymffurfio â'r safon | Buddiannau cynnig cyfleoedd chwarae all fod yn anodd neu'n amhosibl i'w cyflawni o fewn paramedrau'r safon. | Arsylwi plant yn chwarae. |
| Risgiau | Efallai y caiff peryglon annerbyniol neu risgiau drwg eu cyflwyno trwy adeiladu neu gynllunio gwael.<br><br>Efallai nad yw asesiadau risg ac archwiliadau'n gyson, o'u cymharu â'r rhai a gynhelir ar offer safonol, a gallent fod yn llai dibynadwy mewn achosion llys. | Profiad proffesiynol.<br><br>Arolygwyr chwarae. Egwyddorion BS EN 1176. Sylwer: mae'r safon yma'n datgan yn groyw nad yw'n berthnasol i feysydd chwarae antur wedi eu staffio. |
| Safbwyntiau arbenigol | Mae rhai arolygwyr meysydd chwarae'n cydnabod gwerth defnyddio offer sydd ddim yn cydymffurfio â'r safon cyn belled â bod asesiad / archwiliad addas wedi ei gwblhau. | *Children's Tree Swings: A guide to good practice* (Murray a Sutton, heb ei ddyddio)<br><br>*Risk and Safety in Play* (PLAYLINK, 1997). Mae hwn yn ymwneud yn benodol â meysydd chwarae antur â goruchwyliaeth. |
| Ffactorau lleol perthnasol | Yr offer sy'n cael ei gynnig, ei leoliad yng nghyd-destun offer a nodweddion eraill, a nodweddion cyffredinol yr ardal ehangach. Mae hyn yn cynnwys lefel goruchwyliaeth gan oedolion, a chyfranogaeth pobl leol yn y gwaith o ddylunio a chynnal a chadw'r ddarpariaeth. | |
| Opsiynau a'u manteision a'u anfanteision | Bydd opsiynau, a'u manteision a'u anfanteision, yn unigryw i bob safle penodol.<br><br>Dim data bod anafiadau sy'n ymwneud â nodweddion o'r fath yn fwy neu'n llai tebygol. | Dim gwybodaeth newydd: bydd angen trafod opsiynau a phwyso a mesur y manteision a'r anfanteision. |

| | | |
|---|---|---|
| Rhagesiamplau / cymariaethau | Mae nifer cynyddol o ddarparwyr, yn cynnwys Bwrdeistrefi yn Llundain sef: Camden, Enfield a Hackney, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a'r Comisiwn Coedwigaeth, wedi defnyddio nodweddion chwarae anghyfarwyddol. | Rhwydweithiau proffesiynol.<br><br>Play England, Greenspace, Design Council, CABE ac asiantaethau cenedlaethol eraill. |
| Barn risg-budd | Yn ddibynnol ar werthoedd, polisïau ac amcanion y darparwr, ac ar amgylchiadau lleol. | |
| Gweithredu'r farn yn lleol | Gellir cyfeirio at y nifer sylweddol o ddarparwyr sydd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi cynnwys offer sydd ddim yn cydymffurfio â safonau diwydiannol, neu ble fo cydymffurfio'n aneglur.<br><br>Efallai y bydd angen perswadio rhieni, sydd â rhagsyniadau am fannau chwarae, ynghylch rhinweddau gwahanol agweddau. | |

## Astudiaeth achos: Coedwig Chwarae Cutsyke, safonau a rôl asesu risg-budd

Mae Coedwig Chwarae Cutsyke, man chwarae yn Castleford, Gorllewin Swydd Efrog, yn cynnwys strwythur sydd ddim yn glynu at y Safon Ewropeaidd. Mae un strwythur dringo yn y goedwig chwarae wedi ei greu o gyfres o bolion 6 medr o hyd, llithrennau, rhwydi a llwyfannau uchel agored sydd 4 medr uwch y llawr. Mae BS EN 1176 yn datgan mai 3 medr yw'r uchder derbyniol mwyaf ar gyfer cwymp. Fodd bynnag, roedd rhwydi o amgylch y mwyafrif o lwyfannau'n golygu bod uchder cwympau i'r rhwydi, ond nid i'r llawr, o fewn y cyfyngiad 3 medr ac, mewn ardaloedd heb rwydi, codwyd rhwystrau 1.3 medr o uchder i leihau'r tebygolrwydd o gwympau o 4 medr.

Fyddai'r goedwig chwarae heb ei chreu pe bae'r awdurdod lleol, y gymuned neu'r cwmni dylunio chwarae wedi teimlo bod gofynion BS EN 1176 yn eu cyfyngu'n ddiangen. Cydnabyddwyd nad yw'r safon yn un orfodol, a bod hyn yn golygu bod lle ar gyfer dehongliad ac amrywiaeth yng nghyd-destun asesu risg-budd.

Cafodd y goedwig chwarae ei harchwilio'n annibynnol yn ystod y broses ddylunio, ac unwaith eto wedi cwblhau'r gwaith, am 'risgiau drwg' – er enghraifft, cynhaliwyd gwiriadau sadrwydd strwythurol ac i sicrhau nad oedd unrhyw fargodau annisgwyl. Cynhaliwyd yr archwiliadau hyn gan gyfeirio at BS EN 1176 er mwyn sicrhau bod unrhyw wiriadau wedi eu deall yn llawn. Y cyd-destun ehangach ar gyfer yr archwiliad oedd y ddealltwriaeth y byddai'r goedwig chwarae o fudd i blant, pobl ifainc a'r gymuned leol. Arweiniodd y ddealltwriaeth yma, ynghyd â barn yr arolygydd bod y risg o gwympo wedi ei liniaru'n ddigonol gan y rhwydi a'r rhwystrau, at asesiad risg oedd yn argymell nad oedd angen cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach.

Nodwedd ddiddorol arall o'r cynllun coedwig chwarae oedd agwedd y gymuned leol a'r awdurdod comisiynu tuag at y cynllun buddugol. Cafodd unrhyw bryderon oedd ganddynt am y strwythur eu tawelu. Awgryma hyn ei bod yn gamgymeriad i gymryd yn ganiataol y bydd barn gyhoeddus neu'r gymuned yn wrthwynebus i risg ac yn methu gwerthfawrogi buddiannau ehangach cymryd risg wrth chwarae.

Coedwig Chwarae Cutsyke. Yn Cutsyke, mae'r llwyfan uchaf a fwriedir ar gyfer dringo arno bedwar medr uwchlaw'r ddaear.



Robin Sutcliffe

### Strwythurau hunan-adeiladu

Mae strwythurau fel cuddfannau, siglenni rhaff a thai pen coed wedi eu hadeiladu gan blant ers cenedlaethau, ac fe'u gwelir mewn llawer o fannau cyhoeddus, coedwigoedd a pharciau hyd heddiw. Fodd bynnag, maent hefyd yn codi materion sy'n ymwneud â diogelwch, yn enwedig mewn ardaloedd chwarae penodedig ble y gall plant a rhieni fod â disgwyliadau uwch ynghylch cryfder neu sadrwydd strwythurau a ble fo'r nifer o blant sy'n eu defnyddio'n debygol o gynyddu'r potensial ar gyfer ôl traul.

Mae Tabl 10 yn amlinellu'r modd y byddai asesiad risg-budd yn delio â materion fydd yn codi oherwydd presenoldeb strwythur hunan-adeiladu plant a phobl ifainc. Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn ardaloedd chwarae heb oruchwyliaeth. Bydd y materion dan sylw'n wahanol mewn darpariaeth chwarae wedi ei staffio, fel meysydd chwarae antur neu ble fo ceidwaid chwarae'n gweithio.

**Tabl 10: Pa agwedd ddylid ei mabwysiadu tuag at bresenoldeb strwythurau hunan-adeiladu plant a phobl ifainc?**

| Mater | Sylwadau | Ffynonellau gwybodaeth |
|---|---|---|
| Buddiannau caniatáu strwythurau hunan-adeiladu | Mae plant wrth eu bodd yn adeiladu, defnyddio ac addasu strwythurau.<br><br>Mae strwythurau o'r fath yn arwydd bod ymdeimlad cryf o berchenogaeth ymysg y plant. Gall eu presenoldeb gyfoethogi mannau chwarae a'u gwneud yn berthnasol i'w lleoliad, am ddim neu fawr ddim cost. | Astudiaethau niferus ar chwarae awyr agored plant.<br><br>Profiad ac arsylwadau bob dydd. |
| Risgiau | Efallai y bydd strwythurau adeiledig yn creu rhywfaint o risgiau drwg.<br><br>Efallai y bydd eu lleoliad yn cynyddu'r risg o gwympo.<br><br>Efallai y gallai siglenni rhaff dorri'n annisgwyl, maent yn cynnwys risg o grogi, a gellir eu lleoli ger neu uwchben gwrthrychau peryglus.<br><br>Efallai y bydd strwythurau'n hybu ymddygiad amhriodol, neu'n creu sbwriel neu weddillion bwyd.<br><br>Gall llawer o ddefnydd ychwanegu at olion traul. | Profiad ac arsylwadau bob dydd.<br><br>Profiad arolygwyr chwarae.<br><br>Egwyddorion BS EN 1176. |
| Safbwyntiau arbenigol | Mae arbenigwyr chwarae a datblygiad plant yn datgan gwerth datblygiadol strwythurau hunan-adeiladu.<br><br>Pryderon gan arbenigwyr diogelwch ynghylch presenoldeb strwythurau hunan-adeiladu mewn darpariaeth chwarae penodedig. | *Rope swings, dens, tree houses and fires: A risk based approach for managers facilitating self-built play structures and activities in woodland settings.* (Harrop, 2006) |

| | | |
|---|---|---|
| Ffactorau lleol perthnasol | Natur a'r mathau o strwythurau hunan-adeiladu sy'n bresennol, eu lleoliadau a lefel y defnydd.<br><br>Ble fo strwythurau hunan-adeiladu wedi eu lleoli mewn ardaloedd chwarae, mae'n bosibl y bydd gan rieni a phlant ddisgwyliadau uwch ynghylch eu sadrwydd strwythurol. | |
| Opsiynau a'u manteision a'u anfanteision | 1. Cael gwared â / chwalu strwythurau.<br>2. Addasu strwythurau (gyda neu heb gyfraniad y plant).<br>3.Gadael strwythurau fel y maent.<br>4. Ceisio creu profiadau chwarae cymaradwy mewn modd gwahanol.<br>5. Dim ond caniatáu strwythurau hunan-adeiladu mewn darpariaeth wedi ei staffio.<br><br>Gallai cael gwared â strwythurau siomi ac efallai ddieithrio'r defnyddwyr. Gallai eu haddasu â chyfraniad y plant gymryd amser, ond fe allai eu hannog i fabwysiadu agwedd fwy cyfrifol.<br><br>Bydd rhinweddau gwahanol agweddau'n dibynnu'n fawr ar leoliad y strwythur. | Dim gwybodaeth newydd: bydd angen trafod opsiynau a phwyso a mesur y manteision a'r anfanteision. |
| Rhagesiamplau / cymariaethau | Bydd rhai rheolwyr parciau'n mynd ati'n rheolaidd i gael gwared â strwythurau hunan-adeiladu, yn enwedig o ardaloedd chwarae. Mae'r Parciau Brenhinol yn caniatáu i guddfannau gael eu hadeiladu ym Mharc Richmond. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cyhoeddi arweiniad ar reoli risgiau sy'n ymwneud â strwythurau hunan-adeiladu yn eu coedydd, er na fwriedir i'r arweiniad yma gael ei ddefnyddio mewn ardaloedd chwarae cyhoeddus. Ceir canllawiau eraill hefyd ar gyfer meysydd chwarae antur. | Canllaw y Comisiwn Coedwigaeth *Rope Swings, Dens, Tree Houses and Fires: A risk based approach for managers facilitating self-built play structures and activities* (Harrop, 2006). Mae hwn yn cyfeirio'n benodol at dir y Comisiwn Coedwigaeth.<br><br>*Risk and Safety in Play* (PLAYLINK, 1997). |
| Barn risg-budd | Yn ddibynnol ar bolisïau, gwerthoedd ac amcanion y darparwr, ac ar amgylchiadau lleol. | |
| Gweithredu'r farn yn lleol | Gall agweddau lleol amrywio'n fawr: efallai y bydd rhai ardaloedd yn wrthwynebus, mae'n bosibl bod ardaloedd eraill â thraddodiad hir o adeiladu strwythurau. | |



Chwarae ar gerflun chwarae cnocell y coed ym Mharc Coetir Alice Holt.

Comisiwn Coedwigaeth – Isobel Cameron



### Nodweddion chwarae 'anghyfarwyddol'

Bydd llawer o ddarparwyr yn cyfyngu eu darpariaeth i gynnwys dim ond offer sydd wedi ei asesu eisoes yn erbyn safonau diwydiannol ac sy'n cydymffurfio â'r rhain. Tra y gall hyn gynnig tawelwch meddwl i ddarparwyr, gall eu harwain i anwybyddu nodweddion neu elfennau chwarae anghyfarwyddol megis boncyffion, cerrig mawrion, tirlunio caled, planhigion neu wahanol lefelau. Er nad yw safonau diwydiannol yn cyfeirio'n benodol at y nodweddion hyn, mae dal modd inni eu cynnwys mewn mannau chwaraeadwy, cyn belled â'u bod wedi cael eu profi ag asesiad risg-budd priodol. Gall y nodweddion hyn ychwanegu at y chwarae a gynigir a gallai ehangu'r ystod o fuddiannau i ddefnyddwyr.

## Astudiaeth achos: Y Comisiwn Coedwigaeth

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cyhoeddi canllawiau cynllunio ar gyfer ei staff ar greu mannau chwarae naturiol sy'n cydweddu â lleoliad coediog. Mae'r canllawiau'n trafod tirffurf, rheoli llystyfiant, nodweddion naturiol, dŵr a mwd, ac arwynebau diogelwch, ymysg materion eraill. Mae'n datgan mai'r nod yw 'creu mannau chwarae naturiolaidd sy'n gweithredu fel sbardun ar gyfer ennyn diddordeb plant mewn fforestydd a choedwigoedd yn gyffredinol. Dylent annog plant i archwilio'r amgylchedd naturiol a chymryd rhan mewn chwarae egnïol ble y bydd cyfle iddynt greu eu gweithgareddau a'u hamgylchiadau chwarae eu hunain.'

*Design guidance for play spaces*
(Houston, Worthington a Harrop, 2006)

Chwarae ar gerflun chwarae cnocell y coed ym Mharc Coetir Alice Holt.

**Tabl 11: A ddylid cynnwys tirlunio a nodweddion naturiol yn yr ardal chwarae hon?**

| Mater | Sylwadau | Ffynonellau gwybodaeth |
|---|---|---|
| Buddiannau nodweddion chwarae anghyfarwyddol | Buddiannau cyswllt â deunyddiau naturiol a phlanhigion wrth ddenu plant a chyfoethogi eu chwarae.<br><br>Buddiannau hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol.<br><br>Gall fod yn fodd rhad o ddarparu gwahanol gyfleoedd chwarae a gwella cynlluniau. | *Sowing the Seeds: Reconnecting London's Children with Nature* (Gill, 2012)<br><br>*Play Naturally* (Lester a Maudsley, 2006)<br><br>Profiad bob dydd.<br><br>Arsylwi plant yn chwarae.<br><br>Profiad darparwyr sy'n defnyddio'r agwedd yma. |
| Risgiau | Gall peryglon annerbyniol neu risgiau drwg gael eu cyflwyno o ganlyniad i adeiladu neu gynllunio gwael.<br><br>Nid oes meincnod cyffredin ar gael ar gyfer archwiliadau ac asesiadau risg. | Profiad proffesiynol.<br><br>Arolygwyr chwarae. |
| Safbwyntiau arbenigol | Mae rhai arbenigwyr chwarae'n hybu buddiannau amgylcheddau chwarae naturiol. | *Nature play: Maintenance guide* (Davis, White a Knight, 2009)<br><br>*Play with Rainwater and Sustainable Drainage* (Planet Earth Ltd, 2010)<br><br>*River restoration projects and children's play* (Gill a Sutton, 2010)<br><br>*Fallen trees as climbing structures in playgrounds* (Sutton, Wheway a Richardson, heb ei ddyddio) |
| Ffactorau lleol perthnasol | Y nodweddion sy'n cael eu cynnig, eu lleoliad yng nghyd-destun offer a nodweddion eraill, nodweddion eraill y safle, ac ansawdd a hygyrchedd amgylcheddau naturiol cyfagos. | |
| Opsiynau a'u Manteision ac anfanteision opsiynau | Bydd opsiynau, a'u manteision a'u anfanteision, yn unigryw i bob safle penodol.<br><br>Dim data bod anafiadau sy'n ymwneud â nodweddion o'r fath yn fwy neu'n llai tebygol. | Dim gwybodaeth newydd: bydd angen trafod opsiynau a phwyso a mesur y manteision a'r anfanteision. |

| | | |
|---|---|---|
| Rhagesiamplau / cymariaethau | Mae nifer o ddarparwyr, yn cynnwys Bwrdeistrefi yn Llundain sef: Camden, Enfield a Hackney; Cyngor Stirling; yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a'r Comisiwn Coedwigaeth, wedi gwneud defnydd helaeth o nodweddion chwarae anghyfarwyddol (gweler yr astudiaethau achos ar dudalennau 82 ac 96).<br><br>Mae gan y mwyafrif o oedolion brofiad o ddringo dros greigiau a chwarae mewn coedydd ac ardaloedd naturiol, a phrofiad o wylio plant yn y cyd-destun hyn. Bydd cyfeirio at y profiad yma'n helpu i hysbysu llunio barn ddeallus. | Rhwydweithiau proffesiynol.<br><br>Play England, Greenspace, Design Council, CABE ac asiantaethau cenedlaethol eraill. |
| Barn risg-budd | Yn ddibynnol ar werthoedd, polisïau ac amcanion y darparwr, ac ar amgylchiadau lleol. | |
| Gweithredu'r farn yn lleol | Gellir cyfeirio at y nifer sylweddol o ddarparwyr sydd wedi cynnwys tirlunio a nodweddion naturiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Efallai y bydd angen perswadio rhieni, sydd â rhagsyniadau am fannau chwarae, ynghylch rhinweddau gwahanol agweddau. | |



**Mae Tabl 11 yn amlinellu'r modd y gallai asesu risg-budd ddelio â'r defnydd o nodweddion chwarae anghyfarwyddol, megis boncyffion, cerrig mawrion, tirlunio caled, planhigion neu wahanol lefelau.**

## Cathod a chŵn

Ceir potensial ar gyfer gwrthdaro mewn amrywiol fathau o fannau cyhoeddus ynghylch defnydd gan gŵn (a pherchnogion cŵn) a phlant. Fodd bynnag, mae llawer o bobl yn rhieni yn ogystal ag yn berchnogion cŵn, a chaiff rhai mannau eu rhannu'n llwyddiannus gan gŵn a phlant. Gall asesiad risg-budd helpu darparwyr i lunio barnau ynghylch y modd gorau i reoli'r materion hyn.

**Mae Tabl 12 yn amlinellu'r modd y byddai asesiad risg-budd yn delio â'r mater o reoli cŵn. Byddai angen i'r asesiad ystyried amgylchiadau lleol fel patrymau defnydd (gan berchnogion cŵn a phlant), agweddau ac ymddygiad perchnogion cŵn a natur ffisegol y gofod.**

Mae'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â chathod mewn darpariaeth chwarae'n debyg ond yn llai difrifol na gyda chŵn. Yn y ddau achos, y prif risg yw tocsocariasis, ac mae'n tueddu i gael ei gyfyngu i ardaloedd chwarae sydd â phridd rhydd a deunyddiau gronynnog, yn enwedig tywod a gro mân. Mae'r risg yn isel gyda chathod, gan mai pur anaml y byddant yn croesi lleiniau eang o dir agored pan fyddant yn chwilio am le i fawa.

**Tabl 12: A ddylid atal cŵn a chathod rhag defnyddio / cael mynediad i'r ardal hon ble y bydd plant yn chwarae?**

| Mater | Sylwadau | Ffynonellau gwybodaeth |
|---|---|---|
| Buddiannau caniatáu cyswllt â chŵn | Mae rhai plant yn hoffi cŵn a chathod.<br><br>Gall caniatáu rhyngweithio â chŵn alluogi plant i dyfu'n fwy hyderus ynghylch delio â chŵn.<br><br>Buddiannau anuniongyrchol os na ddefnyddir ffensys atal cŵn, gan fod hyn yn caniatáu lle ar gyfer cynlluniau mwy hyblyg, a defnydd mwy hyblyg o fannau agored cyhoeddus (gweler Tabl 7 uchod). | Profiad ac arsylwadau bob dydd.<br><br>*Design for Play* (Shackell et al, 2008). |
| Risgiau | Mae rhai plant yn ofni cŵn.<br><br>Risg ymosodiad.<br><br>Risg tocsocariasis o lyncu baw.<br><br>Mae risg tocsocariasis yn fychan ac wedi lleihau dros y blynyddoedd. Mae tocsocariasis yn gymharol gyffredin ond, yn y mwyafrif o achosion, gwelir adferiad llwyr yn y claf. Fodd bynnag, bydd tua 50 o bobl y flwyddyn yn dioddef niwed parhaol i'w llygaid, bron i gyd o ganlyniad i gael eu heintio yn ystod plentyndod cynnar.<br><br>Bydd tua 1,600 o blant y flwyddyn yn ymweld â'r adran ddamweiniau ac achosion brys o ganlyniad i gael eu brathu gan gi.<br><br>Yn ôl gwefan Keep Britain Tidy, mae tua hanner yr achosion mwyaf difrifol o tocsocariasis yn digwydd mewn teuluoedd sydd erioed wedi bod yn berchen ar gath neu gi. 'Does dim sicrwydd sawl achos o tocsocariasis neu frathiadau cŵn sy'n codi o ddarpariaeth chwarae. | Gwefan Keep Britain Tidy (www.keepbritaintidy.org) |
| Safbwyntiau arbenigol | Ceir amrywiol safbwyntiau ar sut i ddelio â'r mater hwn. Mae llawer o awdurdodau lleol yn cynnig arweiniad ar fod yn berchennog ci cyfrifol. | |
| Ffactorau lleol perthnasol | Lefelau o berchenogaeth cŵn; ymddygiad perchnogion cŵn; lle ar gyfer mentrau addysg a gorfodaeth. | |

| | | |
|---|---|---|
| Opsiynau a'u manteision a'u anfanteision | 1. Ffensys atal cŵn.<br><br>2. Creu rhwystrau a ffiniau mewn ffyrdd eraill.<br><br>3. Addysg a gorfodaeth.<br><br>4. Gwaharddiadau cŵn.<br><br>5. Arwyddion a chyflenwad dŵr ar gyfer golchi dwylo.<br><br>Gall ffensio gostio 10 y cant o gyfanswm costau cyfalaf ardal chwarae. Gall arwain at fwy o fwlian ac agweddau tiriogaethol. Gall hefyd fethu â datrys y broblem: bydd rhai perchnogion cŵn yn mynd â'u cŵn i ardaloedd chwarae wedi eu ffensio gan eu bod yn eu hatal rhag rhedeg i ffwrdd.<br><br>Bu addysg a gorfodaeth yn effeithiol wrth hybu perchenogaeth cŵn cyfrifol mewn rhai awdurdodau lleol.<br><br>Mae gwaharddiadau cŵn yn anodd i'w gorfodi a gallant fod yn rhy eithafol (neu gael eu hystyried yn eithafol).<br><br>Pur anaml y cafodd gosod arwyddion a sicrhau cyflenwad dŵr eu mabwysiadu fel ateb, ond fe allent weithio mewn lleoliadau ble fo cyfleusterau o'r fath yn cael eu hystyried at ddibenion eraill. | Dim gwybodaeth newydd: bydd angen trafod opsiynau a phwyso a mesur y manteision a'r anfanteision. |
| Rhagesiamplau / cymariaethau | Mae rhai awdurdodau lleol yn adrodd am lefelau cynyddol o ymddygiad cyfrifol gan berchnogion cŵn sy'n goruchwylio a glanhau ar ôl eu cŵn.<br><br>Nid yw Cyngor Thurrock (gweler yr astudiaeth achos ar dudalen 71) a Chyngor Stirling wedi dibynnu ar ffensio fel ateb. | Astudiaethau achos yn y canllaw hwn.<br><br>Rhwydweithiau proffesiynol.<br><br>Play England, Greenspace, Design Council, CABE ac asiantaethau cenedlaethol eraill. |
| Barn risg-budd | Yn ddibynnol ar werthoedd, polisïau ac amcanion y darparwr, ac ar amgylchiadau lleol. | |
| Gweithredu'r farn yn lleol | Gall diwylliant ac agweddau rhieni a pherchnogion cŵn amrywio'n fawr mewn gwahanol leoliadau. | |

## Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Thornlie yn ail-ddylunio ei meysydd chwarae

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae Grounds for Learning (GfL) – rhaglen yr elusen genedlaethol Learning through Landscapes yn Yr Alban – wedi bod yn cefnogi nifer o ysgolion yn Yr Alban i ddatblygu eu darpariaeth chwarae trwy greu amgylcheddau naturiolaidd sy'n cynnwys gwneud newidiadau i'r tirwedd, ac hefyd ddarparu amrywiol rannau rhydd ar gyfer chwarae. Ochr-yn-ochr â'r newidiadau ffisegol hyn cafwyd rhaglen o hyfforddiant a chefnogaeth i staff. Mae asesu risg-budd wedi chwarae rôl allweddol yn hyn o beth.

Mae Ysgol Gynradd Thornlie yn Wishaw yn un enghraifft o ysgol sydd wedi croesawu'r agwedd hon yn llwyr. Gyda chefnogaeth gan GfL a'r dylunydd chwarae Judi Legg, mae'r ysgol wedi gwneud newidiadau sylweddol i fuarth yr ysgol, fel ychwanegu nifer o nodweddion sy'n amlwg â lefel risg uchel, yn cynnwys coeden ddringo fawr, twll tân, pwll tywod unigryw a boncyffion balansio. Mae rhai o'r rhannau rhydd hyn, yn arbennig cerrig a changhennau hirach, hefyd yn codi materion rheoli risg amlwg.

Roedd y broses risg-budd yn un gyfranogol, wnaeth gynnwys y disgyblion, rhieni, athrawon, goruchwylwyr maes chwarae a'r gofalwr. Fe wnaeth hyn sicrhau, nid yn unig asesiad gwell, ond hefyd fe helpodd i sicrhau cefnogaeth i'r newidiadau ar draws cymuned yr ysgol. O safbwynt yr ysgol, roedd cyfranogiad y plant yn cael ei ystyried fel cyfle allweddol i ddysgu am risg a datblygu sgiliau rheoli risg. Roedd y broses yn un ddynamig hefyd. Yn hytrach na cheisio datblygu gweithdrefnau rheoli cymhleth ar gyfer pob digwyddiad posibl, yr agwedd a fabwysiadwyd oedd i arsylwi'n fanwl y modd yr oedd nodweddion penodol yn cael eu defnyddio a datblygu gweithdrefnau a rheolau priodol yn unol â hynny.

Fel enghraifft o'r agwedd ddynamig yma, fyddai plant ond yn cael chwarae ar ben uchaf y goeden ddringo fawr unwaith iddynt brofi i'r staff y gallent neidio i ffwrdd yn ddiogel. Gydag amser, sylweddolodd y staff na fyddai'r plant yn dringo'n uwch na'r lefel yr oeddent yn gyfforddus ag o. Mae esiampl arall yn ymwneud â thrafodaeth a gafwyd a ddylid garwhau arwyneb y goeden mewn rhyw fodd i'w wneud yn llai llithrig pan yn wlyb. Penderfynodd yr ysgol i beidio â chymryd yr agwedd hon, gan gredu yn hytrach ei bod yn bwysig i blant ddysgu am yr angen i ymddwyn yn wahanol mewn ymateb i wahanol amgylchiadau a thywydd. Yn yr achos hwn fe ellid ystyried rhai damweiniau ar y goeden fel profiad dysgu defnyddiol. Fel y nododd y pennaeth David Hughes, 'Dydych chi ddim yn rhedeg maes chwarae'n iawn os na fydd neb yn cael ei anafu.'

Wrth gyfeirio at y newidiadau, dywedodd Hughes, 'Mae'r prosiect hwn yn golygu ein bod gam yn nes at weld maes chwarae sy'n annog dewrder, her, creadigedd a dychymyg. 'Dyw hyn ddim yn ymwneud â thrawsnewid tirwedd ffisegol yn unig, mae'n ymwneud hefyd â newid ein tirwedd diwylliannol.'

Bu'r datblygiadau hyn yn rhan o welliant sylweddol yn yr ysgol. Cwympodd graddfa gwaharddiadau Thornlie o fod yr uchaf yn Yr Alban i'r sesiwn cyntaf erioed o ddim gwaharddiadau yn 2011/12; yn ystod yr un cyfnod gwelwyd cynnydd cyson mewn lefelau presenoldeb a chyrhaeddiad. Yn ôl David, 'Mae'r gwelliannau ystadegol hyn yn adlewyrchu newid dyfnach mwy ystyrlon sy'n ymwneud ag ethos, perthnasau, morâl a phosibiliadau. Fu cysylltu disgyblion â'u amgylchedd eu hunain, a'u annog i fyfyrio arno o ddifrif, gwneud gwahaniaeth iddo a'i ddefnyddio, erioed yn lle y cwricwlwm – hwn yw y cwricwlwm.'

Yn ddiweddar, derbyniodd yr ysgol adroddiad arolwg arbennig wnaeth gyfeirio'n benodol at eu arfer arloesol gyda chwarae a dysgu yn yr awyr agored.



Plant yn mwynhau eu hawl i chwarae

Thornlie

## Pynciau eraill allai fod yn destun asesu risg-budd

**Mae asesu risg-budd yn offeryn ar gyfer gwella'r broses o lunio penderfyniadau mewn unrhyw gyd-destun ble fo rhaid taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau. Yn ogystal â'r pynciau yr edrychwyd arnynt uchod, gellid defnyddio'r agwedd hefyd i ddelio â'r materion canlynol:**

- **prosesau caffael (gallai'r rhain gynnwys gofynion sy'n gweithio'n erbyn taro cydbwysedd da rhwng risgiau a buddiannau)**

- **gweithgareddau a rhaglenni mewn cyd-destunau dysgu a chwarae â goruchwyliaeth fel meysydd chwarae antur, gwasanaethau gofal plant y tu allan i'r ysgol, sefyllfaoedd blynyddoedd cynnar ac ysgolion**

- **elfennau dŵr fel pyllau, llynnoedd, glannau afonydd, nentydd a chamlesi**

- **tyllau tân, mewn darpariaeth chwarae yn ogystal â mannau chwarae eraill.**

Tra bo'r pynciau y cyfeiriwyd atynt eisoes yn canolbwyntio'n bennaf ar risgiau corfforol, gellir defnyddio'r un agwedd i ymdrin â risgiau cymdeithasol ac eraill. Er enghraifft, mae gan rai awdurdodau lleol bolisi o wneud i ffwrdd â chloddiau, strwythurau amgaeëdig a mannau eistedd mewn ardaloedd chwarae, o ganlyniad i'r risgiau cymdeithasol y credir y byddant yn eu hachosi. Byddant yn ceisio cyfiawnhau hyn trwy ddweud ei fod yn amddiffyn plant rhag dieithriaid, neu ei fod yn darbwyllo eraill rhag defnyddio'r man chwarae at ddibenion amhriodol. Waeth beth fo'r cyfiawnhad, dylai asesu risg-budd helpu gydag adolygu polisïau o'r fath.






Gellir defnyddio asesu risg-budd i daro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau cynnwys nodweddion dŵr, fel y pwll hwn, ym Maes Chwarae Antur Somerford Grove.

Play England – Philip Wolmuth

## Pennu blaenoriaethau ar gyfer rheoli risg

**Elfen ganolog o reoli risg yw pennu blaenoriaethau ar gyfer lliniaru risgiau annerbyniol sy'n bodoli eisoes.**

Mae gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, er enghraifft, bortffolio sylweddol o ardaloedd chwarae. Gall eu darpariaeth gynnwys hen offer sydd mewn cyflwr gwael. Dan yr amgylchiadau hyn mae'n bwysig meddu ar weithdrefnau rheoli risg sy'n pennu blaenoriaethau mewn modd cyson a dibynadwy. Dylai arolygwyr profiadol, annibynnol allu cynnig cyngor a chymorth gyda hyn.



# Pennod 8:

## Datblygu ac atgyfnerthu arfer

Bydd datblygu gweithdrefnau rheoli risg sy'n bodoli eisoes i ymgorffori asesu risg-budd yn gofyn am adolygiad wnaiff arwain at weithdrefnau gaiff eu pennu'n lleol gan y darparwr, gan ystyried amcanion a fframwaith polisi'r darparwr, ac amgylchiadau lleol. Mae'n bwysig ymgynghori â rhieni a gofalwyr lleol, a'u cynnwys mewn trafodaethau am bolisi'r sefydliad ar risg a her mewn darpariaeth chwarae er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr agwedd a fabwysiedir a'r penderfyniadau a wneir.

Phil Heaton
(All Mead Gardens)

Mae'r bennod hon yn dangos sut y gall darparwyr ddatblygu ac atgyfnerthu'r agwedd tuag at reoli risg a amlinellir yn y penodau blaenorol. Y maes sy'n fwyaf tebygol o fod yn newydd i nifer o ddarparwyr yw asesu risg-budd. Un modd o gychwyn y broses yma yw cynnal adolygiad systematig o weithgareddau rheoli risg. Neu, efallai y bydd darparwyr am gyflwyno asesu risg-budd mewn camau.

Mae'r adran hon yn trafod yswiriant, gan gynnwys awgrymiadau ynghylch sut y gall yswiriant a pholisïau a gweithdrefnau rheoli hawliadau helpu i gefnogi agwedd gadarn tuag at asesu risg-budd.

Mae hefyd yn trafod monitro, cyfathrebiadau a beth i'w wneud os aiff pethau o chwith.

### Rhoi asesu risg-budd ar waith

**Tra bo archwiliadau technegol yn arferiad cyffredin i'r mwyafrif o ddarparwyr chwarae a bod llawer yn meddu ar ryw fath o ddatganiad polisi ar risg, dylai pob darparwr, boed yn fach neu fawr, ddatblygu datganiad cytûn ar eu hagwedd tuag at gynnig neu reoli cyfleoedd ar gyfer risg a her mewn darpariaeth chwarae.**

Gallai hyn fod yn rhan o strategaeth neu bolisi chwarae'r sefydliad. Mewn nifer o ardaloedd mae'n bosibl y bydd angen adolygu polisïau chwarae, sy'n newydd neu sy'n bodoli eisoes, er mwyn sicrhau eu bod yn darparu fframwaith polisi risg-budd cwbl eglur. Dylai hyn gynnwys, i ddyfynnu'r Datganiad Lefel Uchel, 'asesiad o'r risgiau fydd, tra'n ystyried buddiannau'r weithgaredd, yn sicrhau bod unrhyw ragofalon yn ymarferol a chymesur ac yn adlewyrchu lefel y risg' (gweler Atodiad 1 isod). I lawer o sefydliadau, mae'n debyg mai'r broses asesu risg-budd sy'n fwyaf tebygol o fod yn newydd iddynt.



## Dylid annog plant, pobl ifainc a rhieni lleol i ddeall yr agwedd tuag at asesu risg-budd.

Unwaith y cytunir ar bolisi rheoli risg ar gyfer darpariaeth chwarae, gellir cyflwyno'r broses asesu risg-budd mewn un o ddwy ffordd. Y ffordd gyntaf fyddai cynnal adolygiad systematig o weithgareddau rheoli risg sy'n bodoli eisoes, gan gytuno ar y broses ddiwygiedig. Gallai adolygiad o'r fath gwmpasu:

- prosesau caffael
- archwiliad rheolaidd, a hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer hyn
- archwiliadau blynyddol ac ôl-osod
- rheolaeth weithredol (glanhau, torri glaswellt, rheolaeth garddwriaethol)
- gwasanaethau warden / ceidwad parc.

Neu, efallai y bydd darparwyr am fabwysiadu agwedd fwy ymatebol, gan gyflwyno asesu risg-budd fel adolygiad o'u gweithdrefnau presennol mewn modd cam-wrth-gam, pan fo materion perthnasol dan ystyriaeth. Er enghraifft, gallai prosiect caffael newydd sbarduno asesiad risg-budd ar rai agweddau o frîff y safle, megis ffensys a ffiniau, elfennau tirweddol, IAS a manyleb offer. Gall adolygiadau gweithrediadol neu drefniadol gynnig cyfleoedd i ddatblygu asesu risg-budd mewn meysydd eraill.

**Gallai prosiect newydd sbarduno asesiad risg-budd ar ffensys a ffiniau, elfennau tirweddol, IAS a manyleb offer.**

Mae Gerddi Stryd Radnor yn Islington yn defnyddio nodweddion chwarae anghyfarwyddol, fel cerrig mawrion a llethrau. Er nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y safonau, gellir eu cynnwys os ydynt wedi bod yn destun asesiad risg-budd priodol.



Tim Gill

## Yswiriant

**Rôl yswiriant yw darparu rhwyd arbed ariannol ar gyfer darparwyr yn sgîl damweiniau neu golledion eraill. Ni ddylai fyth fod yn elfen sy'n gyrru rheolaeth risg. Dylai asesu risg-budd, o'r fath a argymhellir yma, gynorthwyo darparwyr ac yswirwyr i reoli'r nifer o hawliadau a geir.**

Mae'n bwysig bod darparwyr yn chwilio am bolisi yswiriant sy'n ateb eu anghenion unigryw eu hunain. Mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn hanfodol, ac mae'n ofyniad cyfreithiol bod darparwyr sydd â staff yn meddu ar yswiriant atebolrwydd cyflogwyr. Gall broceriaid yswiriant drefnu polisïau, ac mae'n bosibl y gallai arolygwyr meysydd chwarae hyfforddedig, profiadol, sy'n meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion chwarae plant, gynnig cyngor hefyd. Mae'n bosibl y bydd darparwyr yn teimlo ei bod yn ddefnyddiol i rannu profiadau â'i gilydd.

**Mae ambell i awdurdod lleol, a sefydliadau mwy o faint, yn hunanyswiriedig ar gyfer hawliadau hyd at gyfanswm penodol, sy'n cynnig mwy o ryddid i lunio barnau annibynnol.**

Dylai darparwyr adolygu eu trefniadau yswiriant yn rheolaidd. Mae rhai awdurdodau lleol a sefydliadau mwy o faint wedi, i bob diben, eu hunanyswirio ar gyfer hawliadau hyd at gyfanswm penodol, trwy godi'r taliadau dros ben ar eu polisi. Bydd hyn yn rhoi mwy o ryddid iddynt farnu pob achos ar ei rinweddau unigol. Efallai na fydd yr opsiwn yma ar gael i asiantaethau llai o faint sydd ddim yn meddu ar yr adnoddau ariannol i ymdopi â rheoli hawliadau. Fodd bynnag, hyd yn oed yma, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i asiantaethau ddod ynghyd o dan gynlluniau ymbarél i rannu'r risgiau ariannol.



**Prin yw'r hawliadau gaiff eu gwneud sy'n gysylltiedig â darpariaeth chwarae, a cheir llai fyth o achosion ble fo'r llysoedd wedi barnu bod darparwyr chwarae'n esgeulus.**

Dyletswydd y darparwr yw sicrhau bod ei drefniadau yswiriant yn cefnogi gweithredu ei amcanion chwarae allweddol. Er bod tyndra anochel rhwng nôd darparwr chwarae o fwyafu budd cyhoeddus, ac angen cwbl deg yr yswiriwr i greu elw, gellir cysoni'r rhain, fel y dengys profiad Cyngor Dinas Wolverhampton (gweler yr astudiaeth achos isod). Yn ogystal, mae angen i ddarparwyr ac yswirwyr fod yn ymwybodol mai prin yw'r hawliadau gaiff eu gwneud sy'n gysylltiedig â darpariaeth chwarae, a cheir llai fyth o achosion ble fo'r llysoedd wedi barnu bod darparwyr chwarae'n esgeulus. Dylai hyn hysbysu unrhyw drafodaethau ynghylch premiymau, lefelau polisïau yswiriant ac unrhyw amodau ychwanegol.

Mae'r farchnad yswiriant yn destun amrywiadau a thueddiadau cyfnodol all gael effaith pellgyrhaeddol ar y farchnad. Er enghraifft, cynyddodd premiymau ar gyfer yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn sylweddol yn ystod y flwyddyn 2002-03. Er nad oes cytundeb ar y rhesymau penodol, un ffactor oedd y gost uchel i'r sector yswiriant o ateb hawliadau oedd yn ymwneud â materion megis asbestosis a pheryglon diwydiannol eraill, trychinebau naturiol ac ymosodiadau terfysgol. Yn ystod y blynyddoedd canlynol ni wnaeth premiymau gynyddu cymaint, a dysgodd darparwyr bod yswirwyr yn fwy agored i agweddau hyblyg, gydag arwyddion o farchnad fwy agored ar gyfer polisïau.

## Astudiaeth achos: Cyngor Dinas Wolverhampton

Mae agwedd Cyngor Dinas Wolverhampton tuag at risg ac atebolrwydd yn seiliedig ar ddwy egwyddor allweddol: tegwch ac ymrwymiad, sy'n seiliedig ar bolisi, i fwyafu budd cyhoeddus. Mae arfer rheoli risg Wolverhampton yn seiliedig ar y ddealltwriaeth bod angen taro cydbwysedd rhwng risg a budd, a'i bod yn ddyletswydd ar y cyngor i lunio barnau sy'n hybu lles y cyhoedd yn gyffredinol.

Mae Cyngor Wolverhampton yn hunanyswiriedig ar y cyfan o ran ei risgiau atebolrwydd (mae'n cynnal ei gronfa tâl dros ben ei hun o £250,000). Mae'n bolisi gan y cyngor i gyflwyno amddiffyniad cryf yn erbyn unrhyw hawliad ble nad yw'n ystyried ei fod yn atebol. Mae'n bolisi'r cyngor hefyd i dalu am hawliadau'n gyflym ble fo'n barnu ei fod ar fai. Yng ngeiriau'r pennaeth rheoli risg ac yswiriant, mae Cyngor Dinas Wolverhampton wedi datblygu 'diwylliant o amddiffyn hawliadau ond darparu taliad pendant ond teg mewn achosion ble fo'r cyngor yn atebol'.

Delir yn fewnol â phob hawliad. Caiff llunio penderfyniadau ynghylch sut i ymateb i hawliadau ei ddirprwyo i reolwr risg ac yswiriant y cyngor, sy'n gweithio gyda thîm hawliadau mewnol. Gan amlaf, fydd yswirwyr y cyngor ddim yn rhan o'r broses llunio penderfyniadau, er y gellid ymgynghori â hwy pe derbynnir hawliad allai arwain at lefel atebolrwydd sy'n fwy na'r uchafswm hunanyswirio. Fodd bynnag, pur anaml y bydd hyn yn digwydd.

Gweithiodd y cyngor, ynghyd â'r sector gwirfoddol, gyda PLAYLINK i ddatblygu polisi chwarae corfforaethol, traws-sector yn ystod 2005-06. Cafodd aelodau, swyddogion iechyd a diogelwch, cynllunwyr parciau a'r adran chwarae eu cynnwys yn y broses o ffurfio polisi. Bu archwilio agweddau tuag at, a dealltwriaethau ynghylch, risg mewn chwarae'n rhan allweddol o'r broses.

Cymeradwywyd polisi chwarae Wolverhampton, sy'n ymgorffori *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* y Play Safety Forum, gan y cyngor yn 2007. Mae'r polisi chwarae'n cydweddu'n daclus ag agwedd gyffredinol Wolverhampton tuag at reoli risg, a amlinellir uchod.

Sylweddolodd y cyngor na fyddai polisi chwarae'n unig yn ddigon i sicrhau newid diwylliant ymysg y staff sy'n gyfrifol am bob math o ddarpariaeth chwarae. Cydnabyddwyd bod llawer o'r bobl oedd ynghlwm â throsglwyddo cyfleoedd chwarae'n tueddu i 'anelu am ddiogelwch', a bod y 'ffactor ofn' – am hawliadau posibl, ac achwynion gan rieni neu eraill – yn arwain at arfer amddiffynnol.

O ganlyniad, mae'r pennaeth rheoli risg ac yswiriant a'r swyddog chwarae wedi creu rhaglen ddysgu ar risg a chwarae ar gyfer pob aelod o staff y bydd eu penderfyniadau'n effeithio ar ddarpariaeth chwarae. Mae'r rhaglen ddysgu yma'n llunio rhan o strategaeth chwarae'r cyngor, ac mae'n anelu i greu ymarferwyr sy'n ddigon hyderus i lunio barnau ynghylch y cydbwysedd risg-budd yn yr ystod o sefyllfaoedd y byddant yn dod ar eu traws.







Mae arfer rheoli risg Cyngor Dinas Wolverhampton yn seiliedig ar daro cydbwysedd rhwng risg a budd.

Yn y gorffennol roedd y rheini oedd ynghlwm â throsglwyddo cyfleoedd chwarae'n tueddu i 'anelu am ddiogelwch'. Mae rhaglen addysgu wedi rhoi hyder i ymarferwyr lunio penderfyniadau ynghylch barnau risg-budd mewn amrywiol sefyllfaoedd.

Cyngor Dinas Wolverhampton

### Monitro a thrywydd archwiliad

**Mae cadw cofnodion trylwyr yn rhan o unrhyw system rheoli risg gadarn. Yn yr un modd ag asesu risg, bydd synnwyr cyffredin yn helpu i hysbysu penderfyniadau ynghylch yr hyn fydd angen ei gofnodi. Fel y dywed yr HSE, 'dyw rheolaeth risg synhwyrol ddim yn ymwneud â 'chynhyrchu mynyddoedd o waith papur diangen.'**

Y peth pwysicaf i'w fonitro yw perfformiad y ddarpariaeth yn gyffredinol, gan ystyried hefyd risgiau a buddiannau, er mwyn gweld os yw'n gweithio fel y bwriadwyd, neu os oes angen ei addasu.

Bydd monitro manwl yn dangos os oes angen addasu'r asesiad o gwbl.


PlayBoard Northern Ireland



## Dylai asesiadau risg-budd ac archwiliadau technegol gyfeirio at y fframwaith polisi.

Dylai'r fframwaith polisi gael ei amlinellu mewn polisi chwarae. Bydd angen cysylltu archwiliadau technegol a risg-budd â'r fframwaith polisi hwn, a chyfeirio ato. Dylid cadw asesiadau risg-budd ac archwiliadau technegol ysgrifenedig mewn modd fydd yn caniatáu i bobl gael gafael arnynt yn ddidrafferth, a dylid cynllunio'r system yn gyffredinol i ddarparu nodion atgoffa amserol ar gyfer camau gweithredu rheolaidd, fel archwiliadau a gwaith cynnal a chadw. Efallai y byddai defnyddio pecynnau meddalwedd a thechnoleg symudol o gymorth i ddarparwyr sydd â phortffolio sylweddol o fannau chwarae. Mae pecynnau masnachol ar gael at y diben hwn, a dylai arolygwyr meysydd chwarae profiadol allu cynnig cyngor ar y mater.

### Strategaeth cyfathrebiadau

**Dylai darparwyr sicrhau bod gwybodaeth eglur ar bob safle'n nodi pwy i gysylltu â hwy os y bydd problem. Mae arwyddion yn cynnig cyfle hefyd i gyfleu negeseuon i rieni, gofalwyr a phlant am agwedd y darparwr tuag at reoli risg a diogelwch.**




Mae'r arwyddion yn ardaloedd chwarae Walsall yn annog plant i chwarae'n ddiogel ac yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer adrodd am offer wedi ei ddifrodi ac i gynnig adborth.

Play England



Er enghraifft, gallai arwydd gynnwys datganiad cryno *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* y Play Safety Forum (gweler tudalen 109, er mwyn pwysleisio'r ffaith bod y man chwarae wedi ei ddylunio i gynnwys lefel o risg, a bod mân-anafiadau yn arbennig, i'w disgwyl. 'Does gan y fath ddatganiadau fawr ddim neu ddim gwerth o gwbl yn y gyfraith ac nid ydynt yn amddiffyniad yn erbyn hawliadau. Y bwriad yw helpu i gynyddu ymwybyddiaeth ymysg rhieni a gofalwyr ynghylch natur a rôl chwarae ym mywydau plant a datblygiad iach. Bydd hyn yn fonws ychwanegol os yw'n lleihau'r nifer o achwynion a hawliadau anaddas. Dylid cyhoeddi copïau o bolisi chwarae'r darparwr a sicrhau eu bod ar gael ar gais. Dylid wastad ystyried sylwadau ac ymateb iddynt.

Mae arwyddion yn cynnig cyfle i gyfleu negeseuon i rieni, gofalwyr a phlant am agwedd y darparwr tuag at reoli risg a diogelwch.

**Efallai y bydd darparwyr am wneud datganiad cyhoeddus ynghylch eu hagwedd tuag at reoli risgiau, gan bwysleisio'r ffaith bod eu darpariaeth yn anelu i roi cyfle i blant wynebu gwir heriau gyda rhywfaint o risg o anafiadau.**

Mae dadleuon ynghylch goramddiffyn honedig plant a'i effaith ar ddatblygiad plant yn destunau trafodaethau bywiog yn y cyfryngau ac yn gyffredinol. Dylai sylw cadarnhaol yn y cyfryngau gynorthwyo i gyfleu negeseuon gwerthfawr, yn fewnol yn ogystal ag i'r cyhoedd, am yr angen i fabwysiadu agwedd gytbwys.

## Astudiaeth achos: Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn creu trywydd chwarae heriol i ailgysylltu plant â natur.


Yn 2010 adeiladodd Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol drywydd chwarae naturiol ar Box Hill, un o'i gyrchfannau gwledig mwyaf poblogaidd yn ne ddwyrain Lloegr. Defnyddiodd Yr Ymddiriedolaeth asesu risg-budd o'r cychwyn, a thrwy gydol y prosiect.

Y syniad y tu ôl i'r trywydd dwy filltir o hyd yw denu plant a theuluoedd i archwilio'r coedydd, a mwynhau profiadau heriol, anturus. Ar ddechrau'r prosiect cytunodd staff y prosiect, gwirfoddolwyr a chynrychiolwyr o Gyfeillion Box Hill, bod angen mabwysiadu agwedd gytbwys tuag at risg, a chafodd hyn ei adlewyrchu ym manyleb y cynllun. Yn ogystal, cwblhaodd staff Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol asesiadau risg-budd ffurfiol ar yr wyth strwythur gorffenedig, gan nodi eu barn a chofnodi unrhyw faterion adferol a chynnal a chadw yr oedd angen delio â hwy.

Sylweddolodd y rheolwyr eiddo y byddai'n ddefnyddiol, oherwydd natur heriol rhai o'r strwythurau, i gynyddu ymwybyddiaeth cyhoeddus am y prosiect, ac i egluro'r agwedd i deuluoedd oedd yn ymweld â'r safle. Lluniodd y staff gynllun cyfathrebiadau oedd yn cynnwys gwaith gyda'r cyfryngau, cyhoeddusrwydd ar-lein a deunydd wedi ei argraffu. Roedd y deunyddiau hyn yn pwysleisio'r ffaith bod y trywydd yn anelu i fod yn un anturus a heriol. Mae taflen wybodaeth, a ddosberthir yn y ganolfan ymwelwyr, yn egluro, ''Does dim o'r fath beth â bywyd heb heriau. Byddwn yn wynebu rhwystrau a risgiau bob dydd. Bydd goresgyn y problemau hyn yn cyfrannu at y math o berson y byddwn yn y pen draw. Mae ein Trywydd Chwarae Naturiol, a'r wlad o'i amgylch, yn cynnig cyfleoedd gwych i gymryd risgiau ystyriol, byddwch yn ddewr a dysgwch rhai o wersi bywyd. Os y digwydd ichi gwympo, codwch ar eich traed a rhoi tro arall arni.' Mae'n parhau trwy ddweud, 'Rydych yn adnabod y plant sydd yn eich gofal, eu doniau a'u cyfyngiadau. Cofiwch gadw llygad arnynt a sicrhau bod hwn yn parhau i fod yn fan hapus i bawb ei fwynhau.'

Derbyniodd y trywydd sylw cadarnhaol yn y wasg leol cyn ei agor, ac mae bellach yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer teuluoedd. Mae'r agwedd a fabwysiadwyd yma'n cydweddu'n dda ag ymgyrch ddiweddar Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, 'Natural Childhood', a lansiwyd yn 2012, gyda'i rhestr o '50 o bethau i'w gwneud cyn dy fod yn 11¾'.





### Beth i'w wneud os aiff pethau o chwith

**Mae darpariaeth chwarae'n gymharol ddiogel, ac mae damweiniau difrifol o unrhyw fath yn annhebygol yn ystod rhediad arferol y diwrnod. Er hynny, byddant yn digwydd o dro i dro. Ar yr achlysuron prin hynny, mae'n bwysig cynnal adolygiad cytbwys ac agored. Efallai y byddai'n ddefnyddiol ceisio barn arbenigol, annibynnol ar sut y dylid cynnal y broses yma.**

Ddylai adolygiad o'r fath fyth geisio celu ymddygiad gwael, esgeulus neu droseddol posibl ar ran y darparwr. Yn yr un modd, dylai hefyd osgoi ymatebion byrbwyll i drychinebau. Bydd gwir ddamweiniau'n digwydd, ac nid yw'r ffaith i blentyn farw neu ddioddef anaf difrifol neu barhaol yn ei hunan yn profi bod rhywun wedi gwneud rhywbeth o'i le. O ystyried y gadwyn gymhleth o ddigwyddiadau fydd yn arwain at unrhyw ddamwain, mae bron bob amser yn bosibl i ganfod o leiaf un pwynt yn y gadwyn pryd y gellid ystyried, gydag ôl-ddoethineb a gan wybod am y drychineb oedd i ddilyn, bod cam gweithredu neu rywbeth na wnaethpwyd yn ymddangos fel pe bae'n gamgymeriad esgeulus neu feius (Adams 1995). Dylai adolygiadau wastad roi ystyriaeth priodol i'r amgylchiadau a'r materion yr oedd y rheini sy'n llunio barnau a phenderfyniadau'n pryderu amdanynt ar y pryd.



# Adran 3

## Sylwadau terfynol

Play England - Nick Turner



# Pennod 9:

## Yr angen am newid diwylliannol a pholisi

Mae angen i blant a phobl ifainc wynebu risgiau go iawn os ydynt i ymateb mewn modd cadarnhaol i sefyllfaoedd sy'n llawn her, a dysgu sut i ddelio ag ansicrwydd. Ni fydd modd cyflawni hyn trwy eu cyfyngu i amgylcheddau sydd, yn ôl bob tebyg, yn ddiogel. Felly, 'does gan ddarparwyr cyfleoedd chwarae ddim dewis ond cynnig sefyllfaoedd ble y gall plant a phobl ifainc brofi peryglon real, yn hytrach na rhai esgus.

Play England - Philip Wolmuth

Mae'r bennod hon yn trafod rhywfaint o faterion polisi a diwylliannol cyfoes. Mae'r rhain yn ymwneud â: hyfforddiant a rhaeadru gwybodaeth; chwarae naturiol; arfer seiliedig ar dystiolaeth; rôl safonau; rôl y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974; a'r angen i gymdeithas yn gyffredinol fod yn fwy maddeugar.

## Dylai trafodaethau ynghylch risg a budd mewn darpariaeth chwarae gael eu hadolygu'n barhaus.

Bydd angen i'r cydbwysedd rhwng osgoi risg anafiadau a phrofi buddiannau anghenion chwarae gael ei adolygu'n barhaus wrth i brofiadau a disgwyliadau cymdeithas newid. Yn ddiweddar, mae pryderon cyffredin a chynyddol ynghylch cyflwr plentyndod wedi arwyddo bod angen inni edrych ar y mater o'r newydd. Mae'r broses hon wedi dechrau eisoes ac mae bellach yn cyflymu ac yn ennill cyfeiriad mwy sicr.

Os na fyddwn yn caniatáu i blant brofi risg rheoledig, rwy'n pryderu'n arw am ddyfodol iechyd a diogelwch yn y gweithle. Os fydd y genhedlaeth nesaf yn ymuno â'r gweithle wedi eu gwarchod rhag pob risg fe fyddant, heb sôn am fod ofn risg, yn gwbl ddiniwed ynghylch risg – gan greu tasg a phenbleth aruthrol i'w cyflogwyr – sut i gychwyn ar y broses addysgu iechyd a diogelwch honno **neu** i barhau i geisio eu hamddiffyn rhag pob risg fydd, wrth gwrs, yn gwbl anymarferol ac amhosibl.
(Judith Hackitt, Cadeirydd Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch)



Mae adrannau ymarferol y canllaw hwn yn anelu i helpu darparwyr i fod yn fwy llwyddiannus wrth daro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau darparu cyfleoedd i blant a phobl ifainc chwarae, o ystyried y cyd-destun cyfreithiol, polisi a diwylliannol presennol. Fodd bynnag, ceir cyfyngiadau ar yr hyn y gall darparwyr ei wneud, ac efallai y bydd angen rhywfaint o newidiadau mewn agweddau, polisïau ac arfer os ydynt i lwyddo.

### Datblygu arfer

**Os yw'r agwedd tuag at reoli risg a gynigir yn y canllaw hwn i'w mabwysiadu'n gyffredinol, mae'n bosibl y bydd angen rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant a rhaeadru gwybodaeth. Annogir pawb sy'n darparu arweiniad a hyfforddiant i ddarparwyr chwarae i adolygu ac, os yw'n briodol, ddiwygio eu deunyddiau a'u rhaglenni.**

Efallai y gellir addasu rhaglenni hyfforddiant sy'n bodoli eisoes, er na ellir diystyru'r angen am gymorth ychwanegol a mathau newydd o arbenigedd. Mae buddiannau profiadau chwarae, gan gynnwys budd i iechyd a lles plant, angen pwyslais haeddiannol, a dylid ceisio arbenigedd priodol gan gyrff perthnasol.

## Mae rheolaeth risg mewn ardaloedd chwarae naturiolaidd yn llai datblygedig, ac efallai y bydd angen agwedd wahanol i'r un a ddefnyddir wrth ymdrin ag ardaloedd chwarae confensiynol ag offer sefydlog.

Un maes penodol o arfer sydd wedi denu sylw, yw'r tueddiad tuag at greu amgylcheddau chwarae sy'n fwy naturiolaidd, gyda mwy o ddefnydd o nodweddion chwarae anghyfarwyddol megis boncyffion, cerrig mawrion, llethrau, ffosydd a phlanhigion, ynghyd â thywod a dŵr. Caiff y tueddiad hwn ei ystyried fel cam sydd i'w groesawu gan y mwyafrif yn y maes. Fodd bynnag, nid yw rheoli risg yn y math yma o ddarpariaeth wedi ei ddatblygu'n ddigonol, a dim ond rhannol-berthnasol yw'r safonau presennol. Yn ogystal, nid yw arddull a nodweddion hynod amrywiol amgylcheddau o'r fath yn cydweddu â'r math o gyfundrefnu a normaleiddio ddaw, yn anochel, yn sgîl datblygu safonau newydd. Bydd amgylcheddau o'r fath yn galw am agwedd wahanol i'r un a ddefnyddir wrth ymdrin ag ardaloedd chwarae confensiynol ag offer sefydlog.

Elfen arall o ddatblygu arfer y dylid edrych arni yw'r angen am agwedd sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth.

### Cydymffurfio â safonau

Fel y nodwyd eisoes, nid yw'n ofynnol i gydymffurfio â safonau. Fodd bynnag, ceir anhawster diamheuol o anodd yma. Bydd rhai sefydliadau, y llysoedd, a chwmnïau yswiriant yn tueddu i ddefnyddio cydymffurfio â'r safonau fel yr unig dystiolaeth o arfer da. O ganlyniad, efallai y defnyddir peidio â chydymffurfio'n erbyn deiliaid y dyletswydd fel tystiolaeth o fethiant i reoli risg. Mae hon yn sefyllfa anodd, gan y gall feithrin agwedd ddiantur, sy'n rhwystro darparwyr rhag arbrofi â mathau newydd o ddarpariaeth.

Mae angen i sail, rôl a diben safonau i gyd gael eu deall yn fwy cyffredinol. Mae safonau'n ymgorffori barnau anodd ynghylch gwerth am yr hyn sy'n lefel risg derbyniol. Nid yw'r safonau'n honni eu bod yn dileu risg ar wahân, efallai, i ddileu peryglon fel trapiau pennau. Yr ensyniad yw bod safonau'n rhannol oddrychol eu natur, a dylid sylweddoli eu bod yn ymgorffori barnau sy'n seiliedig ar werthoedd, sy'n cynnwys lefel o ansicrwydd. Bydd angen hefyd i safonau gael eu dehongli gan ystyried amgylchiadau lleol. Mewn nifer o sefyllfaoedd, ni ddylid ystyried bod safonau'n cynnig atebion terfynol, ond yn hytrach dylid eu hystyried fel canllaw i'r hyn sy'n rhesymol.

### Polisi cyhoeddus

Barnwyd bod darpariaeth chwarae plant, fel mannau cyhoeddus eraill, yn dod o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 (neu ddeddfwriaeth debyg) ar draws y DU. Mae'n bosibl iawn bod y Ddeddf yn briodol ar gyfer y bobl hynny sy'n gweithio'n y lleoliadau hyn, ond cred rhai arbenigwyr bod rheswm da dros gredu nad yw risgiau cyhoeddus, yn y cyd-destun hwn, yn cael eu diogelu orau gan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974. Mae hyn oherwydd bod y Ddeddf bellach yn cael ei chysylltu â meddylfryd ac agwedd tuag at asesu risg sy'n ei chael yn anodd, ac sy'n aml iawn yn anghofio ystyried buddiannau ochr-yn-ochr â risgiau (Ball a Ball-King, 2011).

Er ei bod yn anos i fesur buddiannau darpariaeth chwarae na mesur anafiadau corfforol, mae pwysigrwydd darparu cyfleoedd chwarae heriol i'r gymuned bellach yn cael ei gydnabod yn gyffredinol a cheir mwy a mwy o dystiolaeth i'w gefnogi.

Hefyd, mae agwedd sy'n canolbwyntio ar leihau risg â'r potensial i niweidio statws rheolaeth risg ei hun. Mae angen cynnal rhagor o drafodaethau ar bolisi cyhoeddus ynghylch y modd y rheolir risg mewn ardaloedd cyhoeddus.



Mae'r 'siglen ffiniol' ym Maes Chwarae Antur Gerddi Slade yn ffefryn mawr gyda'r plant lleol, er bod pawb fel arfer yn gorffen ar y llawr: 'Bydd un person yn dringo ymlaen, ac yna bydd pawb arall yn neidio arnoch chi. Fe allwch chi gael tua chwech o bobl ymlaen …' (PlayToday, 2008)

Chwarae Cymru



## Agweddau tuag at risg: cymdeithas fwy maddeugar?

**Yn y pen draw, saif cyfrifoldeb am ddarpariaeth chwarae, neu am fannau chwaraeadwy, gyda'r darparwr. Bellach mae darparwyr yn cael eu hannog i symud y ffiniau trwy fod yn llai gwrthwynebus i risg er mwyn sicrhau buddiannau ar gyfer plant a phobl ifainc o gael ffordd o fyw sy'n fwy rhydd, bywiog a naturiol. Pan fydd damweiniau'n digwydd, fel sy'n anochel, mae'n bosibl y caiff darparwyr eu galw i gyfrif.**

Efallai mai dim ond trwy arbrofi y gall darparwyr gynnig y cyfleoedd chwarae newydd fydd yn herio'r diwylliant ofn-risg presennol, a gall hyn ynddo'i hun alw am fentro. Bydd asesu cyfleoedd newydd ar gyfer darpariaeth chwarae'n galw am asesu risg-budd, ystyried safonau a chanllawiau tebyg, cyngor arbenigol, profiad o leoliadau eraill a phrofiadau personol a chyfunol. Er gwaethaf hyn i gyd, bydd penderfyniadau'n dal i alw am ddefnyddio barn ddoeth. Gyda rhai cynlluniau, yr unig fodd i'w profi fydd eu rhoi ar waith ac yna monitro a gwerthuso eu risgiau a'u buddiannau. Ond er mwyn cyflawni hyn, cred arbenigwyr bod angen i asiantaethau rheoliddol, gweithwyr diogelwch proffesiynol, yswirwyr, y llysoedd a phleidiau perthnasol eraill, dderbyn nad yw deiliaid y dyletswydd, o anghenraid, yn feius os y ceir canlyniadau negyddol i'r arbrofion hyn.

Mae angen cymdeithas fwy maddeugar sy'n cyfaddef nad yw iechyd a lles plant a phobl ifainc gyfystyr ag atal anafiadau, a bod yr hyn sy'n cael ei ystyried yn rhesymol, tra y dylid gosod pob cam diogelu rhesymol yn ei le, yn anodd iawn i'w broffwydo gydag unrhyw fath o sicrwydd.

**Ceir buddiannau'n sgîl yr agwedd hon ar bob lefel ac ar gyfer pob un sydd ynghlwm â chwarae, ond yn bennaf oll ar gyfer y plant, fydd yn mwynhau profiadau plentyndod hapusach a mwy boddhaol â chyfleoedd cyfoethocach ar gyfer twf iach a datblygu'n oedolion hyderus ac abl.**

## Cyfeiriadau

Adams, J (1995) *Risk*. Llundain: Gwasg UCL.

Ball, D J (2000a) 'Ships in the night and the quest for safety'. *Injury Control and Safety Promotion*, 7, 2, 83-96.

Ball, D J (2000b) Pennod 19 yn McLatchie, G, Harries, M, Williams, C a King, J (2000) *ABC of Sports Medicine*. Rhydychen: BJM Books.

Ball, D J (2002) *Playgrounds – Risks, Benefits and Choices*. Cytundeb Ymchwil, Adroddiad Rhif. 426/2002. Sudbury: HSE Books.

Ball, D J (2004) 'Policy issues and risk-benefit trade-offs of 'safer surfacing' for children's playgrounds', *Accident Analysis & Prevention* 35, 4, 417-424.

Ball, D J (2007) 'Risk and the demise of children's play', Pennod 4 yn *Growing Up with Risk*, Thom, B, Sales, R a Pearce J J (gol). Bryste: The Policy Press.

Ball, D J a Ball-King, L N (2011) *Public Safety and Risk Assessment: Improving decision making*. Llundain ac Efrog Newydd: EARTHSCAN / Routledge.

BSI (1998) *BS EN 1176-1: Playground Equipment – Part 1*. Llundain: Sefydliad Safonau Prydeinig.

BSI (2006) *BS EN 14974: Facilities for users of roller sports equipment*. Safety requirements and test methods. Sefydliad Safonau Prydeinig.

BSI (2007) *BS EN 15312: Free access multi-sports equipment. Requirements, including safety and test methods*. Sefydliad Safonau Prydeinig.

BSI (2008a) *BS EN 1176-1: Playground equipment and surfacing – Part 1: General safety requirements and test methods*. Sefydliad Safonau Prydeinig.

BSI (2008b) *BS EN 1177: Impact absorbing playground surfacing. Safety requirements and test methods*. Sefydliad Safonau Prydeinig.

CEN (2006) *Guide 12: Child Safety: Guidance for its Inclusion in Standards*.

Davis, L, White, A a Knight, J (2009) *Nature play: Maintenance guide*. Llundain: Biwro Cenedlaethol y Plant / Play England.

DfES (2006) *Learning Outside the Classroom Manifesto*. Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau.

DfT (2004) *Road Casualties Great Britain*. Llundain: Yr Adran Drafnidiaeth.

DTI (2005) *The General Product Safety Regulations 2005: Guidance for businesses, consumers and enforcement authorities*. Llundain: Yr Adran Masnach a Diwydiant.

Dunn, K, Moore, M a Murray, P (2003) *Developing Accessible Play Space: A good practice guide*. Gorllewin Swydd Efrog: Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

Eager, D, Nixon, J a Yearley, D (2008) 'Impact Attenuation: The case for natural materials', papur a gyflwynwyd yng nghynhadledd yr International Play Association, Hong Kong.

Earley, D (2008) *Planning and Design for Outdoor Sport and Play*. Llundain: Fields in Trust

Furze, A (2006) *In Praise of Playgrounds*, ar gael ar-lein ar wefan yr Association of Play Industries: www.api-play.org/Archived-News-2006 (agorwyd 5 Rhagfyr 2012).

Gill, T (2006) *Growing Adventure: Final Report to the Forestry Commission*. Bryste: Y Comisiwn Coedwigaeth.

Gill, T (2007) *No Fear: Growing up in a risk averse society*. Llundain: Sefydliad Calouste Gulbenkian.

Gill, T (2012) *Sowing the Seeds: Reconnecting London's Children with Nature*. Greater London Authority.

Gill, T a Sutton, A (2010) *River restoration projects and children's play*, London Play.

Graham, J D a Wiener, J B (1995) *Risk Versus Risk – Tradeoffs in Protecting Health and the Environment*. Cambridge Massachusetts: Gwasg Prifysgol Harvard.

Greater London Authority (2012) *Shaping Neighbourhoods: Children and Young People's Play and Informal Recreation Supplementary Planning Guidance*.

Goodridge, C golygwyd gan Douch, P (2008) *Inclusion by Design: A guide to creating accessible play and childcare environments*. Llundain: KIDS.
Hackett, J, Cadeirydd Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn siarad yn un o ddigwyddiadau'r Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol, 8 Mai 2008; ar gael ar-lein ar: www.hse.gov.uk/aboutus/speeches/transcripts/iosh080508.htm (agorwyd 5 Rhagfyr 2012).

Harrop, P (2006) *Rope swings, Dens, Tree houses and Fires: A risk based approach for managers facilitating self-built play structures and activities in woodland settings*. Bryste: Y Comisiwn Coedwigaeth.

HSE (2006) *Five Steps to Risk Assessment*; ar gael ar-lein ar wefan yr HSE ar: www.hse.gov.uk/pubns/indg163.pdf (agorwyd 5 Rhagfyr 2012).

HSE (2007) *Managing Health and Safety in Construction: Construction (Design and Management) Regulations 2007.* (CDM) Approved Code of Practice. Sudbury: HSE Books.

Dyfarniad yn Nhŷ'r Arglwyddi, *Tomlinson v Congleton* (2003) UKH*47 ar gael ar-lein ar: www.publications.parliament.uk/pa/ld200203/ldjudgmt/jd030731/tomlin-1.htm (agorwyd 5 Rhagfyr 2012).

Houston, L, Worthington, R a Harrop, P (2006) *Design Guidance for Play Spaces*. Ar gael ar wefan Y Comisiwn Coedwigaeth: www.forestry.gov.uk/england-play (agorwyd 5 Rhagfyr 2012).

Jarvis, S, Towner, E a Walsh, S (1995) Pennod 6 yn *The Health of our Children – Decennial supplement,* Botting, B (gol). Llundain: OPCS.

John, A a Wheway, R (2004) *Can Play, Will Play: Disabled children and access to outdoor playgrounds.* Llundain: National Playing Fields Association.

Jones, M (2000) *A Textbook on Torts*, 7ed argraffiad. Llundain: Gwasg Blackstone.

Khambalia, A et al (2006) 'Risk factors for unintentional injuries due to falls in children aged 0-6 years: a systematic review', *Injury Prevention*, 12, 378-385.

Lester, S a Maudsley, M (2006) *Play Naturally: A review of children's natural play.* Llundain: Biwro Cenedlaethol y Plant / Play England.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael ar-lein ar: http://wales.gov.uk/dcells/publications/policy_strategy_and_planning/early-wales/playpolicy/playpolicyw.pdf?lang=cy (agorwyd 16 Mawrth 2013)

Murray, L a Sutton, A (heb ei ddyddio) *Children's tree swings: A guide to good practice.* Llundain: London Play.

NPFA, Children's Play Council a PLAYLINK (2000) *Best Play: What play provision should do for children.* Llundain: National Playing Fields Association.

Norton, C Nixon, P a Sibert JR (2004) 'Playground injuries to children', *Archives of Disease in Childhood.* 89, 2, 103-108. Planet Earth Ltd (2010) *Play with Rainwater and Sustainable Drainage.* Llundain: London Play.

Planet Earth Ltd (2010) *Play with Rainwater and Sustainable Drainage.* Llundain: London Play.

PLAYLINK (1997) *Risk and Safety in Play: The law and practice for adventure playgrounds.* Llundain: PLAYLINK.

PLAYLINK (2006) *'Negligence, play and risk – legal opinion',* ar gael ar-lein ar: www.playlink.org.uk/articles/?p=8 (agorwyd 5 Rhagfyr 2012).

PLAYLINK (heb ei ddyddio): *Play policy development,* ar gael ar-lein ar: www.playlink.org/services/policy_and_strategy/play_policy_development.html (agorwyd 5 Rhagfyr 2012)

Play Safety Forum (2002) *Managing risk in play provision: A position statement.* Llundain: Biwro Cenedlaethol y Plant / Play England, ail-argraffwyd Mehefin 2008. Ar gael ar-lein ar: www.playengland.org.uk/resources (agorwyd 5 Rhagfyr 2012).

*PlayToday* (2008) 'What are you playing at!', *PlayToday,* 62, Mai 2008.

Pwyllgor Dethol ar Faterion Economaidd (2006) *Government Policy on the Management of Risk.* Ar gael i'w lawrlwytho ar ffurf pdf: www.publications.parliament.uk/pa/ld200506/ldselect/ldeconaf/183/183i.pdf (agorwyd 5 Rhagfyr 2012).

Shackell, A, Butler, N a Ball, D (2008) *Design for Play: A guide to creating successful play spaces.* Llundain: Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, Yr

Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a Play England.

Sutton, A, Wheway, R a Richardson, G (heb ei ddyddio) *Fallen trees as climbing structures in playgrounds*. Llundain: London Play.

Towner E, E, Dowswell, T, Mackereth C a Jarvis S (2001) *What works in preventing unintentional injuries in children and young adolescents? An updated systematic review.* Llundain: Asiantaeth Datblygu Iechyd.

Trysorlys ei Mawrhydi (2013) *The Green Book*. Llundain: TSO.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **API** | Association of Play Industries |
| **BSI** | Sefydliad Safonau Prydeinig (British Standards Institution) |
| **CEN** | Pwyllgor Safoni Ewropeaidd (European Committee for Standardisation / Comité Européen de Normalisation) |
| **DDA** | Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Disability Discrimination Act) |
| **DfE** | Yr Adran Addysg (Department for Education) |
| **HSC** | Y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (Health and Safety Commission) a (gyfunwyd gyda'r HSE yn 2008) |
| **HSE** | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (Health and Safety Executive) |
| **HSENI** | Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dros Ogledd Iwerddon (Health and Safety Executive for Northern Ireland) |
| **IAS** | Arwynebau lleddfu ardrawiadau (Impact attenuating surfacing) |
| **IMSPA** | Institute for the Management of Sport and Physical Activity |
| **PSF** | Play Safety Forum |
| **RPII** | Register of Play Inspectors International |
| **RRAC** | Risk and Regulation Advisory Council |

# Atodiad 1:

## Datganiad Lefel Uchel gan y Play Safety Forum a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch



MKPA

# Chwarae a hamdden plant: Hyrwyddo agwedd gytbwys

1. Weithiau caiff deddfau a rheoliadau iechyd a diogelwch eu cyflwyno fel rheswm dros beidio â chefnogi gweithgareddau hamdden a chwarae penodol y bydd plant a phobl ifainc yn eu dewis. Mae'r rhesymau am y camddealltwriaethau hyn yn amrywiol a niferus. Maent yn cynnwys ofn ymgyfreithiad neu erlyniad troseddol gan na chafodd y risg mwyaf dibwys ei ddileu. Gall y gwaith papur sydd ei angen beri rhwystredigaeth a chamddealltwriaeth ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud i reoli risgiau sylweddol.

2. Bwriad y datganiad hwn yw cyfleu negeseuon eglur sy'n mynd i'r afael â'r camddealltwriaethau hyn. Yn y datganiad hwn, mae'r HSE yn egluro ei fod, fel corff rheolyddol, yn cydnabod buddiannau caniatáu i blant a phobl ifainc o bob oed a gallu i gael cyfleoedd chwarae heriol.

3. Mae'r HSE yn llwyr gefnogol o ddarpariaeth chwarae ar gyfer pob plentyn mewn amrywiol amgylcheddau. Mae'r HSE yn deall ac yn derbyn fod hyn yn golygu y bydd plant yn aml yn dod ar draws amgylcheddau chwarae fydd, er eu bod yn cael eu rheoli'n dda, yn cynnwys elfen o risg ac, weithiau, beryglon posibl.

4. Mae'r HSE am sicrhau nad yw cambryderon am iechyd a diogelwch yn creu amgylcheddau chwarae sterilaidd, di-her ac o'r herwydd yn atal plant rhag ehangu eu dysg ac ymestyn eu doniau.

5. Mae'r datganiad hwn yn darparu darlun eglur, ar gyfer pob un sydd â rhan yn y gwaith o annog plant i chwarae, o safbwynt yr HSE ar y materion hyn. Mae'r HSE am annog ffocws ar reolaeth synhwyrol a chymesur o risgiau real yn hytrach nag ar waith papur diangen. Mae prif ddiddordeb yr HSE mewn gwir risgiau sy'n codi'n sgîl tor-cyfraith difrifol a byddwn yn targedu ein hymchwiliadau ar y materion hyn.

### Cydnabod buddiannau chwarae

*Neges allweddol:* 'Mae chwarae'n wych ar gyfer lles a datblygiad plant. Tra'n cynllunio a darparu cyfleoedd chwarae, y nod fydd nid dileu risg, ond pwyso a mesur y risgiau a'r buddiannau. Fydd yr un plentyn yn dysgu am risg os yw wedi ei lapio mewn gwlân cotwm.'

6. Mae'r HSE yn sylweddoli'n llwyr bod chwarae'n dod â'r byd yn fyw i blant. Mae'n darparu ar gyfer archwilio ac ennill dealltwriaeth o'u doniau; yn eu helpu i ddysgu a datblygu; ac yn eu cyflwyno i realaeth y byd y maent yn byw ynddo, sef byd sydd ddim yn rhydd o risg ond, yn hytrach, yn fyd ble y mae risg yn fythol bresennol. Mae'r cyfle i chwarae'n datblygu ymwybyddiaeth plentyn o risg ac yn ei baratoi ar gyfer bywyd i'r dyfodol.

7. Fydd taro'r cydbwysedd cywir rhwng amddiffyn plant rhag y risgiau mwyaf difrifol a chaniatáu iddynt elwa o chwarae ddim yn rhwydd bob amser. Nid yw'n golygu dileu risgiau. Ac nid yw'n ymwneud â dulliau cymhleth o fesur risgiau a buddiannau chwaith. Yn ei hanfod, mae chwarae'n weithgaredd ddiogel a buddiol. Barn synhwyrol oedolion yw'r cyfan sydd ei angen, yn gyffredinol, i gael y buddiannau gorau ar gyfer plant tra'n sicrhau nad ydynt yn wynebu risgiau diangen. Wrth lunio'r farn yma, mae safonau diwydiannol fel EN 1176 yn cynnig meincnodau all fod o gymorth.

8. Bydd taro'r cydbwysedd cywir yn golygu:

- Pwyso a mesur risgiau a buddiannau pan yn dylunio a darparu gweithgareddau a chyfleoedd chwarae.
- Canolbwyntio ar a rheoli'r risgiau mwyaf difrifol, a'r rheini sydd ddim o fudd i'r weithgaredd chwarae neu sydd ddim yn bosibl i'r defnyddiwr eu rhagweld.
- Sylweddoli y gallai cyflwyno risg fod yn rhan o weithgareddau a chyfleoedd chwarae.
- Deall nad dileu pob risg yw bwriad rheoli risg, a thrwy hynny dderbyn na ellir dileu'r posibilrwydd o anafiadau difrifol neu angheuol, er y dylid eu rheoli.
- Sicrhau y caiff buddiannau chwarae eu profi'n llawn.

9. Fydd taro'r cydbwysedd cywir ddim yn golygu:

- Bod rhaid i bob risg gael ei ddileu neu ei leihau'n barhaus.
- Bod rhaid i bob agwedd o ddarpariaeth chwarae gael ei amlinellu mewn pentyrrau o waith papur, fel rhan o 'rwyd diogelwch' gamsyniol.

[2] Mae'r Llysoedd wedi ei gwneud yn gwbl eglur, pan fydd y ddeddf iechyd a diogelwch yn cyfeirio at 'risgiau', nad yw'n ystyried risgiau sy'n ddibwys neu'n dybiedig. Nid yw'n fwriad i lethu cyflogwyr â phwysau sy'n gwbl afresymol (R v Chargot (2009) 2 All ER 660 [27]).

- Y dylid defnyddio asesiadau manwl, sydd wedi eu hanelu ar gyfer gweithgareddau chwarae llawn risg, ar gyfer gweithgareddau risg isel.

- Anwybyddu risgiau sydd ddim yn fuddiol neu'n rhan annatod o'r weithgaredd chwarae, megis risgiau sy'n bodoli oherwydd diffyg cynnal a chadw offer.

- Na fydd camgymeriadau a damweiniau'n digwydd.

### Yr hyn y dylai rhieni a chymdeithas ei ddisgwyl oddi wrth ddarparwyr chwarae

Neges allweddol: 'Dylai'r rheini sy'n darparu cyfleoedd chwarae ganolbwyntio ar reoli gwir risgiau, tra'n sicrhau neu'n cynyddu'r buddiannau – ac nid ar y gwaith papur'.

10. Dylai darparwyr chwarae[3] ddefnyddio eu harbenigedd a'u barn eu hunain yn ogystal â barn eraill, ble fo'n briodol, er mwyn sicrhau bod yr asesiadau a'r rheoliadau arfaethedig yn gymesur â'r risgiau dan sylw.

11. Dylent gyfathrebu beth yw'r rheoliadau hyn, pam fod eu hangen a thrwy hynny sicrhau fod pawb yn canolbwyntio ar y risgiau sydd o bwys.

12. Mae'n bwysig bod trefniadau darparwyr yn sicrhau:

- Nad yw agweddau buddiol chwarae – a bod plant yn cael wynebu lefel o risg a her – yn cael eu lleihau'n ddiangen.

- Bod asesiadau a barn yn canolbwyntio ar y risgiau real, ac nid ar y dibwys a'r tybiedig.

- Bod rheoliadau'n gymesur a, thrwy hynny, yn adlewyrchu lefel y risg.

13. Er mwyn cynorthwyo gyda rheoli risgiau mewn modd synhwyrol a chymesur, cynhyrchodd y sector chwarae gyhoeddiad o'r enw *Managing Risk in Play Provision: Implementation guide* sy'n cynnig arweiniad ar reoli risg mewn chwarae. Yr agwedd a geir yn y canllaw hwn yw y caiff risgiau a buddiannau eu hystyried ochr-yn-ochr â'i gilydd mewn asesiad risg-budd. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r risgiau fydd, tra'n ystyried buddiannau'r weithgaredd, yn sicrhau bod unrhyw ragofalon yn ymarferol a chymesur ac yn adlewyrchu lefel y risg. Mae'r HSE yn cefnogi'r canllaw hwn, fel agwedd synhwyrol tuag at reoli risg.

### Os aiff pethau o le

Neges allweddol: 'Bydd damweiniau a chamgymeriadau'n digwydd yn ystod chwarae – ond bod ofn cael eich dwyn i gyfraith a chael eich erlyn bellach y tu hwnt i bob rheswm.'

14. Disgwylir i ddarparwyr chwarae ddelio â risg mewn modd cyfrifol, synhwyrol a chymesur. Mewn gwirionedd, mae damweiniau difrifol o unrhyw fath yn annhebyg iawn. Ar yr achlysuron prin pan aiff pethau o le, bydd yn bwysig gwybod sut i ymateb yn gywir i'r digwyddiad ac i gynnal adolygiad cytbwys, agored.

15. Yn yr achosion mwyaf difrifol o fethu cyflawni eich dyletswydd, bydd erlyniad, yn gwbl gywir, yn dal i fod yn bosibilrwydd, ac ni ellir ei ddiystyru'n llwyr. Fodd bynnag, nid yw'r posibilrwydd yma'n golygu y dylai darparwyr chwarae ddileu hyd yn oed y risgiau mwyaf dibwys. Cyn belled â bod camau synhwyrol a chymesur wedi eu cymryd, mae'n annhebyg iawn y caiff y ddeddf iechyd a diogelwch ei thorri, neu y byddai er lles y cyhoedd i ddwyn erlyniad.


[3] Mae darparwyr chwarae'n cynnwys y rheini sy'n rheoli neu'n darparu gweithgareddau neu gyfleusterau chwarae mewn parciau, lleiniau gwyrddion, meysydd chwarae antur, cynlluniau chwarae gwyliau, ysgolion, clybiau ieuenctid, canolfannau adloniant i deuluoedd a darpariaeth gofal plant.

# Atodiad 2:

## Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Datganiad Sefyllfa (2002)

Datganiad cryno

Mae plant angen, ac eisiau, cymryd risgiau pan fyddant yn chwarae. Mae darpariaeth chwarae'n anelu i ymateb i'r anghenion a'r dymuniadau hyn trwy gynnig amgylcheddau heriol, symbylol i blant ar gyfer archwilio a datblygu eu doniau. Wrth wneud hyn, bydd darpariaeth chwarae'n anelu i reoli'r lefel o risg fel nad yw plant yn wynebu risgiau annerbyniol marwolaeth neu anafiadau difrifol.



Play England – Philip Wolmuth

Mae'r adran hon yn cynnwys trosiad o destun gwreiddiol datganiad sefyllfa'r Play Safety Forum, *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae*, a gyhoeddwyd yn 2002. Nid yw'n grynodeb o'r canllaw gweithredu hwn ac nid yw'n ddatganiad gan y llywodraeth.

**'Rydym yn ystyried bod *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* yn ddogfen bwysig fydd yn cyfrannu at y ddadl ar ddarpariaeth chwarae plant.'**

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch



### Cyflwyniad

Cynhyrchodd y Play Safety Forum, grŵp o asiantaethau cenedlaethol sy'n ymwneud â diogelwch chwarae, *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* i gefnogi gwaith y rheini sydd ynghlwm â darpariaeth chwarae o unrhyw fath – er enghraifft ardaloedd chwarae, meysydd chwarae, meysydd chwarae antur, canolfannau chwarae a chynlluniau chwarae gwyliau. Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol, gwneuthurwyr offer chwarae ac asiantaethau archwilio.

Mae'r datganiad yn berthnasol hefyd i sefyllfaoedd ac amgylcheddau eraill ble fo plant yn chwarae, megis darpariaeth gofal plant, ysgolion, parciau a mannau agored cyhoeddus. Bydd o ddiddordeb hefyd i'r rheini sy'n ymwneud ag yswiriant ac ymgyfreithiad yng nghyd-destun darpariaeth chwarae. Mae'r datganiad yr un mor berthnasol i blant a phobl ifainc o bob oedran, o'u geni i 18 mlwydd oed, a defnyddia'r term 'plant' i gwmpasu'r ystod oedran gyflawn. Mae'n canolbwyntio ar anafiadau corfforol o ganlyniad i ddamweiniau. Fodd bynnag, mae'r agwedd gyffredinol, sef y dylid taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau, yn berthnasol hefyd i asiantaethau sy'n ymwneud â materion eraill, megis diogelwch personol plant.

Mae'r datganiad yn cynnwys y crynodeb uchod a'r datganiad llawn canlynol. Nod y crynodeb yw nodi pwyntiau allweddol y datganiad llawn mewn modd mwy hygyrch, ar gyfer cynulleidfa annhechnegol.

### Cyd-destun

Ceir pryder cynyddol ynghylch y modd y byddwn yn ymdrin â diogelwch mewn darpariaeth chwarae plant. Mae ofn ymgyfreithiad yn arwain llawer o ddarparwyr chwarae i ganolbwyntio ar leihau'r perygl o anafiadau ar draul amcanion eraill sy'n fwy sylfaenol. Yr effaith yw atal plant rhag mwynhau ystod iach o gyfleoedd chwarae, gan gyfyngu ar eu mwynhad ac achosi canlyniadau niweidiol posibl i'w datblygiad.

Mae'r agwedd hon yn anwybyddu tystiolaeth glir bod chwarae mewn darpariaeth chwarae'n weithgaredd â lefel risg cymharol isel ar gyfer plant. O'r oddeutu dau filiwn o achosion o ddamweiniau mewn plentyndod gafodd eu trin gan ysbytai bob blwyddyn, mae llai na dwy y cant ohonynt yn ymwneud ag offer meysydd chwarae. Bydd cymryd rhan mewn chwaraeon fel pêl-droed, gaiff ei gydnabod yn gyffredinol fel elfen 'dda' ar gyfer datblygiad plant, yn golygu mwy o risg o anafiadau nag ymweld â maes chwarae. Mae damweiniau angheuol ar feysydd chwarae'n brin iawn – tua un bob tair neu bedair blynedd ar gyfartaledd. Mae hyn yn cymharu â, er enghraifft, dros 100 o achosion o ddamweiniau angheuol i blant bob blwyddyn a dros 500 o ddamweiniau angheuol i blant yn gyffredinol (Ball, 2002).

Mewn ymateb i'r sefyllfa hon, ac er mwyn sicrhau bod anghenion a dymuniadau plant yn cael eu cydnabod yn gywir, mae'r Play Safety Forum wedi paratoi'r datganiad hwn..

### Rheoli risg mewn darpariaeth chwarae, datganiad y Play Safety Forum

### Risg derbyniol ac annerbyniol

Ceir elfen o risg mewn unrhyw weithgarwch dynol. Mae tair ffactor yn ganolog i bennu os yw lefel y risg yn dderbyniol neu'n oddefadwy ai peidio:

- tebygolrwydd cael eich niweidio
- difrifoldeb y niwed hwnnw
- buddiannau, gwobrau neu ganlyniadau'r weithgaredd.

Caiff barnau ynghylch derbynioldeb risg eu ffurfio ar sail asesiad risg. Nid yw asesu a rheoli risg yn brosesau mecanistig. Maent, yn hanfodol, yn cynnwys llunio barn ynghylch derbynioldeb yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau. Hyd yn oed ble fo risg o anaf angheuol, neu anaf fyddai'n creu anabledd parhaol,

efallai y gall y risg yma fod yn oddefadwy weithiau. Er enghraifft, mae mynd i badlo ar lan y môr yn cynnwys risg anochel o anaf angheuol, ond mae'r risg yma'n oddefadwy i'r mwyafrif o bobl oherwydd, yn y mwyafrif o achosion, mae'r tebygrwydd o gael eich niweidio'n isel iawn a cheir buddiannau amlwg. Mae ffactorau cymdeithasol a seicolegol hefyd yn bwysig mewn asesiadau risg. Mae'n bosibl y bydd risgiau sy'n dderbyniol mewn un gymuned yn annerbyniol mewn cymuned arall, a dylai polisïau ystyried hyn.

Mae bron pob amgylchedd yn cynnwys peryglon neu ffynonellau niweidiol. Mewn llawer o achosion gellir cyfiawnhau presenoldeb peryglon, efallai oherwydd eu bod yn amhosibl i'w dileu neu efallai oherwydd y byddai eu dileu'n achosi canlyniadau annerbyniol neu y byddai'n rhy gostus. Ble y gellir cyfiawnhau presenoldeb perygl, dylid gosod camau yn eu lle i'w reoli. Mewn amgylchedd a reolir, fel gweithle neu faes chwarae, mae gofyn i'r rheini sy'n gyfrifol, yn ôl y gyfraith, i ddynodi a llunio barnau deallus am y peryglon y bydd pobl yn eu wynebu. Bydd rhaid iddynt gymryd camau i sicrhau bod y risgiau'n cael eu rheoli, cyn belled â bo'n rhesymol ymarferol, tra'n caniatáu i'r buddiannau posibl gael eu trosglwyddo.

### Plant a risg

Mae pob plentyn angen ac eisiau cymryd risgiau er mwyn archwilio ffiniau, mentro i brofiadau newydd a datblygu eu doniau, o oedran ifanc iawn ac o'u profiadau chwarae cynharaf. Fyddai plant fyth yn dysgu sut i gerdded, dringo'r grisiau neu mynd ar gefn beic oni bai eu bod ag ysgogiad cryf i ymateb i heriau sy'n cynnwys risg o anaf. Mae gan blant anabl angen tebyg, os nad mwy, i gael cyfleoedd i gymryd risg, gan ei bod yn bosibl na fyddant yn cael y rhyddid dewis y mae eu cyfoedion, sydd ddim yn anabl, yn ei fwynhau.

Mae'n swyddogaeth pawb sy'n gyfrifol am blant sy'n chwarae i asesu a rheoli lefel y risg, fel bod plant yn cael cyfle i ymestyn eu hunain, profi a datblygu eu doniau heb wneud iddynt wynebu risgiau annerbyniol. Mae hyn yn rhan o gyfrifoldeb cymdeithasol ehangach oedolion dros blant. Os na fyddwn yn darparu cyfleoedd wedi eu rheoli ar gyfer plant i wynebu a rheoli risg, yna efallai na fyddant yn cael cyfle i ddysgu'r sgiliau hyn. Mae'n bosibl hefyd y byddant yn fwy tebygol o ddewis chwarae mewn amgylcheddau heb eu rheoli ble fo'r risgiau'n fwy.

Mae unrhyw anaf yn peri gofid i blentyn ac i'r rheini sy'n gofalu amdanynt, ond mae wynebu risg anafiadau a phrofi mân-anafiadau mewn gwirionedd yn rhan arferol o blentyndod. Bydd profiadau o'r fath â rôl cadarnhaol yn natblygiad plant hefyd. Pan fydd plant yn profi neu'n dyst i anaf byddant yn ennill profiad uniongyrchol o ganlyniadau eu gweithredoedd a'u dewisiadau, a thrwy hynny ddealltwriaeth o fesur eu doniau a'u cymhwyseddau. Fodd bynnag, mae plant yn haeddu cael eu hamddiffyn yn erbyn anafiadau angheuol neu anafiadau sy'n achosi anabledd parhaus, i raddfa fwy nag oedolion.

Mae plant yn meddu ar ystod o gymwyseddau a doniau corfforol, yn cynnwys gallu cynyddol i asesu a rheoli risg, y gellid dadlau y bydd oedolion yn dueddol o'u tanbrisio. Fodd bynnag, bydd plant, fel arfer, â llai o brofiad nag oedolion o asesu'r ystod eang o risgiau a pheryglon y gallent ddod ar eu traws. Felly mae'n bwysig sicrhau eu bod yn cael amgylcheddau â rheolaeth priodol ble y gallant ddysgu am risg.

### Darpariaeth chwarae a risg

Mae cymryd risg yn nodwedd allweddol o ddarpariaeth chwarae, ac o bob amgylchedd ble y bydd plant, yn gwbl dderbyniol, yn treulio amser yn chwarae. Mae darpariaeth chwarae'n anelu i gynnig cyfle i blant wynebu risgiau derbyniol fel rhan o amgylchedd dysgu symbylol, heriol sydd wedi ei reoli. Yng ngeiriau cyhoeddiad y sector chwarae *Best Play*, dylai darpariaeth chwarae anelu i 'reoli'r cydbwysedd rhwng yr angen i gynnig risg a'r angen i gadw plant yn ddiogel rhag niwed'. Tra y gellir cymhwyso'r un egwyddorion o reoli diogelwch i weithleoedd yn gyffredinol a darpariaeth chwarae, mae'r cydbwysedd rhwng diogelwch a buddiannau'n debygol o fod yn wahanol yn y ddau amgylchedd yma. Mewn darpariaeth chwarae, gall wynebu rhywfaint o risg fod o fudd: mae'n diwallu angen dynol sylfaenol ac yn rhoi cyfle i blant ddysgu am wir ganlyniadau cymryd risg.

Felly, mae'n dderbyniol y bydd plant, mewn darpariaeth chwarae, yn wynebu risg mân-anafiadau fydd yn gwella'n gyflym, fel cleisiau, crafiadau neu ysigiadau. Ar y llaw arall, ni ddylai darpariaeth chwarae adael i blant wynebu tebygolrwydd sylweddol anabledd parhaus neu anafiadau angheuol. Fodd bynnag, o dro i dro gall fod yn anochel y bydd darpariaeth chwarae'n achosi i blant wynebu risg – y risg isel iawn – o anaf difrifol neu hyd yn oed farwolaeth. Ond, fyddai hyn ond yn oddefadwy dan yr amgylchiadau canlynol:

- bod y tebygolrwydd yn hynod o isel
- bod y peryglon yn amlwg i ddefnyddwyr
- bod buddiannau amlwg
- y byddai lleihau'r risg ymhellach yn dileu'r buddiannau
- bod dim ffyrdd ymarferol, rhesymol ar gyfer rheoli'r risg.

Er enghraifft, mae pwll padlo, hyd yn oed os yw'n fas, yn cynnwys risg isel iawn, ond amhosibl i'w dileu, o foddi (hyd yn oed gyda goruchwyliaeth rhiant) ond mae hyn, fel arfer, yn oddefadwy. Mae'r tebygolrwydd, yn gyffredinol, yn isel iawn; mae'r perygl yn gwbl amlwg; mae'r plant yn cael budd o'u boddhad a thrwy brofi dysgu chwarae â dŵr; ac yn olaf, fydd rheoli neu leihau'r risg ymhellach ddim yn ymarferol heb ddileu'r buddiannau.



Dylai darparwyr daro cydbwysedd rhwng y risgiau a'r buddiannau. Dylid gwneud hyn ar sail asesiad risg. Yn allweddol, dylai'r asesiad risg yma gynnwys cyfaddawd risg-budd rhwng diogelwch a nodau eraill, y dylid eu nodi'n glir ym mholisi'r darparwr. Gan gofio am awydd plant i gymryd risg, un ffactor y dylid ei hystyried yw'r tebygolrwydd y bydd plant yn chwilio am risg yn rhywle arall, mewn amgylcheddau sydd heb eu rheoli na'u dylunio ar eu cyfer, os nad yw'r ddarpariaeth chwarae'n ddigon heriol. Ffactor arall yw'r dysg all ddigwydd pan fo plant yn dod ar draws, ac yn gorfod dysgu i ddelio â pheryglon amgylcheddol. Mae darpariaeth chwarae mewn sefyllfa unigryw, ble y gall gynnig cyfle i blant ddysgu am risg mewn amgylchedd a ddyluniwyd at y diben hwnnw, ac o'r herwydd gall helpu plant i ymbaratoi ar gyfer delio â pheryglon tebyg yn y byd mawr yn gyffredinol.

### Arfer da

Polisïau clir, dealladwy, ynghyd â gweithdrefnau sy'n rhoi'r polisïau hyn ar waith, yw elfennau allweddol arfer da wrth reoli risg mewn darpariaeth chwarae. Dylai polisïau ddatgan yn gwbl eglur yr amcanion terfynol. Dylai gweithdrefnau, gan gynnwys asesu risg, ddatgan sut y caiff y polisïau hyn eu rhoi ar waith, gan nodi canllawiau ond hefyd gydnabod yr angen am farn broffesiynol wrth bennu'r cydbwysedd cywir rhwng diogelwch a nodau eraill. Mae barnau o'r fath yn amlwg yn aml-ddisgyblaethol eu natur. Er enghraifft, tra eu bod, o bosibl, yn cynnwys elfen fecanistig, mae gwybodaeth am ddatblygiad plant a chwarae ei hun yn debygol o fod cyn bwysiced, os nad yn bwysicach fyth. Mae gan y Children's Play Information Service wybodaeth am ffynonellau arweiniad awdurdodol, perthnasol ar arfer da.

Un agwedd werthfawr tuag at reoli risg mewn darpariaeth chwarae yw gwneud y risgiau mor amlwg â phosibl i'r plant. Golyga hyn ddylunio mannau ble fo'r risg o anaf yn codi o beryglon sy'n gwbl amlwg i'r plant (fel uchder), a ble fo peryglon nad ydynt yn amlwg i'r plant (fel offer allai drapio pen) yn absennol. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn sefyllfaoedd heb oruchwyliaeth, ble fo rhaid i gynllun yr offer a'r gofod yn gyffredinol wneud y rhan fwyaf o'r gwaith wrth gyflawni agwedd gytbwys tuag at risg.

# Casgliad



Nid yw diogelwch mewn darpariaeth chwarae'n absoliwt ac ni ellir delio ag o ar ei ben ei hun. Mae darpariaeth chwarae'n bwysicach na dim arall i blant, ac os nad yw'n gyffrous ac yn ddeniadol iddynt, yna bydd yn methu, waeth pa mor 'ddiogel' y mae. Bydd rhaid i ddylunwyr, rheolwyr a darparwyr gytuno i gyfaddawdu er mwyn cyflawni'r nodau hyn, all wrthdaro o dro i dro. Bydd y cyfaddawdu hyn yn fater o farn yn hytrach nag asesu mecanistig. Dylid seilio barnau ar agweddau cymdeithasol yn ogystal ag ar farn arbenigol, eang a hysbysir gan arfer da cyfoes. Dylent fod wedi eu gwreiddio'n gadarn mewn amcanion sy'n ymwneud â budd a mwynhad plant. A dylent ystyried hefyd bryderon rhieni. Yn y pen draw, dylai sail y barnau hyn gael ei egluro ym mholisïau'r darparwr chwarae yn unol â'r hyn a nodir mewn dogfennau polisi. Dylai'r polisïau hyn, yn eu tro, gael eu deall a'u rhoi ar waith gan yr holl randdeiliaid allweddol.

**"Rydym yn ystyried bod *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: datganiad sefyllfa* yn ddogfen bwysig fydd yn cyfrannu at y ddadl ar ddarpariaeth chwarae plant. Mae'n cyfleu'r cydbwysedd rhwng y budd a'r angen i blant chwarae, yn erbyn dyletswydd darparwyr chwarae i ddarparu chwarae diogel. Mae'n datgan yn gwbl eglur y dylid ystyried diogelwch ar bob cam o ddarpariaeth chwarae ond y bydd, yn anorfod, risg o anafiadau pan fo plant yn chwarae, fel y bydd risg o anafiadau mewn bywyd yn gyffredinol. Ddylen ni ddim colli golwg ar rôl datblygiadol pwysig chwarae i blant wrth geisio cyflawni'r nod amhosibl o ddiogelwch absoliwt. Fodd bynnag, y neges bwysig yw y dylid cael rhyddid rhag risg annerbyniol o anafiadau angheuol neu anafiadau fyddai'n achosi anabledd parhaol mewn chwarae."**

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Play England – Philip Wolmuth

# Atodiad 3:
## Safonau Ewropeaidd ar gyfer offer meysydd chwarae



Play England – Nick Turner

# Atodiad 3: Safonau Ewropeaidd ar gyfer offer meysydd chwarae

### BS EN 1176: 2008 Playground equipment and surfacing Parts

This European Standard consists of a number of parts as follows:

EN 1176-1, Playground equipment and surfacing – Part 1: General safety requirements and test methods.

EN 1176-2, Playground equipment and surfacing – Part 2: Additional specific safety requirements and test methods for swings.

EN 1176-3, Playground equipment and surfacing – Part 3: Additional specific safety requirements and test methods for slides.

EN 1176-4, Playground equipment and surfacing – Part 4: Additional specific safety requirements and test methods for cableways.

EN 1176-5, Playground equipment and surfacing – Part 5: Additional specific safety requirements and test methods for carousels.

EN 1176-6, Playground equipment and surfacing – Part 6: Additional specific safety requirements and test methods for rocking equipment.

EN 1176-7, Playground equipment and surfacing – Part 7: Guidance on installation, inspection, maintenance and operation.

EN 1176-10, Playground equipment and surfacing – Part 10: Additional specific safety requirements and test methods for fully enclosed play equipment.

EN 1176-11, Playground equipment and surfacing – Part 11: Additional specific safety requirements and test methods for spatial network.

EN 1176 should be read in conjunction with:

EN 1177: 2006, Impact attenuating playground surfacing – Determination of critical fall height (draft version of EN 1177: 2006 is currently in circulation, publication of final standard to be confirmed).

### Cyflwyniad i EN 1176–1

Nid yw'n fwriad gan ofynion y safon yma i leihau'r cyfraniad y bydd offer meysydd chwarae'n ei wneud i ddatblygiad y plentyn a / neu chwarae, sy'n ystyriol o safbwynt addysgol. Mae'r safon yma'n cydnabod anawsterau mynd i'r afael â materion diogelwch yn ôl criteria oedran yn unig, gan fod y gallu i ddelio â risg yn seiliedig ar lefel sgiliau'r defnyddiwr unigol, yn hytrach na'u hoedran. Yn ogystal, mae'n sicr y bydd plant o oedrannau gwahanol i'r ystod oedran y bwriadwyd yr offer ar ei gyfer yn defnyddio'r offer ar y maes chwarae.

Mae cymryd risg a mentro'n nodwedd allweddol o ddarpariaeth chwarae ac o bob amgylchedd ble y bydd plant, yn gwbl gywir, yn treulio amser yn chwarae. Mae darpariaeth chwarae'n anelu i gynnig cyfle i blant wynebu risgiau derbyniol fel rhan o amgylchedd dysgu symbylol, heriol sydd wedi ei reoli. Dylai darpariaeth chwarae anelu at reoli'r cydbwysedd rhwng yr angen i gynnig risg a'r angen i gadw plant yn ddiogel rhag niwed difrifol.

Mae egwyddorion rheoli diogelwch yn berthnasol i weithleoedd yn gyffredinol, yn ogystal ag i ddarpariaeth chwarae. Fodd bynnag, mae'r cydbwysedd rhwng diogelwch a buddiannau'n debyg

o fod yn wahanol yn y ddau amgylchedd yma. Mewn darpariaeth chwarae, mae'n bosibl y bydd wynebu elfen o risg o fudd gan ei fod yn diwallu angen dynol sylfaenol ac yn rhoi cyfle i blant ddysgu am risg a chanlyniadau mewn amgylchedd wedi ei reoli.

Dylid parchu nodweddion chwarae plant a'r modd y bydd plant yn elwa o chwarae ar y maes chwarae gan ystyried eu datblygiad, yr angen i blant ddysgu i ymdopi â risg, ac y gallai hyn arwain at ambell i godwm a chlais a, hyd yn oed, asgwrn wedi ei dorri o dro i dro. Nod y safon yma'n bennaf yw rhwystro damweiniau sy'n achosi marwolaeth neu'n arwain at anableddau, ac yn ail i leihau canlyniadau difrifol a achosir yn sgîl ambell i anffawd fydd, yn gwbl anorfod, yn digwydd wrth i blant anelu i ehangu eu lefel cymhwysedd, boed yn gymdeithasol, yn ddeallusol neu'n gorfforol.

Mae gwrthod mynediad fel rhagofal diogelwch yn peri problem oherwydd, er enghraifft, diffyg goruchwyliaeth neu gymorth gan gyfoedion. Mae gofynion o bwys sylweddol, megis, er enghraifft, rhagofalon trapio'r pen neu'r gwddf a gwarchod rhag cwympo'n ddamweiniol, wedi eu hysgrifennu gan ystyried hyn. Cydnabyddir hefyd bod angen cynyddol i ddarpariaeth chwarae fod yn agored i ddefnyddwyr sydd ag anableddau. Wrth gwrs, mae hyn yn gofyn i ardaloedd chwarae ddarparu cydbwysedd rhwng diogelwch a chynnig y lefel angenrheidiol o her a symbyliad i bob grŵp posibl o ddefnyddwyr. Fodd bynnag, at ddibenion amddiffyn rhag trapio'r pen a'r gwddf, nid yw'r safon yma'n rhoi ystyriaeth arbennig i blant â phen mwy o faint (e.e. o ganlyniad i hydroseffalws neu syndrom Down) neu sy'n gorfod gwisgo helmed.

### Cyrhaeddiad EN 1176–1

Mae'r adran yma o EN 1176 yn nodi gofynion diogelwch cyffredinol ar gyfer arwynebau ac offer meysydd chwarae cyhoeddus. Caiff gofynion diogelwch ychwanegol, ar gyfer darnau penodol o offer maes chwarae, eu hegluro'n fanylach mewn adrannau eraill o'r safon hon.

Mae'r adran yma o EN 1176 yn berthnasol i offer meysydd chwarae ar gyfer pob plentyn. Mae wedi ei pharatoi gyda chydnabyddiaeth lawn o'r angen am oruchwylio plant iau a phlant sy'n llai abl neu gymwys.

Bwriad yr adran yma o EN 1176 yw sicrhau lefel diogelwch digonol tra'n chwarae mewn, ar neu o amgylch offer meysydd chwarae, ac ar yr un pryd hybu gweithgareddau a nodweddion y gwyddir sydd o fudd i blant oherwydd eu bod yn darparu profiadau gwerthfawr fydd yn eu galluogi i ymdopi â sefyllfaoedd y tu allan i'r maes chwarae.

Mae'r adran yma o EN 1176 yn berthnasol i offer meysydd chwarae y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio gan blant unigol neu grwpiau o blant, ag eithrio ar feysydd chwarae antur. Mae hefyd yn berthnasol i offer ac unedau a osodir fel offer meysydd chwarae plant, er nad ydynt yn cael eu gwneuthuro at y diben penodol hwn, ond sy'n eithrio'r eitemau hynny gaiff eu diffinio fel teganau gan EN 71 a'r Gyfarwyddeb Diogelwch Teganau.

SYLWER: Mae meysydd chwarae antur yn feysydd chwarae wedi eu diogelu, sydd â ffens o'u hamgylch, ac sy'n cael eu rhedeg a'u staffio yn unol â'r egwyddorion cyffredinol hynny sy'n annog datblygiad plant ac, sy'n aml iawn, yn defnyddio offer 'adeiladu eich hun'.

Mae'r adran yma o EN 1176 yn nodi'r gofynion fydd yn amddiffyn y plentyn rhag peryglon na fyddai modd iddo e / hi eu rhagweld pan yn defnyddio'r offer fel y bwriadwyd, neu mewn modd y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl.

*Rhoddir caniatâd i atgynhyrchu dyfyniadau o BS EN 1176:2008 gan Y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI). Ceir copïau PDF neu gopïau caled o'r Safonau Prydeinig o siop arlein BSI: www.bsigroup.com/Shop neu trwy gysylltu â llinell Gwasanaethau Cwsmeriaid BSI am gopïau caled yn unig: Ffôn: +44 (0)20 8996 9001, Ebost: cservices@bsigroup.com.*

## Diolchiadau

Hoffai Play England a'r awduron ddiolch i'r isod am eu cymorth gyda'r canllaw hwn.

Julia Bard, Clare Bryan, Nicola Butler, Isobel Cameron, Steven Chown, Issy Cole-Hamilton, Claire Colvine, David Crighton, Phil Doyle, Alan Finlay, Andy Furze, Paddy Harrop, David Hughes, Hamdi Khalif, Jon Kirke, Christine Lehman, Ben Oliver, Victoria Pinney, Pete Rawlinson, Jacqui Roberts, Ashley Rogers, Ken Ryan, Alistair Seaman, Aileen Shackell, Stairway Communications Limited, Robin Sutcliffe, Andrea Winterflood, Andrew Wright, Andrew Yates.

### Cydnabyddiaethau ffotograffiaeth

Llun clawr – Play England/Nick Turner Photography

| Tudalen | Credit |
|---|---|
| 6 | Play England – Ken Ryan |
| 8 | Play England – Nick Turner |
| 10 | A.P.E.S |
| 11 | Play England – Nick Turner |
| 12 | Play England – Philip Wolmuth |
| 13 | Play England – Lisa Davis |
| 14 | Association of Play Industries – Deborah Holt |
| 16 | Play England – Nick Turner |
| 17 | Play England – Philip Wolmuth |
| 18 | Tim Gill |
| 20 | Play England – Nick Turner |
| 22 | Play England – Philip Wolmuth |
| 24 | Play England – Nick Turner |
| 25 | Play England – Nick Turner |
| 26 | Play England – Nick Turner |
| 28 | Play England – Nick Turner |
| 31 | Three Mill – Dan Childs Films |
| 33 | Play England – Philip Wolmuth |
| 34 | Play England – Wendy Brookfield |
| 36 | Play England – Alan Finlay |
| 37 | Aileen Shackell, Phil Doyle, Tim Gill |
| 39 | Play England – Ken Ryan |
| 40 | Play England – Alan Finlay |
| 42 | Play England – Alan Finlay |
| 44 | Play England |
| 46 | Play England – Nick Turner |
| 48 | Play Scotland |
| 53 | Play England – Wendy Brookfield |
| 54 | Play England – Wendy Brookfield |
| 56 | Play England – Ken Ryan |
| 59 | Aileen Shackell |
| 61 | Play England – Philip Wolmuth |
| 63 | Play England – Nick Turner |
| 70 | Children's Links |
| 71 | Andy Furze |
| 74 | Play England – Wendy Brookfield |
| 77 | Monkey – Do |
| 79 | Robin Sutcliffe |
| 82 | Comisiwn Coedwigaeth |
| 87 | Thornlie |
| 88 | Play England – Philip Wolmuth |
| 89 | Phil Heaton |
| 91 | Tim Gill |
| 93 | Cyngor Dinas Wolverhampton |
| 94 | PlayBoard Northern Ireland |
| 95 | Play England |
| 96 | Play England – Ken Ryan |
| 97 | Play England – Philip Wolmuth |
| 102 | Chwarae Cymru |
| 106 | Milton Keynes Play Association (MKPA) |
| 109 | Play England – Philip Wolmuth |
| 113 | Play England – Philip Wolmuth |
| 114 | Play England – Nick Turner |

*Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*
David Ball, Tim Gill a Bernard Spiegal

Ysgrifennwyd y canllaw hwn ar gyfer pobl sy'n gyfrifol am reoli darpariaeth chwarae, yn enwedig ardaloedd chwarae cyhoeddus heb eu staffio, ac ar gyfer y rheini sydd ynghlwm â dylunio a chynnal darpariaeth o'r fath. Dylai'r agwedd gyffredinol fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer y bobl hynny sy'n rheoli mannau a sefyllfaoedd eraill ble fo plant yn chwarae.

Ar hyn o bryd ceir rhywfaint o ddryswch a phryder ynghylch diogelwch chwarae. Mae llawer o ddarparwyr yn ansicr ynghylch eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau, a'r modd y mae'r rhain yn perthyn i'r gyfraith, polisi cyhoeddus, safonau a chanllawiau. Ond, yn fwy cadarnhaol, ceir arwyddion o ddadl adeiladol a hinsawdd polisi iachach.

Mae'r canllaw gweithredu hwn yn dangos sut y gall darparwyr chwarae ddatblygu agwedd tuag at reoli risg sy'n ystyried buddiannau profiadau chwarae heriol i blant a phobl ifainc, yn ogystal â'r risgiau. Mae'n cychwyn o'r safbwynt bod y cyfrifoldeb terfynol ar gyfer llunio penderfyniadau, er bod cyngor a gwybodaeth arbenigol allanol yn werthfawr, yn aros gyda'r darparwr.

Cyhoeddir yr argraffiad hwn o *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu* gan yr NCB, ar gyfer Play England ar ran y Play Safety Forum.

Cynhelir y Play Safety Forum gan Play England. Cefnogir y cyhoeddiad hwn gan Chwarae Cymru, Play Scotland a PlayBoard Northern Ireland.

Ail-argraffiad
ⓗ National Children's Bureau 2012
ISBN: 978-0-9540130-5-9
National Children's Bureau, 8 Stryd Wakley, Llundain, EC1V 7QE  Ffôn: 020 7843 60000
Gwefan: www.ncb.org.uk
Rhif elusen gofrestredig: 258825